

Adroddiad Blynyddol PAEF 2021-2022



Contents

3	Rhagair
6	Themâu allweddol
7	Adfer ar ôl COVID-19
10	Diwygio'r Cwricwlwm
14	Diwygio anghenion dysgu ychwanegol
16	Mynd i'r afael ag effaith tlodi a difreintedd
19	Darparwyr sydd wedi gwella'n gyflym
26	Adroddiadau sector
27	Adroddiad sector: Meithrinfeydd nas cynhelir 2021-2022
28	Adroddiad sector: Meithrinfeydd nas cynhelir 2021-2022
32	Adroddiad sector: Cynradd 2021-2022
40	Adroddiad sector: Uwchradd 2021-2022
51	Adroddiad sector: Ysgolion pob oed a gynhelir 2021-2022
55	Adroddiad sector: Ysgolion arbennig a gynhelir 2021-2022
60	Adroddiad sector: Ysgolion arbennig annibynnol 2021-2022
65	Adroddiad sector: Prif ffrwd annibynnol 2021-2022
69	Adroddiad sector: Unedau cyfeirio disgyblion 2021-2022
74	Adroddiad sector: Colegau arbenigol annibynnol 2021-2022
78	Adroddiad sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol 2021-2022
85	Adroddiad sector: Addysg bellach 2021-2022
91	Adroddiad sector: Dysgu yn y gwaith 2021-2022
96	Dysgu oedolion yn y gymuned 2021-2022
99	Adroddiad sector: Addysg gychwynnol i athrawon 2021-2022
102	Adroddiad sector: Cymraeg i oedolion 2021-2022
106	Adroddiad sector: Cyfiawnder 2021-2022
110	Adroddiadau thematig ar dudalen
111	Ysgolion pob oed yng Nghymru
113	"Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon"
115	Addysg Drochi Cymraeg
117	Addysgu hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
119	Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru
121	Cyfeirnodau

Rhagair

Yn fy adroddiad cyntaf fel PAEF, hoffwn ddechrau trwy ddiolch i gydweithwyr a'r sector am y croeso a gefais wrth i mi deithio o gwmpas Cymru yn cyfarfod ag ymarferwyr, dysgwyr a'u rhieni, llywodraethwyr a chyrff sy'n cefnogi addysg a hyfforddiant. Hoffwn ddiolch hefyd i Claire Morgan yn rhinwedd ei swydd fel prif arolygydd dros dro a'r cyn brif arolygydd, Meilyr Rowlands, am ei arweinyddiaeth a'i ymroddiad i addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae addysg yng Nghymru yn newid ac yn Estyn rydym yn esblygu ein hymagwedd tuag at ein gwaith i adlewyrchu'r dirwedd gyfnewidiol hon. Yn y rhagair hwn, byddaf yn sôn am y newidiadau hyn ac yn amlgu rhai themâu o'n gwaith eleni. Mae'r themâu hyn yn cynnwys effeithiau parhaus y pandemig, pwysigrwydd lleddfu effaith amddifadedd a materion sy'n effeithio ar addysgu Cymraeg fel ail iaith ac addysg cyfrwng Cymraeg.

Un o fy mhrif flaenoriaethau ers i mi ymuno ag Estyn fu sicrhau bod ein gwaith yn cael mwy o effaith, felly mae'r adroddiad blynyddol eleni yn wahanol. Rydym wedi ceisio ei wneud yn fwy hygyrch, amserol a defnyddiol i ymarferwyr, gan gadw'r trylwyrder a'r ehangder y mae pobl yn eu disgwyl o'n gwaith. I'r perwyl hwn, ym mis Medi, cyhoeddodd ein [mewnwelediadau cynnar](#) cychwynnol yn crynhoi beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella ym mhob sector, ynghyd â'n myfyrdodau ar themâu allweddol mewn addysg yng Nghymru. Darparom adnoddau i ymarferwyr hefyd ar feysydd i'w gwella ar ffurf cwestiynau hunanfyfrio.

Mae'r fersiwn lawn hon o'r adroddiad blynyddol yn ymhelaethu ar y negeseuon a rannwyd ym mis Medi ac yn cynnwys y sylwebaeth a'r dadansoddiad arferol. Yn ogystal â hyn, mae canllawiau i wybodaeth gyd-destunol am bob sector. Agwedd allweddol arall ar ein gwaith bob blwyddyn yw llunio adroddiadau thematig ar ystod o bynciau pwysig. Rydym wedi dewis pump o'n hadroddiadau thematig o 2021-2022 ac wedi llunio fersiynau cryno o'r rhain fel rhan o'r adroddiad blynyddol hwn.

Dysgwyr yw prif ffocws ein gwaith o hyd ac rydym yn chwilio'n barhaus am ffyrdd i wella ein hymgylltiad â nhw. Felly, am y tro cyntaf, rydym wedi creu adnoddau i ddisgyblion mewn ysgolion [cynradd](#) ac [uwchradd](#) wedi'u seilio ar themâu o'n hadroddiad blynyddol. Rydym yn gobeithio ehangu'r gwaith hwn yn y dyfodol.

Ar gyfer pob sector, rhoddwyd lle blaenllaw i ymdrin ag effaith barhaus y pandemig yn ystod 2021-2022. Ymatebodd darparwyr addysg a hyfforddiant i'r heriau hyn â gwroldeb, gan roi dysgwyr wrth wraidd eu gwaith. Yn sgil hyn, fe wnaethom gydnabod yr angen i ailddechrau ein gwaith yn araf ac mewn modd sensitif. Er i ni gynnal ymweliadau monitro ac arolygiadau ar-lein mewn ychydig o sectorau yn ystod tymor yr hydref, un o fy mhenderfyniadau cyntaf oedd gohirio ailddechrau mwyafrif ein harolygiadau craidd tan ar ôl hanner tymor mis Chwefror, gan ein bod o'r farn bod y system dan bwysau difrifol o hyd.



Adnoddau plant
[Adnoddau cynradd](#)
[Adnoddau uwchradd](#)

Roeddem yn falch ac yn ddiolchgar bod penaethiaid wedi gwirfoddoli i beilota ein trefniadau arolygu diwygiedig mewn ysgolion. Adeiladodd y model peilot ar ein hymweliadau ymgysylltu ac argymhellion adroddiad 2018 [‘Arolygiaeth Dysgu’](#). Fe wnaeth yr ymagwedd newydd hon ystyried effaith y pandemig, gan gadw'r trylwydder a ddisgwylir gan Estyn, ond heb raddau crynodedol. Roedd hwn yn newid sylweddol ac yn un sy'n cydfynd ag ymdrechion cenedlaethol i ddatblygu system sy'n hunanwella. Mae hefyd yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gydweithio'n agosach â darparwyr addysg i amlygu arfer orau a chael deialog fwy proffesiynol ynghylch meysydd i'w gwella.

Rydym wedi cael adborth cadarnhaol am ein hymagwedd newydd. Yn benodol, mae cael gwared ar raddau crynodedol wedi galluogi darparwyr ac arolygwyr i ganolbwyntio'n agosach ar gryfderau a meysydd i'w datblygu. Nid yw'r ymagwedd newydd hon heb ei heriau, wrth gwrs. Amlygodd adborth gan rieni yn benodol anhawster o ran cyfleu ein canfyddiadau heb raddau, a dyna pam rydym wedi lansio ein fersiynau cyntaf o adroddiadau arolygu i rieni i esbonio'r canfyddiadau'n well.

Er gwaethaf yr heriau niferus a ddaeth yn sgil y pandemig, bu rhai deilliannau cadarnhaol i'r system addysg. Er enghraifft, daeth â sefydliadau'n agosach at eu dysgwyr a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Helpodd hefyd i amlygu i'r cyhoedd angerdd addysgwyr tuag at eu galwedigaeth a'u dyfeisgarwch wrth addasu i'r anawsterau roeddent yn eu hwynebu. Er i lawer o'r materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig ddechrau dangos arwyddion o wella'n raddol, roedd heriau o hyd. Er enghraifft, roedd medrau rhifedd a llythrennedd llawer o ddysgwyr, yn enwedig medrau llefaredig disgyblion iau, yn araf i wella. Dangosodd ychydig o ddisgyblion ymddygiad heriol wrth iddynt gael trafferth ailddygyddol ag arferion a disgwyliadau bywyd ysgol. Ar draws y system, gwelsom alw cynyddol am gefnogaeth lles ac iechyd meddwl, ac roedd presenoldeb, yn enwedig ymhlith y dysgwyr mwyaf difreintiedig, yn parhau'n is na'r lefelau cyn y pandemig.

Roedd effeithiau'r pandemig yn fwy hirhoedlog ymhlith sectorau a grwpiau penodol o ddysgwyr na rhai eraill. Cafodd y pandemig effaith arbennig o negyddol ar ddysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Bu adferiad yn arafach ac yn fwy heriol i UCDAu, ysgolion arbennig a darparwyr dysgu yn y gwaith hefyd. Bydd adferiad i'r grwpiau a'r sectorau hyn yn cymryd amser. Fodd bynnag, roedd yn galonogol gweld dysgwyr yn croesawu dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb a symud tuag at addysg fwy normal.

Wrth esblygu eu cwricwlwm newydd, cydnabu mwyafrif y darparwyr bwysigrwydd addasu a gwella eu haddysgu, yn ogystal â chynnwys eu cwricwlwm. Fodd bynnag, ni roddodd bob darparwr ddigon o flaenoriaeth i wella ansawdd addysgu a dysgu ochr yn ochr â dylunio'r cwricwlwm. Roedd llawer o arweinwyr yn poeni o hyd am asesu a dilyniant a sut olwg ddylai fod ar gynnydd trwy'r cwricwlwm. Yn aml, roedd y cymorth a gafodd ysgolion gan awdurdodau lleol a chonsortia yn rhy gyffredinol, yn hytrach nag yn ddigon teilwredig.

Yn nhymor yr hydref 2022-2023, cryfhaodd Estyn y pwyslais yn ein fframweithiau arolygu ar waith darparwyr i leddfu effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Wrth gwrs, mae gwaith ysgolion a darparwyr yn un rhan yn unig o'r ateb i fynd i'r afael â thlodi plant. Rydym hefyd yn canolbwyntio ar waith awdurdodau lleol yn y maes hwn, yn enwedig sut maent yn cydlynu eu gwasanaethau cymorth. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar waith darparwyr i leddfu effaith amddifadedd dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yn yr adroddiad blynyddol hwn, rydym wedi rhoi enghreifftiau o'r math o arfer a welwn mewn darparwyr sy'n arbennig o effeithiol o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi a difreintedd.

Cyhoeddodd awdurdodau lleol eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCAau) 10 mlynedd yn 2021-2022. Roedd hyn yn garreg filltir arwyddocaol o ran paratoi i fodloni'r targedau cenedlaethol sydd wedi'u hamlinellu yng nghynllun [‘Cymraeg 2050’](#) Llywodraeth Cymru. Roedd amrywiant o ran maint yr uchelgais a'r ymrwymiad i gyflawni'r cynlluniau hyn. Mae llawer o'r cynlluniau'n pennu camau clir i gynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion a lleoliadau ac mae ffocws clir ar wella darpariaeth trochi Cymraeg, yn unol â'r argymhellion o'n hadroddiad ar [Addysg Drochi Cymraeg – Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed](#). Yn ein harolygiadau, gwelsom ddiffygion o hyd o ran ansawdd addysgu a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac nid oedd mwyafrif y CSCAau yn gwneud cynlluniau cadarn ac uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r agwedd hon.

Yn ystod y cyfnodau clo, ni chafodd disgyblion ddigon o gyfleoedd i ddatblygu a defnyddio eu medrau Cymraeg. Cafodd hyn effaith sylweddol ar hyder, rhuglder ac awydd disgyblion i siarad Cymraeg ym mhob ysgol. Hefyd, roedd rhwystredigaeth amlwg ymhlith arweinwyr addysgol ynghylch prinder staff sy'n medru'r Gymraeg ar draws y system addysg. Yn ogystal, roedd cynnydd tuag at ddatblygu hyder ymarferwyr a'u gallu i ddefnyddio'r iaith, ynghyd â'u dealltwriaeth o sut i addysgu Cymraeg, yn gyfyngedig. Gwelsom ryw faint o gydweithio addawol, er enghraifft rhwng awdurdod lleol a darparwyr Cymraeg i Oedolion ac addysg uwch i ddarparu dysgu proffesiynol i staff mewn ysgolion a myfyrwyr addysg gychwynnol athrawon. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cynnydd tuag at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn peri pryder sylweddol o hyd.

Eleni, cynhaliom ystod o weithgarwch arolygu ac adolygiadau thematig o addysg ôl16. Edrychom ar gyfleoedd cyffredinol y cwricwlwm ar draws ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith i'r rhai 16 i 19 oed yng Nghymru. Fe wnaethom ddarganfod fod gormod o amrywiaeth yn y cyfleoedd i bobl ifanc, yn dibynnu ar ble maent yn byw. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, roedd diffyg cydweithio rhwng darparwyr i fynd i'r afael â'r amrywiaeth hwn. Nod y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yw hyrwyddo mwy o gydlynid a chydweithio ar draws darpariaeth ôl-16. Cyfrannom at y drafodaeth am ddiwygio addysg bellach ac addysg uwch a'r adolygiad o gymwysterau galwedigaethol a gynhaliwyd cyn sefydlu'r comisiwn hwn.

Mae addysg wedi esblygu wrth i ddarparwyr ymateb yn ystwyth a hyblyg i'r newidiadau a ddaeth yn sgil y pandemig, ond bydd y system yn parhau i deimlo effaith y pandemig am flynyddoedd i ddod. Er bod darparwyr wedi canolbwyntio'n briodol ar les dysgwyr a staff, parhaodd ein darparwyr cryfaf i gynnal hunanwerthusiadau agored a gonest a chanolbwyntio'n ddi-ildio ar addysgu a dysgu, ynghyd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

I gloi, hoffwn amlygu unwaith eto'r gwydnwch a'r arloesedd a ddangoswyd gan addysgwyr ledled Cymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydym yn ddiolchgar am yr ymroddiad a'r ymrwymiad y maent wedi'u dangos wrth wynebu heriau aruthrol.

Owen Evans

Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Themâu allweddol





Adfer ar ôl COVID-19

Ar draws pob sector, roedd effaith y pandemig COVID-19 yn parhau i gael ei theimlo ar hyd blwyddyn academiaidd 2021-2022. Roedd yr effaith hon yn amlwg trwy barhad cyfyngiadau gweithredol a hylendid, fel y gofyniad i wisgo masgiau. Llaciodd y cyfyngiadau hyn yn raddol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, ond wrth i ddarparwyr droi at ffordd fwy 'arferol' o weithredu, daeth effaith lawn y flwyddyn a hanner blaenorol ar ddysgwyr, staff a gwaith cyffredinol darparwyr yn fwy amlwg.

Mewn cyferbyniad â'r flwyddyn flaenorol, ni chafwyd unrhyw gyfnodau clo cenedlaethol, ond fe wnaeth achosion o COVID-19 ymhlith dysgwyr a staff achosi tarfu ar addysgu, dysgu a pharhad darpariaeth trwy gydol y flwyddyn. Bu'n rhaid i rai ysgolion a lleoliadau eraill anfon grwpiau blwyddyn neu ddosbarthiadau adref oherwydd problemau staffio yn dilyn achosion o COVID-19, ac roedd darparwyr yn cael anhawster dod o hyd i staff cyflenwi. Roedd hyn yn her arbennig adeg y cynnydd yn yr achosion o'r amrywiolyn Omicron yng Nghymru ar ôl y Nadolig, a chynnydd pellach mewn achosion yn nhymor yr haf. Effeithiodd hyn ar ddysgwyr mewn ysgolion arbennig ac UCau yn benodol, wrth iddynt ei chael hi'n anodd sefydlu perthnasoedd gyda staff anghyfarwydd. Cafodd y pandemig effaith negyddol ar gynnydd llawer o ddysgwyr ar draws y rhan fwyaf o sectorau, yn enwedig y rheiny o gefndiroedd difreintiedig.

Canlyniad ychwanegol y pandemig oedd recriwtio, yn enwedig i rolau staff cymorth, gan gynnwys rolau gweinyddol a chynorthwyrwyr addysgu. Yn aml, roedd darparwyr yn gweld eu hunain yn cystadlu yn erbyn swyddi a oedd yn talu cyflogau tebyg neu gyflogau gwell, ond heb allu cynnig hyblygrwydd gweithio o gartref, ac o ganlyniad roeddent yn cael anhawster denu ymgeiswyr. Roedd hon yn her nodedig i leoliadau nas cynhelir lle'r oedd staff wedi cael cyflogaeth arall pan oeddent ar gau yn ystod y pandemig. Roedd recriwtio staff Cymraeg eu hiaith yn parhau yn her ar draws yr holl sectorau.

Yn y rhan fwyaf o sectorau, roedd dysgwyr yn croesawu dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, ac yn gyffredinol, roedd yn well ganddynt hynny na darpariaeth ar-lein. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ysgolion, colegau, darparwyr AGA (Addysg Gychwynnol Athrawon), dysgu yn y sector cyfiawnder a dysgu yn y gwaith, lle'r oedd ymgysylltu â dysgu yn well nag yn ystod cyfnodau dysgu o bell. Mewn dysgu oedolion, gan gynnwys Cymraeg i Oedolion, roedd llawer o ddysgwyr yn hoffi'r hyblygrwydd yr oedd darpariaeth ar-lein yn ei chynnig, a theimlent fod hynny'n cydweddu'n dda â'u ffyrdd o fyw. Roeddent yn teimlo hefyd fod dysgu ar-lein yn fuddiol i'w hiechyd meddwl a'u lles yn gyffredinol. Fel yn Lloegr, bu cynnydd sylweddol yn nifer y dysgwyr a ddewisodd gael eu haddysgu gartref, yn dilyn y pandemig. Er mai darpariaeth wyneb yn wyneb oedd yn well gan ddysgwyr yn gyffredinol yn y rhan fwyaf o sectorau, roedd darparwyr yn gweld manteision cynnal agweddau ar weithio ar-lein, yn enwedig ar gyfer dysgu proffesiynol staff a chyfarfodydd.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Fe wnaeth staff ar draws sectorau wella'u gallu i gyflwyno dysgu o bell. Dechreuodd darparwyr mewn sectorau fel AGA, addysg bellach a dysgu yn y gwaith ystyried sut y gallent gadw agweddau ar ddysgu o bell yn eu darpariaeth.

Roedd rhai nodweddion cyffredin yn gysylltiedig â'r pandemig a oedd yn amlwg ar draws yr holl sectorau neu nifer o sectorau. Roedd y rhain yn cynnwys agweddau cadarnhaol, fel:

- Fe wnaeth arweinwyr ar draws sectorau ymateb gydag ystwythder i'r pandemig, gan addasu eu darpariaeth yn rheolaidd ac yn greadigol i fodloni cyfyngiadau a oedd newid yn gyson. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, fe wnaeth llawer o ddarparwyr ailgyflwyno gweithgareddau yr effeithiodd y cyfyngiadau arnynt, fel gweithgareddau mewn pynciau ymarferol, cyfleoedd allgyrsiol a theithiau.
- Rhoddwyd ffocws cryf ar les dysgwyr a staff. Arweiniodd hyn at ddarpariaeth gynyddol a mwy amrywiol ar gyfer cefnogi lles yn y rhan fwyaf o sectorau.
- Dros y flwyddyn, a chan ddychwelyd at addysg fwy 'arferol', fe wnaeth llawer o'r 'materion' a waethygydd gan y pandemig, fel y dirywiad ym medrau llefaredd a medrau cymdeithasol dysgwyr, neu orbryder dysgwyr, ddangos gwelliant graddol, ond roeddent yn parhau o hyd.
- Yn gyffredinol, arweiniodd cyfathrebu gwell a mwy helaeth yn ystod y pandemig at berthnasodd gwell â dysgwyr, rhieni a gofawyr, a dealltwriaeth well ymhlith darparwyr o'r teuluoedd a'r cymunedau yr oeddent yn eu gwasanaethu.

Roedd nifer o faterion cyffredin a effeithiodd ar ystod o sectorau hefyd:

- Bu cynnydd cyffredinol yn y galw am gymorth ar gyfer materion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl ar draws y rhan fwyaf o sectorau.
- Parhaodd cyfraddau presenoldeb, mewn ysgolion ac UCau yn benodol, islaw'r lefelau cyn y pandemig, ac roedd materion yn ymwneud ag absenoldeb parhaus yn fwy ystyfnig ac anodd i fynd i'r afael â nhw nag yn flaenorol.
- At ei gilydd, effeithiodd y pandemig yn andwyol ar fedrau llythrennedd a rhifedd llawer o blant a phobl ifanc, er iddynt ddechrau gwella'n gyflym wrth ddychwelyd at addysg wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn llai o fater i ddysgwyr yn y chweched dosbarth a dysgwyr sy'n oedolion, a ymgysylltodd yn dda â'u dysgu yn ystod y pandemig, yn gyffredinol. Adroddodd darparwyr yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith fod gan ddysgwyr lefelau medrau llythrennedd a rhifedd is, yn gyffredinol, wrth iddynt ddechrau cyrsiau, na chyn y pandemig. Y bylchau yn eu dysgu dros y flwyddyn a hanner blaenorol oedd i gyfrif am hyn yn bennaf.
- Roedd y dirywiad ym medrau llefaredd dysgwyr yn peri pryder arbennig mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir, yn enwedig ar gyfer y plant ieuengaf, er i hyn wella, yn gyffredinol, wrth ddychwelyd at ddarpariaeth wyneb yn wyneb.
- Effeithiwyd yn negyddol ar allu a pharodrwydd dysgwyr i ddefnyddio Cymraeg llafar gan gyfnodau hir o ddiffyg cyswllt â'r iaith. Mewn darparwyr cyfrwng Cymraeg a Saesneg, nid oedd gan lawer o ddysgwyr yr hyder i siarad Cymraeg wrth iddynt ddychwelyd, gan mai drwy eu darparwr addysgol fu eu prif gyswllt â'r iaith erioed. Mewn ysgolion uwchradd yn benodol, bu dirywiad cyffredinol yn y defnydd o'r Gymraeg rhwng cyfoedion. Rhoddodd llawer o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg bwyslais cryf ar wella Cymraeg llafar dysgwyr, a chafodd hynny effaith gadarnhaol.
- Mewn llawer o sectorau, cafwyd effaith negyddol nodedig ar fedrau cymdeithasol rhai dysgwyr, yn enwedig yn nhymor cyntaf y flwyddyn academiaidd. Er enghraifft, mewn lleoliadau nas cynhelir, bu cynnydd yn nifer y plant â medrau cymdeithasol a phersonol llai datblygedig, a oedd yn ei chael hi'n anodd rhannu a chwarae â phlant eraill. Mewn ysgolion arbennig, UCau a'r sector cyfiawnder, roedd ychydig o ddysgwyr yn cael trafferth ailgydio ag arferion mwy normal. Mewn ysgolion uwchradd, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn cael anawsterau ailymgysylltu â bywyd a disgwyliadau ysgol, gan arwain at gynydd mewn materion ymddygiad yn y tymor cyntaf yn arbennig.
- Ar gyfer sectorau a oedd yn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, arweiniodd y pandemig at arafu cynnydd ar ddiwygio'r cwricwlwm mewn rhai darparwyr. Roedd hyn yn wir mewn ychydig o ysgolion cynradd a llawer o ysgolion uwchradd, lle mae

graddfa amser y ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru yn wahanol. Golygai hyn fod myfyrwyr ar gyrsiau AGA wedi cael profiadau amrywiol iawn o ddiwygio'r cwricwlwm, gan ddibynnu ar yr ysgolion yr oeddent wedi'u lleoli ynddynt.

- Cafodd cyfyngiadau'n gysylltiedig â'r pandemig effaith sylweddol ar addysg alwedigaethol a phynciau a phrofiadau ymarferol. Mewn dysgu yn y gwaith ac addysg bellach, arweiniodd cyfyngiadau ar asesiadau ymarferol a lleoliadau gwaith at ôl-groniad o gymwysterau anghyflawn a diffyg profiadau ymarferol. Effeithiodd y cyfyngiadau'n ddifrifol hefyd ar bynciau fel cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg ac addysg gorfforol.
- Ar draws sectorau, ailgydiodd llawer o ddarparwyr yn raddol ag agweddau ar eu prosesau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd a gafodd eu hoedi oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, roedd ychydig o ddarparwyr ar draws pob sector yn araf yn ailgydio â'r gwaith hwn, a arweiniodd at fod ganddynt ddealltwriaeth anghyflawn o rai cryfderau pwysig a meysydd i'w gwella.



Diwygio'r Cwricwlwm

Bu hwn yn gyfnod anodd i ddarparwyr wrth iddynt barhau i wynebu heriau'r pandemig COVID-19 ar yr un pryd â cheisio cynnal eu momentwm wrth ddatblygu addysgu a dysgu i alinio â'r Cwricwlwm i Gymru. Golygai effaith y pandemig, yn ogystal ag effeithiolrwydd gallu darparwyr i sicrhau newid a gwelliant, mai amrywiol oedd y cynnydd. Er enghraifft, fe wnaeth cyfyngiadau COVID-19 gyfyngu ar gyfleoedd i ymarferwyr nodi a rhannu addysgeg effeithiol o fewn darparwyr a rhwng darparwyr. Er gwaetha'r heriau, mewn llawer o achosion, gweithiodd arweinwyr gyda staff i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o barhau i gydweithio i ddatblygu'r cwricwlwm ac addysgeg. Yn y sector cynradd, fe wnaeth profiad o addysgeg y dysgu sylfaen a dull mwy sefydledig o gymhwyso medrau ar draws y cwricwlwm gynorthwyo athrawon i ddechrau addasu eu haddysgeg, er enghraifft darparu profiadau dysgu bywyd go iawn ar gyfer disgyblion.

Yn yr ysgolion uwchradd a oedd yn gwneud cynnydd addas tuag at ddiwygio'r cwricwlwm, roeddent yn canolbwyntio'n fanwl ar wella addysgu, datblygu dealltwriaeth staff o ddylunio'r cwricwlwm a dilyniant mewn dysgu. Roeddent hefyd yn ystyried eu dulliau pontio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd yn ofalus. Yn yr achosion hyn, roedd ysgolion yn defnyddio'u trefniadau pontio i gefnogi cynnydd disgyblion yn ogystal â helpu disgyblion i ymgartrefu ym mywyd ysgol. Yn yr ysgolion uwchradd lle'r oedd cynnydd tuag at ddiwygio'r cwricwlwm yn effeithiol o leiaf, aethant ati'n rhy gyflym i ddechrau dylunio'u cwricwlwm heb feddwl yn ofalus am wella addysgu neu ystyried y wybodaeth, y medrau a'r profiadau y mae eu hangen ar eu disgyblion i lwyddo. Yn ogystal, dywedodd ysgolion fod gofynion cymwysterau penodol i bwnc yn ei gwneud yn anodd iddynt ystyried eu dulliau ar gyfer dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm.

Diwygiad cymwysterau galwedigaethol

Yn y sector ôl-16, parhaodd Cymwysterau Cymru i symud ymlaen â chyfres o adolygiadau sector galwedigaethol fel rhan o'i bolisi cymwysterau galwedigaethol yn gysylltiedig â diwygio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru. Datblygwyd cymwysterau newydd 'wedi'u creu yng Nghymru' mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant, adeiladu a gwasanaethau adeiladu o ganlyniad i'r gwaith hwn. Er bod arweinwyr mewn ysgolion, colegau a darparwyr dysgu yn y gwaith yn gadarnhaol yn gyffredinol ynglŷn â datblygu'r cymwysterau galwedigaethol newydd hyn sy'n benodol i Gymru, mynegodd llawer rwystredigaeth â materion cynnar yn ymwneud â dylunio a gweithredu'r cymwysterau hyn. Arweiniodd hyn at adolygiadau a diwygiadau i'r cymwysterau hyn. Roedd dyfodol llawer o gymwysterau presennol, fel BTEC, yn ansicr oherwydd newidiadau arfaethedig i gyllid yn Lloegr yn gysylltiedig â chyflwyno cymwysterau technegol galwedigaethol (lefelau-T) a thynnu arian yn ôl ar gyfer llawer o gymwysterau presennol. Roedd yr

Canfyddiadau cryno
Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

effaith ar y cwricwlwm 16-19 yng Nghymru yn ansicr gan nad oedd sefydliadau dyfarnu wedi cyhoeddi eu cynlluniau eto i barhau i gynig cymwysterau yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau hyn i ddarparwyr yng Nghymru. Roedd darparwyr ôl-16 yng Nghymru yn arbennig o bryderus ynglŷn ag effaith debygol y diwygiadau hyn ar argaeledd cymwysterau galwedigaethol. Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg y byddent yn adolygu'r cynig cymwysterau galwedigaethol presennol yng Nghymru ac yn defnyddio'r canfyddiadau i ddwyn diwygiadau ymlaen.

Gwella addysgu

Ar draws yr holl sectorau a oedd yn paratoi i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, bu ymarferwyr yn ystyried ac yn archwilio dulliau addysgu yn briodol i gefnogi gweithredu'r cwricwlwm a gwella'u harfer. Mewn lleiafrif o leoliadau nas cynhelir, roedd symudiad nodedig tuag at ddulliau yn cael eu harwain fwy gan blant, a chefnogwyd llawer o hyn gan gyhoeddi'r [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir](#). Yn y lleoliadau hyn, arweiniodd yn aml at ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu a oedd yn dilyn diddordebau plant, gan barhau i adeiladu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau yn gynyddol. Felly'r oedd hi hefyd mewn llawer o ysgolion cynradd, lle'r oedd athrawon yn dyfeisio ffyrdd yn gynyddol i gynnwys disgyblion wrth gynllunio beth a sut yr oeddent yn dysgu. Fodd bynnag, amrywiol oedd effeithiolrwydd y dulliau hyn.

Yn y sector uwchradd, dechreuodd athrawon ystyried ffyrdd i ddatblygu eu dulliau addysgu er mwyn cynyddu buddion i'r eithaf ar gyfer dysgu disgyblion. Lle'r oedd hyn yn fwyaf llwyddiannus, nododd athrawon synergeddau naturiol rhwng pynciau a buont yn cydweithio'n effeithiol rhwng adrannau i gynllunio cyfleoedd i ddisgyblion adeiladu ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a chymhwyso'u medrau. Lle'r oedd yn llai llwyddiannus, aeth ysgolion ati i weithio ar draws adrannau heb ystyried y buddion a'r diffygion yn ddigonol. Yn rhy aml, roedd hyn yn golygu gwneud newidiadau graddfa lawn i adrannau a Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) heb feddwl am eu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu. Yn aml, arweiniodd hyn at ysgolion yn rhoi thema drosfwaol ar waith ar gyfer adran neu faes cyfan heb feddwl yn gyntaf am ddysgu effeithiol yn y disgyblaethau ar wahân. Arweiniodd hyn at wneud cysylltiadau petrus ac ni chafodd effaith gadarnhaol ar ddysgu na chynnydd disgyblion. Ym mis Medi, cyhoeddodd gofweinïon i'w defnyddio gyda disgyblion i archwilio y modd y gallan nhw gydweithio'n agosach i gynllunio dysgu.

At ei gilydd, ar draws pob sector, roedd ymarferwyr yn croesawu'r cyfle i addasu eu hymarfer i fodloni anghenion disgyblion yn fwy effeithiol yn eu lleoliadau. Roeddent yn sôn yn aml am fwy o ymdeimlad o ryddid i arbrofi ac archwilio dulliau newydd. Lle'r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn annog ymarferwyr i fyfyrïo'n ofalus ar eu harfer gan gynnal ffocws clir ar yr effaith ar ddeilliannau a chynnydd disgyblion.

Yn ein hadroddiad thematig yn 2018, '[Gwella Addysgu](#)', buom yn myfyrïo ar beth yw addysgu effeithiol a darparom enghreifftiau defnyddiol o'r modd yr aeth ysgolion ati i wneud newidiadau. Mae'r pecynnau cymorth '[Addysgu a Dysgu](#)' a'r '[Blynyddoedd Cynnar](#)' gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol yn darparu crynodebau gwerthfawr o gost ac effaith dulliau amrywiol o wella cynnydd dysgwyr.

Dylunio a chynllunio'r cwricwlwm

Aeth darparwyr ati i addasu eu cwricwlwm yn gynyddol i adlewyrchu cyd-destun eu lleoliad ac anghenion eu dysgwyr. Yn yr achosion gorau, sicrhodd arweinwyr ffocws cychwynnol ar bennu gweledigaeth o gydweithio ar gyfer y cwricwlwm yn seiliedig ar ymgysylltu â dysgwyr, rhieni, staff ac, mewn ychydig iawn o achosion, y gymuned, cyn symud ymlaen yn gyflym i'w ddatblygu. Yn aml, roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y cwricwlwm yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr archwilio nodweddion hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol eu cymuned a Chymru. Mewn llawer o achosion, defnyddiodd darparwyr eu hadolygiad o'r cwricwlwm hefyd i wella cyfleoedd i ddysgu am amrywiaeth y gymdeithas yng Nghymru a'r byd ehangach. Fe wnaethom archwilio'r themâu hyn yn fanwl yn ein hadroddiadau.

Adnoddau i Ddisgyblion

<https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/adnodd-cynradd/>

<https://adroddiad-blynyddol.estyn.llyw.cymru/adnodd-uwchradd/>

- [Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant - Arfer dda o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol \(LGBT\)](#)
- [Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig](#)

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion arbennig mewn sefyllfa dda yn gyffredinol i roi diwygiadau i'r cwricwlwm ar waith. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y cynnig cwricwlwm eisoes yn cydweddu'n dda ag egwyddorion a dibenion y Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion arbennig wedi parhau i ddefnyddio'u rhwydweithiau cryf presennol i gydweithio ar ddatblygu eu cynigion cwricwlwm. Mae bron yr holl ysgolion arbennig yn rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith o fis Medi, gan gynnwys ychydig o dan draean o ysgolion arbennig sydd â disgyblion oedran uwchradd.

Asesu a dilyniant

Roedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn defnyddio'r 12 egwyddor addysgegol a amlinellwyd yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus yn aml i helpu llywio mentrau i wella addysgu. Rhoddodd llawer o ysgolion ffocws gwerthfawr o'r newydd ar strategaethau asesu ffurfiannol i sicrhau rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion wrth iddynt gyflawni tasgau ac ymgymryd â'u dysgu.

Roedd ychydig iawn o ysgolion cynradd yn defnyddio canllawiau'r cwricwlwm yn hyderus i ddatblygu darlun o sut olwg sydd ar gynnydd trwy eu cwricwla unigol eu hunain. Yn yr ysgolion hyn, lle'r oedd gweledigaeth ar gyfer cynnydd wedi'i datblygu'n fwy eglur, roedd ysgolion yn defnyddio'r fframweithiau a'r datganiadau o'r 'hyn sy'n bwysig' i gynllunio'n ofalus ar gyfer cynnydd ar draws yr ysgol. Roeddent yn ymgorffori cyfleoedd ar gyfer asesu yn yr ystafell ddosbarth a oedd yn galluogi athrawon i addasu eu harfer gwers wrth wers a, thros gyfnod, symud disgyblion tuag at nodau ac amcanion trosfwaol. Roedd yr ysgolion hyn yn deall mai prif ddiben asesiad yw fel offeryn i'w ddefnyddio gan athrawon ar gyfer esblygu arfer effeithiol a chefnogi dysgu.

Er gwaethaf agweddau cadarnhaol yn gyffredinol tuag at y cyfleoedd ar gyfer datblygu a gynigiwyd gan y Cwricwlwm i Gymru, roedd rhwystrau canfyddedig yn parhau i atal cynnydd mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg sicrwydd ynglŷn â chymwysterau yn y dyfodol a threfniadau atebolrwydd. Er bod trefniadau yn parhau i ddatblygu cymwysterau TGAU a galwedigaethol newydd, rydym yn dal i ymgynghori ar drefniadau arfaethedig felly nid oes manylion pendant eto, er bod tua hanner ysgolion uwchradd eisoes wedi cyflwyno cwricwlwm i Gymru ym Mlwyddyn 7. Hefyd, parhaodd llawer o ysgolion cynradd ac uwchradd i ofyn am ganllawiau ychwanegol ar asesu a chynllunio ar gyfer dilyniant.

Nodwyd pryderon gan lawer o arweinyddwyr ar draws yr holl ysgolion ac UC Dau ynglŷn ag asesu a dilyniant yn y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig o ran nodi a disgrifio sut olwg ddylai fod ar gynnydd trwy'r cwricwlwm.

Dysgu proffesiynol

Mewn llawer o achosion, roedd darparwyr yn manteisio ar, ac yn dyfeisio, cyfleoedd dysgu proffesiynol priodol i gynorthwyo staff â pharatoi ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith. Roedd rhannu arfer effeithiol mewn ysgolion yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol dda i gynorthwyo athrawon i ddatblygu eu dulliau addysgu a dysgu, yn enwedig ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 ddechrau llacio. Yn aml, roedd ysgolion yn dechrau ymgysylltu'n fwy pwrpasol gydag ymchwil genedlaethol a rhyngwladol i lywio'r newidiadau yr oedden nhw'n eu gwneud. Yn yr achosion gorau, roedd athrawon yn myfyrio'n dda ar yr effaith yr oedd eu haddasiadau'n ei chael ar gynnydd disgyblion, ac roeddent yn addasu syniadau a nodwyd mewn ymchwil yn dda i weddu cyd-destun eu hysgol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, roedd ysgolion yn rhoi blaenoriaeth i ddylunio'r cwricwlwm dros wella effeithiolrwydd addysgu, ac roeddent yn methu cydnabod yn ddigonol yr effaith arwyddocaol a gaiff gwella ansawdd addysgu ar sicrhau cynnydd disgyblion.

Roedd partneriaethau AGA yn sicrhau bod eu rhaglenni'n rhoi ystyriaeth briodol i baratoi athrawon newydd ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o hyn, roeddent yn galluogi myfyrwyr i ystyried cynllunio'r cwricwlwm a dulliau addysgu a dysgu sy'n alinio â diwygio'r cwricwlwm. Fe wnaeth y pandemig gyfyngu ar rywfaint o'r gwaith hwn, ac mewn llawer o achosion, ni chafodd myfyrwyr eu hamlygu cyn llawned ag y byddai wedi bod yn ddymunol i ymarferoldeb dylunio'r cwricwlwm.

Gweithio mewn partneriaeth

Fe wnaeth y pedwar consortiwm rhanbarthol a'r tri awdurdod lleol nad ydynt mewn consortiwm mwyach, ddatblygu dulliau addas i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu'r cwricwlwm. Fel rhan o hyn, dechreuont ddatblygu dulliau cryfach o gefnogi cydweithio effeithiol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, fel y dywedom yn ein hadroddiad thematig, [‘Y Cwricwlwm i Gymru – Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn gynorthwyo ysgolion?’](#), yn rhy aml, roedd consortia ac awdurdodau lleol yn methu sicrhau bod cymorth yn ddigon pwrcasol at anghenion darparwyr, ac nid oeddent yn gwerthuso effaith eu gwaith yn ddigon effeithiol. Hefyd, roedd partneriaethau AGA yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr cynradd ac uwchradd weithio ar draws cyfnodau er mwyn archwilio gwaith trawsgwricwlaidd a dulliau addysgu a dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, dechreuodd lleoliadau nas cynhelir weithio gyda'u hysgolion cynradd partner, a'r ysgolion cynradd gyda'u hysgolion uwchradd clwstwr, i ystyried cysondeb a dilyniant ar draws eu cwricwla. Ym mron yr holl achosion, fodd bynnag, roedd y gwaith hwn yn parhau ar gyfnod datblygu cynnar ac yn canolbwyntio ar elfennau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru, fel cyflwyno Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb (APRh) o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

Dechreuodd cysylltiadau gwerthfawr rhwng ysgolion arbennig a darparwyr allanol i ailsefydlu wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio. Fe wnaeth hyn helpu sicrhau profiadau dysgu buddiol i ddisgyblion, fel ymweliadau â mannau lleol o ddiddordeb, datblygu medrau galwedigaethol a chyfleoedd dysgu'n gysylltiedig â gwaith.

Roedd ysgolion arloesi'n cael cefnogaeth dda gan gonsortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â chyfnod datblygu cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, ar draws pob sector, teimlai darparwyr nad oeddent yn rhan o'r rhwydwaith ysgolion arloesi nad oedd digon o gyfleoedd iddyn nhw ddysgu am y gwaith hwn a'i ddefnyddio i ddylanwadu ar ddatblygu eu darpariaeth eu hunain.



Diwygio anghenion dysgu ychwanegol

Cafodd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf') Gydysniad Brenhinol ym mis Ionawr 2018. Roedd yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc (hyd at 25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r Ddeddf, y Cod a'r rheoliadau a wnaed o dano yn disodli deddfwriaeth bresennol ynghylch anghenion addysgol arbennig (AAA) ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu a/neu anableddau (ADA). Mae gweithredu'r system ADY a amlinellwyd yn y Ddeddf ADY ar gyfer plant yn cael ei gyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd ysgol 2021-2022, 2022-2023 a 2023-2024.

O 1 Medi 2021, dechreuodd y system ADY ar gyfer pob plentyn hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10 y credwyd yn ddiweddar bod ADY ganddynt, neu a oedd newydd eu dynodi ag ADY ar neu ar ôl 1 Medi 2021. O 1 Ionawr 2022, dechreuodd y system ADY ar gyfer plant hyd at, ac yn cynnwys, Blwyddyn 10 a oedd eisoes wedi'u dynodi ag AAA, yn derbyn darpariaeth addysg arbennig (DAA) drwy Weithredu Blynyddoedd Cynnar/a Mwy neu Weithredu Ysgol/a Mwy, ac yn mynychu meithrinfa awdurdod lleol, ysgol awdurdod lleol neu UCD ar 1 Ionawr 2022. Gweithredwyd hyn fesul cam ar draws grwpiau blwyddyn penodedig.

Ar ôl gwneud Gorchymyn Diwygio, ehangwyd yr amser a oedd ar gael i symud plant a oedd i fod i symud i'r system ADY rhwng Ionawr 2022 ac Awst 2022, er mwyn gallu eu symud yn ystod blwyddyn ysgol 2022 i 2023. Mae'n ofynnol i'r holl blant a phobl ifanc y dynodwyd bod ADY ganddynt fod â chynllun datblygu unigol (CDU) ar waith.

Er gwaetha'r tarfu a achoswyd gan y pandemig a'r heriau a greodd i ddarparwyr, parhaodd bron pawb i wneud cynnydd graddol wrth ddiwygio'u darpariaeth i fodloni gofynion y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ym mhob achos bron, yr aelodau staff a oedd yn fwyaf cysylltiedig â chyflawni'r newidiadau, er enghraifft, roedd gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (CydADY) mewn ysgolion dealltwriaeth dda o'r gofynion newydd ac roeddent yn gadarnhaol ynglŷn â'r newidiadau. Yn benodol, ystyriwyd bod y symudiad tuag at arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac ymglymiad cynyddol dysgwyr a rhieni wrth gynllunio ac adolygu darpariaeth, yn ddatblygiad cadarnhaol.

Fodd bynnag, roedd ymgorffori dealltwriaeth o ddiwygio anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ar draws yr holl staff mewn darparwyr yn fwy amrywiol. Mewn ysgolion cynradd, roedd CydADY yn llwyddiannus i raddau helaeth wrth ledaenu canllawiau a hyfforddiant i aelodau staff eraill. Roedd hyn yn fwy problemus mewn llawer o ysgolion uwchradd, gan ei bod yn heriol sicrhau bod yr holl staff addysgu yn sylweddoli bod darparu ar gyfer ADY yn gyfrifoldeb pawb, yn enwedig ble mae athrawon yn ystyried eu hunain yn arbenigwyr pwnc ac nad ydynt yn ystyried anghenion disgyblion ag ADY fel mater o drefn arferol wrth iddynt gynllunio a chyflwyno gwersi. Parhaodd darparwyr cyfrwng Cymraeg i fynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd adnoddau Cymraeg i gefnogi gwaith ADY.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Roedd cymorth gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gynorthwyo darparwyr i weithredu'r newidiadau yn ddefnyddiol, ar y cyfan. Er enghraifft, darparodd awdurdodau lleol gyfleoedd dysgu proffesiynol effeithiol, gan gynnwys gweithdai, modiwlau ar-lein, cyfleoedd i gael trafodaeth broffesiynol ac adnoddau o ansawdd da i staff eu defnyddio. Fe wnaeth y rhan fwyaf o leoliadau nas cynhelir elwa o hyfforddiant a chymorth awdurdod lleol drwy rôl statudol newydd Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynnyddoedd Cynnar (SAADYBC).

Erbyn mis Gorffennaf, roedd bron yr holl ddarparwyr wedi llwyddo i ddechrau nodi'r dysgwyr hynny y mae angen ymyrraeth ADY arbenigol arnynt, a mapio'r anghenion darpariaeth gyffredinol ar gyfer dysgwyr eraill heb ADY. Yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, sicrhodd arweinwyr ystod o ymyriadau addas, pecynnau cymorth a darpariaeth cwricwlwm i fynd i'r afael ag anghenion disgyblion ag ADY ar bobl lefel. Mewn llawer o leoliadau nas cynhelir, dechreuodd arweinwyr ddatblygu proffiliau un dudalen ar gyfer plant a'u galluogodd i ddynodi dewisiadau, diddordebau ac anghenion datblygol plant yn glir wrth iddynt ddod i mewn i'r lleoliad. Mewn ychydig o sectorau, roedd darparwyr yn cydweithio i ddatblygu eu darpariaeth a sicrhau cysondeb. Er enghraifft, roedd llawer o CydADY mewn ysgolion cynradd yn gweithio mewn partneriaeth â'u clwstwr ysgolion i greu pamffledi a llythyrau i roi gwybod i rieni am ddiwygio ADY. Mewn ysgolion arbennig, mae arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi bod yn elfen sefydledig o'u darpariaeth am gyfnod sylweddol. Fe wnaeth hyn eu rhoi mewn sefyllfa dda i weithredu diwygiadau ADY a'u galluogi i ddarparu cymorth i gydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd i ddatblygu arferion effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac i ddylanwadu ar ddylunio a defnyddio CDUau.

Nid yw dysgwyr yn y sector ôl-16 wedi'u heffeithio eto gan ddiwygio ADY. Fel rhan o'n [hadroddiad thematig](#) ar waith cynghorwyr Gyrfa Cymru, fe wnaethon ddarganfod fod dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a'u rhieni, yn gwerthfawrogi'r cymorth arbenigol a gânt gan gynghorwyr Gyrfa Cymru i gynllunio ar gyfer pontio i ddarpariaeth addysg arbenigol ôl-16. Ceir ansicrwydd yn y system o hyd ynghylch sut bydd y cyngor annibynnol a diduedd hwn yn cael ei ddarparu o dan drefniadau yn y dyfodol lle bydd awdurdodau lleol yn gyfrifol am ariannu lleoliadau ôl-16 arbenigol, a sut gallai hynny effeithio ar bontio dysgwyr i addysg bellach mewn colegau arbenigol annibynnol neu ddarpariaeth medrau byw'n annibynnol mewn colegau addysg bellach.



Mynd i'r afael ag effaith tlodi a difreintedd

Mae effaith niweidiol tlodi a difreintedd ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi bod yn thema gyson yn Adroddiadau Blynyddol Estyn. Yn 2021-2022, dangosodd ymchwil allanol a'n gwaith arolygu ac ymgysylltu bod plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig wedi'u heffeithio'n anghymesur gan y pandemig. Mewn llawer o achosion, dirywiodd cynnydd y dysgwyr hyn yn fwy na'u cymheiriaid mwy breintiedig ac aeth eu presenoldeb, a oedd eisoes yn wan, yn waeth. Dangosodd [Ymchwil gan End Child Poverty](#) hefyd fod tlodi plant yng Nghymru yn waeth nag yn holl wledydd eraill y DU, gyda chyfartaledd o 34% o blant Cymru yn byw mewn tlodi.

Mewn datganiadau a wnaed yn y misoedd Mawrth a Mehefin 2022, pwysleisiodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Jeremy Miles, bwysigrwydd canolbwyntio ar dlodi a difreintedd ym mhob agwedd ar ddarpariaeth addysgol:

Yn anad dim, cenhadaeth ein cenedl yw sicrhau safonau uchel a dyheadau uchelgeisiol i bawb drwy fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad, gan greu system addysg wirioneddol deg yng Nghymru. (<https://www.llyw.cymru/mae-angen-newid-mawr-i-greu-system-addysg-wirioneddol-deg-i-bawb>)

Dangosodd ein gwaith arolygu ac ymgysylltu fod rhai darparwyr yn arbennig o effeithiol o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi a difreintedd ar eu dysgwyr. Er bod y darparwyr hyn yn gweithio i leddfu effaith benodol tlodi trwy ddarpariaeth fel gwisg ysgol rhad ac am ddim neu fforddiadwy i bawb, banciau bwyd, gwisgoedd partion prom fforddiadwy ac ati, roedd prif fyrdwn eu gwaith ar gynnig darpariaeth o ansawdd uchel i'w holl ddysgwyr, ni waeth am eu cefndiroedd, a chael gwared â rhwystrau rhag dysgu fel bod pob dysgwr yn cael profiadau a chyfleoedd teg. Golygai'r ymdrech ddygn hon i sicrhau darpariaeth gynhwysfawr a safonau uchel ym mhopeth yr oeddent yn ei wneud fel bod yr holl ddysgwyr wedi'u galluogi i ffynnu. Mae'r nodweddion sy'n sail i waith y darparwyr hyn yn cynnig egwyddorion gwerthfawr a fyddai o fudd i waith pob darparwr, beth bynnag yw eu cyd-destun, a chânt eu nodi isod:

- **Roedd arweinwyr yn dangos ymrwymiad calonnog i gynhwysiant a safonau uchel, ac yn cyfleu gweledigaeth glir a oedd yn cael ei rhannu gan bawb a oedd yn gysylltiedig â'r darparwr ac yn ymdreiddio i bob agwedd ar ei waith.** Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Cathays yng Nghaerdydd, mae gwaith yr ysgol yn cael ei sylfaenu ar genhadaeth yr ysgol, sef 'Cyfleoedd i Bawb', ac mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer codi dyheadau, ehangu gorfelion a chyflawniad a lles yr holl ddisgyblion i'r eithaf. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Roedd ffocws diflino ar addysgu a dysgu o ansawdd uchel i bawb.** Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Pantysgallog ym Merthyr, mae diwylliant cryf o siarad am ddulliau

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

addysgu yn datblygu yn yr ysgol. Mae athrawon yn gweithio mewn grwpiau i wella eu harferion ystafell ddosbarth mewn ffordd gefnogol, a dysgu oddi wrth ei gilydd. Mae arweinwyr yn annog staff i drafod a myfyrio ar eu dulliau addysgu ac yn gofyn am gyngor am ffyrdd i wella. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#). Mae'r addysgu yn Ysgol Gymunedol Porth yn herio disgyblion i ymgysylltu â thasgau uchelgeisiol sy'n eu hysgogi ac yn tanio'u brwdfrydedd i fynd i'r afael â chysyniadau anodd. Mae disgyblion yn ymateb yn awchus ac yn dangos faint y gallant ei gyflawni pan roddir yr hyder a'r gefnogaeth iddynt lwyddo. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).

- **Roedd ymrwymiad moesol cryf a diwylliant o ddyheadau uchel i bob dysgwr, a oedd nid yn unig yn ehangu gorwelion trwy brofiadau fel teithiau, sgysiau am brifysgolion, cystadlaethau ac ati, ond trwy brofiadau bob dydd fel lefel yr her mewn gwersi, disgwyliadau o ran ymddygiad ac ymgysylltiad, ac ansawdd yr iaith a ddisgwyliar mewn rhyngweithiadau o ddydd i ddydd.** Er enghraifft, mae Ysgol Uwchradd Whitmore yn Y Barri yn cynnig ystod eang o weithgareddau i'w disgyblion, ac mae clybiau allgyrsiol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion o bob oed a gallu ffynnu, datblygu'n gymdeithasol a dysgu pethau newydd. Mae disgwyliadau uchel gan y rhan fwyaf o athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni, ac mae llawer ohonynt yn fodolau rôl da yn y ffordd y maent yn siarad ac yn defnyddio iaith ddysgedig i gyfathrebu â disgyblion. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Roedd y darparwyr yn cynnig darpariaeth gynhwysfawr ar gyfer lles a oedd wedi'i theilwra i anghenion dysgwyr unigol ac yn helpu i gael gwared â rhwystrau rhag dysgu.** Er enghraifft, mae partneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Wrecsam a Sir y Fflint yn cynnig cydbwysedd da ac amrywiaeth ddefnyddiol o gyrsiau ar gyfer oedolion sydd eisiau ymgysylltu o'r newydd ag addysg, i wella eu rhagolygon swydd, uwchraddio eu medrau Saesneg (Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill – SSIE), datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol neu wella'u hiechyd a lles. Darperir cyrsiau mewn amrywiaeth o leoliadau priodol, gan gynnwys canolfannau mewn lleoliadau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a threfol ar draws y ddwy ardal awdurdod lleol. Mae'r bartneriaeth yn defnyddio cyrsiau byr heb eu hachredu yn dda i ddenu dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd sy'n llai hyderus ynglŷn â dechrau neu aildddechrau mewn addysg a hyfforddiant. Hefyd, ceir darpariaeth sy'n fach ond yn tyfu ar gyfer dysgu teuluol, lle mae rhieni a'u plant yn chwarae a dysgu gyda'i gilydd, er enghraifft trwy ddysgu medrau treftadaeth ffeltio gwlân, yn ysgolion y plant. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Roedd gwaith amlasiantaeth effeithiol rhwng y darparwr ac ystod o wasanaethau allanol yn yr awdurdod lleol, elusennau a'r tu hwnt. Golygai hyn bod gan yr holl asiantaethau gyd-ddealltwriaeth o anghenion unigolion, teuluoedd a'r gymuned, a'u bod yn symud i'r un cyfeiriad i gynnig cymorth cydlynus.** Er enghraifft, mae awdurdod lleol Merthyr Tudful yn gwerthfawrogi ei bartneriaethau â sefydliadau'r trydydd sector ac yn cydnabod eu rôl bwysig mewn cefnogi'r flaenoriaeth i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar lwyddiant addysgol plant a phobl ifanc. Mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu rhwydwaith o wasanaethau sy'n gweithio gyda darparwyr addysg, gan gynnwys gwasanaethau statudol a ddarperir gan yr awdurdod lleol, a gwasanaethau a ddarperir gan ystod o sefydliadau'r trydydd sector. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Roedd y cwricwlwm yn hyblyg ac yn bodloni anghenion pob dysgwr o ddifrif, gan wneud i ddysgwyr deimlo'n rhan o gymuned y darparwr hefyd.**
- **Roedd y darparwr yn rhan o'r gymuned leol, ac roedd y gymuned leol yn rhan annatod o'r darparwr. Roedd y darparwr yn adnabod, yn deall ac yn cynorthwyo dysgwyr unigol, eu teuluoedd a'r gymuned yn dda iawn.** Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Clwyd yn Abertawe, mae gwaith yr ysgol mewn partneriaeth â rhieni ac asiantaethau cymorth yn rhagorol. Mae ymddiriedaeth sylweddol a chred gytûn bod yr ysgol yn gwneud y peth iawn i ddisgyblion ac yn gweithredu er eu lles pennaf bob amser. Caiff rhieni gyfleoedd i fynychu gweithdai sy'n canolbwyntio ar lythrennedd, rhifedd a dysgu fel teulu. Maent hefyd yn mynychu sesiynau gan siaradwyr gwadd ar ystod o bynciau, gan gynnwys iechyd meddwl a gorbryder. Mae asiantaethau arbenigol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd i gynnig cymorth a chyngor uniongyrchol i rieni. Mae'r caffî sy'n cael ei redeg gan y disgyblion yn galluogi rhieni i gyfarfod â'i gilydd a meithrin perthnasoedd; mae hyn yn arbennig o fuddiol i'r rheiny â disgyblion yn y cyfleuster addysgu arbenigol,

sy'n aml yn byw y tu allan i ddalgylch traddodiadol yr ysgol. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).

- **Roedd darparwyr yn edrych tuag allan, at ddarparwyr eraill ac ymchwil, i ddod o hyd i atebion a gwella eu darpariaeth, ond roeddent bob amser yn sicrhau bod beth bynnag yr oeddent yn ei fabwysiadu yn addas ar gyfer eu cyd-destun, eu staff a'u dysgwyr.**
- **Mae datblygu medrau iaith cynnar i baratoi plant ifanc sy'n byw mewn tlodi i bontio'n llwyddiannus i'r ysgol yn elfen allweddol o ddarpariaeth mewn lleoliadau nas cynhelir. Lle'r oedd hyn yn fwyaf llwyddiannus, roedd lleoliadau yn gweithio'n effeithiol ag ystod o bartneriaid, gan gynnwys ieuchyd, swyddogion yr awdurdod lleol ac ysgolion cynradd i nodi anghenion plant, cynllunio ymyriadau a sicrhau dulliau cyson i ddatblygu iaith plant.** Er enghraifft, yn awdurdod lleol Merthyr Tudful, mae partneriaethau i gefnogi darpariaeth y blynyddoedd cynnar yn hynod gryf. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau ag ymwelwyr ieuchyd i annog rhianta cyn-ysgol da, a gydag ysgolion cynradd i gefnogi cyfnod pontio hynod effeithiol o Dechrau'n Deg a lleoliadau nas cynhelir. Mae ymagwedd amlasiantaethol yn sicrhau bod cynlluniau priodol ar waith i gynorthwyo plant sydd angen cymorth ychwanegol pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Cafodd pob un o'r dysgwyr eu cynorthwyo i ddatblygu'r medrau sylfaenol yr oedd eu hangen arnynt, gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd (yn enwedig darllen a siarad), a medrau rhifedd sylfaenol.** Er enghraifft, yn Ysgol Gynradd Waun Wen yn Abertawe, mae'r ffocws ar ddatblygu geirfa disgyblion yn yr holl wersi yn cyfrannu'n gryf at y cynnydd a wna disgyblion ar draws y cwricwlwm, ac mae'n gryfder yn yr ysgol. Ceir ymagwedd ysgol gyfan effeithiol at ddatblygu cariad at ddarllen a llenyddiaeth. Rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol, a cheir ymagwedd systematig at ddatblygu eu medrau. Gwneir defnydd da o offer ymarferol i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o fedrau mathemategol ym mhob dosbarth, ac mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd cryf a wna disgyblion o ran datblygu eu medrau rhifedd ac at eu gallu i esbonio eu meddwl mathemategol â sicrwydd. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Roedd darparwyr yn galluogi pob un o'r dysgwyr i weld llwybr perthnasol ac ymarferol iddyn nhw eu hunain ar hyd eu taith addysgol.** Er enghraifft, mae gwaith Gwasanaeth Ieuenctid Ynys Môn yn agwedd nodedig o'r gefnogaeth i ddysgwyr. Mae swyddog ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd ar yr ynys. Maent yn cynnig gwasanaeth galw heibio i ddysgwyr, yn cefnogi darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol, ac yn rhedeg clybiau ieuenctid a gweithgareddau fin nos yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio ennill cymwysterau a phrofiadau, fel cyrsiau paratoi at gyflogaeth a Gwobr Dug Caeredin. Darllenwch yr adroddiad llawn [yma](#).
- **Roedd arweinwyr yn gwerthuso effaith eu gwaith ar fywydau a chyfleoedd bywyd y plant a'r bobl ifanc dan eu gofal yn gyson. Caiff yr holl bartneriaid eu cynnwys mewn cyfleoedd rheolaidd i werthuso'r dulliau i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd.**



Darparwyr sydd wedi gwella'n gyflym

Pan fydd arolygwyr yn nodi diffygion difrifol yn ansawdd a chysondeb addysgu, ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth yn gyffredinol adeg yr arolygiad craidd, mae darparwyr yn cael eu rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol. Ar gyfer ysgolion ac UC Dau, mae dau gategori statudol o weithgarwch dilynol, sef angen mesurau arbennig neu welliant sylweddol, yn ogystal â chategori anstatudol, sef adolygu gan Estyn. Mae gan sectorau eraill drefniadau gwahanol, ond mae gan bob un lefelau o weithgarwch dilynol. Yna, mae arolygwyr yn monitro'r gwelliannau y mae'r darparwyr yn eu gwneud dros amser. Rydym yn parhau i fonitro darparwr nes bod y gwelliannau'n ddigon cadarn i gael effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr, ac mae arweinwyr yn dangos gallu gwell i sicrhau rhagor o welliannau. Fe wnaeth 27 o ddarparwyr mewn categorïau statudol fodloni'r meini prawf hyn a chawsant eu tynnu o weithgarwch dilynol yn 2021-2022. Ceir manylion y darparwyr hyn [yma](#). Yn ogystal, cafodd 39 o ddarparwyr ar draws yr holl sectorau eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol anstatudol.

Gellir dysgu gwersi gwerthfawr gan ddarparwyr sydd wedi'u tynnu o weithgarwch dilynol. Mae'r rhain yn cynnwys gwersi am sut i wneud cynnydd cyflym a beth sy'n gweithio a ddim yn gweithio o ran cefnogi gwelliant.

Beth oedd y gwelliannau allweddol a nodwyd gan arolygwyr pan oedd darparwyr yn cael eu tynnu o weithgarwch dilynol pellach?

- Roedd gan arweinwyr weledigaeth gytûn a chlr, a disgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth, yn seiliedig ar gydweithio cryf ymhlith athrawon ac ymarferwyr eraill. [Gweler cameo Ysgol Gynradd Plasnewydd.](#)
- Roedd y gallu i arwain wedi gwella, a thîm arwain gwydn, sefydlog â ffocws da. Roedd arweinwyr wedi canolbwyntio ar feithrin gallu i arwain a chynllunio ar gyfer olyniaeth trwy ddysgu proffesiynol. [Gweler cameo Ysgol Bryn Celyn.](#) Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu cwestiynau hunanfyfrio ar sut y gall darparwyr sy'n gwella feithrin eu gallu i arwain.
- Roedd perthnasoedd proffesiynol gwell a chefnogol, ac ymdeimlad o waith tîm ymhlith staff ar bob lefel. Roedd arweinwyr yn cynorthwyo athrawon i fyfrio ar arfer ac i ymateb yn gadarnhaol i argymhellion a amlygwyd yn adroddiad yr arolygiad craidd cychwynnol. [Gweler cameo Ysgol Bryn Alyn.](#)
- Roedd staff yn rhannu dealltwriaeth glir o addysgu a dysgu o ansawdd da. Roeddent yn cymryd cyfrifoldeb proffesiynol dros wella ansawdd eu harfer eu hunain o

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

ddifrif. [Gweler cameo Ysgol Croesyceiliog](#). Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu cwestiynau hunanfyfrio ar sut y gall darparwyr sy'n gwella ganolbwyntio ar ddarpariaeth o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth.

- Daeth arweinwyr i ddeall pwysigrwydd sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion eu dysgwyr a'u cymuned.
- Roedd monitro cadarn gan arweinwyr ar bob lefel a arweiniodd at werthusiadau cywir o beth oedd yn gweithio'n dda a beth nad oedd yn gweithio cystal, a chyfrannodd hynny'n uniongyrchol at flaenoriaethau gwella a dysgu proffesiynol.
- Roedd pawb, gan gynnwys y dysgwyr, yn deall pwysigrwydd ymddygiad da ac agweddau da at ddysgu, a phresenoldeb rheolaidd.
- Roedd dysgu proffesiynol gwerth chweil yn canolbwyntio ar wella ansawdd addysgu a dysgu.
- Roedd parodrwydd ymhlith arweinwyr i addasu cynlluniau a chymau gweithredu i wella yn seiliedig ar wybodaeth a thystiolaeth ddiweddar. Yn benodol, roedd arweinwyr yn y darpariaethau hyn yn cyflwyno prosesau hyblyg ac yn ddigon ymatebol i addasu eu cynlluniau o ganlyniad i effaith COVID19 a'u gallu tebygol i weithredu eu camau gweithredu a gynlluniwyd yn wreiddiol. [Gweler cameo Ysgol Gymraeg Ffwrnes](#).
- Roedd arweinwyr yn blaenoriaethu'n ddoeth. Roeddent yn deall na allen nhw wneud popeth ar unwaith, ac fe wnaethant ganolbwyntio'n gyntaf ar yr hyn yr oedd angen y sylw mwyaf. [Gweler cameo Canolfan Addysg Tŷ Gwyn](#).
- Nid oedd arweinwyr yn 'canlyn pob llif'. Daethant i ddeall y gallai cyflwyno gormod o strategaethau a phheidio â theilwra strategaethau i gyd-destun yr ysgol neu'r darparwr orlethu staff a dysgwyr a mynd yn wrthgynhyrchiol. [Gweler cameo Addysg Oedolion Cymru](#).
- Lle bo'n briodol, defnyddiodd awdurdodau lleol eu pwerau statudol yn llwyddiannus i bennu llywodraethwyr ychwanegol, profiadol i ymuno â'r bwrdd presennol. Roedd y trefniadau hyn yn llwyddiannus yn gyffredinol wrth ddatblygu gallu'r corff llywodraethol. Mewn ychydig iawn o ysgolion yn y categori mesurau arbennig, fe wnaeth byrddau gweithredol interim ddisodli'r corff llywodraethol i ddarparu cyfeiriad strategol a her a chymorth priodol i arweinwyr yr ysgol. Mae byrddau gweithredol interim yn gweithredu am gyfnod amser penodedig cyn trosglwyddo trefniadau llywodraethu'n ôl i gorff llywodraethol.
- Mewn ysgolion ac UC Dau fel ei gilydd, roedd perthnasoedd gweithio cryfach gyda'r awdurdod lleol, gan gynnwys gweithio amlasiantaeth cadarn a ddarparodd ymagwedd gydlynus at fodloni ystod amrywiol o anghenion dysgwyr mewn darpariaethau arbenigol. Mewn lleoliadau nas cynhelir, cafodd gweithio agos gydag athrawon cymorth yr awdurdod lleol a sefydliadau ambarél i ddarparu hyfforddiant i staff effaith gadarnhaol ar hyder ac arbenigedd staff. [Gweler cameo Gwasanaeth Addysg Cyngor Sir Powys](#).
- Roedd perthnasoedd gwell gyda rhanddeiliaid a cheisiodd darparwyr farnau dysgwyr, staff a rhieni yn benodol, a gweithredu arnynt. [Gweler cameo Cymuned Ddysgu Abertyleri](#).
- Mewn lleoliadau nas cynhelir yn benodol, roedd ffocws clir ar ddarparu cyfleoedd i blant chwarae'n ddirwystr. Roedd ymarferwyr yn defnyddio mannau ac adnoddau dan do ac awyr agored i annog plant i ddatblygu hunanhyder, gan wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Roedd ymarferwyr yn dod yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd cefnogi chwarae, gan ymyrryd lle bo'n briodol i gefnogi medr arbennig. [Gweler cameo Cylch Meithrin Llannerch-y-medd](#).
- Yn y lleoliadau hyn, roedd arweinwyr yn ymateb yn briodol i faterion diffyg cydymffurfio a godwyd gan arolygwyr AGC yn ystod arolygiadau ar y cyd, i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant rheoleiddiedig.

Pan fydd darparwr yn cael ei dynnu o weithgarwch dilynol, mae tystiolaeth glir fod bron yr holl ddysgwyr yn dechrau gwneud y cynnydd y dylent fod yn ei wneud. Mae hyn oherwydd eu bod wedi ymgysylltu â'u dysgu, mae ganddynt agweddau cadarnhaol ac maent yn ymddwyn yn dda. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau dysgu gwerth chweil sy'n rhoi ystyriaeth dda i fannau cychwyn dysgwyr ac yn herio'r holl ddysgwyr yn briodol.

Yn fwyaf aml, pan fydd darparwyr yn barod i gael eu tynnu o weithgarwch dilynol, mae arolygwyr yn nodi ffocws diflino ar draws y ddarpariaeth ar wella ansawdd arfer yn yr ystafell ddosbarth. Addysgu a dysgu yw diben craidd ac eglur y darparwr, ac maent yn rhan annatod o'r weledigaeth. Mae gan bawb ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall dysgwyr ei gyflawni, ac mae gan ddysgwyr uchelgeisiau uchel priodol ar gyfer eu dyfodol.

Sut mae darparwyr wedi cyflawni'r gwelliannau hyn?

Mae'r astudiaethau achos isod yn rhoi enghreifftiau o sut gwnaeth y darparwyr hyn sicrhau gwelliannau, i'r graddau eu bod wedi cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol pellach.

Darparwr: Cylch Meithrin Llannerch-y-medd

Lefel gweithgarwch dilynol: Monitro gan Estyn
Tynnwyd: Rhagfyr 2021

Mae arweinwyr Cylch Meithrin Llannerch-y-medd wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddarparu ystod eang a chyfoethog o brofiadau i'r plant. Maent wedi sefydlu prosesau hunanwerthuso, sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid, ac yn darparu blaenoriaethau hylaw ar gyfer gwella i'r lleoliad. Wrth iddynt ddatblygu eu dull o gyflwyno'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, maent wedi codi disgwyliadau ymarferwyr ac wedi cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol. Maent yn gweithio'n agos gydag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, a gyda sefydliadau ambarél, fel y Mudiad Ysgolion Meithrin, i gyflwyno elfennau o gynllunio ymatebol, ac i ddatblygu hyder ymarferwyr. Erbyn hyn, maent yn gwneud defnydd mwy effeithiol o lawer o'r meysydd dysgu gwahanol, gan greu amgylchedd ysgogol i'r plant chwarae. Maent wedi rhannu'u gwaith gyda lleoliadau eraill ar draws yr awdurdod.

Darparwr: Ysgol Gymraeg Ffwrnes

Lefel gweithgarwch dilynol: Gwelliant sylweddol
Tynnwyd: Tachwedd 2021

Yn unol â llawer o ysgolion eraill yn ystod y flwyddyn academiaidd hon, effeithiodd y pandemig COVID-19 ar allu Ysgol Gymraeg Ffwrnes i roi gwelliannau ar waith. Dangosodd arweinwyr crebwyll cadarn wrth addasu eu cynlluniau gwella, fel drwy newid yr amserlen ar gyfer gweithredu rhai gweithgareddau, neu ddefnyddio technoleg i gefnogi nodau gwella yn well. Er bod y pandemig wedi cyfyngu ar y cyfleoedd i fonitro'n uniongyrchol, parhaodd yr arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, i werthuso agweddau pwysig yn rhithiol. Er enghraifft, fe wnaethant graffu ar ansawdd y ddarpariaeth dysgu o bell er mwyn adnabod yr hyn oedd yn dda a beth roedd angen ei wella. Creodd arweinwyr gynllun gwella ysgol pwrpasol sy'n cynnwys argymhellion yr arolygiad craidd yn ogystal â blaenoriaethau eraill. Gwnaeth arweinwyr fonitro'u cynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn ofalus, gan nodi'n glir yr hyn a oedd wedi ei gyflawni a beth fyddai'r camau nesaf. O ganlyniad i'r trefniadau hunanwerthuso cadarn, gwnaeth yr ysgol gynnydd da yn erbyn argymhellion yr arolygiad craidd.

Darparwr: Canolfan Addysg Tŷ Gwyn

Lefel gweithgarwch dilynol: Mesurau arbennig
Tynnwyd: Tachwedd 2021

Yng Nghanolfan Addysg Tŷ Gwyn, mae cyflwyno dulliau ac arfer sy'n ystyriol o drawma wedi cyfrannu'n sylweddol at welliannau yn y ddarpariaeth ar draws yr UCD. Cyflawnwyd hyn trwy ddatblygiad proffesiynol ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys achrediad fel ymarferwyr sy'n ystyriol o drawma. Mae'r model cymorth ac ymyrraeth therapiwtig ar gyfer disgyblion yn gryfder. Caiff y model ei wella'n fawr gan y seicolegwyr addysg cynorthwyol sy'n gweithio'n amser llawn yn yr UCD. Mae'r dull hwn yn dyfnhau dealltwriaeth staff o ymddygiad disgyblion, ac mae'n effeithio yn ei dro ar lefelau uwch o ymgysylltiad a chynnydd gan ddisgyblion.

Darparwr: Ysgol Croesyceiliog

Lefel gweithgarwch dilynol: Adolygu gan Estyn / Mesurau arbennig
Tynnwyd: Tachwedd 2021

Arolygwyd Ysgol Croesyceiliog yn 2018 ac fe'i rhoddwyd mewn categori gweithgarwch dilynol anstatudol (adolygu gan Estyn). Pan ailymwelodd arolygwyr yn 2020, canfuwyd bod cynnydd yn rhy araf ac ystyriwyd bod angen rhoi mesurau arbennig ar waith yn yr ysgol. Penodwyd pennaeth gweithredol, a aeth ati'n gyflym i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol. Mireiniwyd rolau a chyfrifoldebau ar lefel uwch arweinwyr ac arweinwyr canol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r staff presennol, a sicrhodd yr arweinwyr hyn fod gwaith gwella'r ysgol yn cynnwys ffocws cynaledig ar ddatblygu arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth. Fe wnaeth gweithgareddau dysgu proffesiynol gwerthfawr helpu arweinwyr i ddatblygu'u gallu i werthuso'u meysydd cyfrifoldeb yn gywir, yn enwedig effeithiolrwydd addysgu. Galluogodd hyn iddynt adnabod yn union yr agweddau penodol yr oedd angen eu datblygu.

Fe wnaeth y cyfeiriad strategol a ddarparwyd gan y pennaeth gweithredol helpu staff i gydweithio, er enghraifft trwy rannu arfer dda yn rheolaidd. O ganlyniad, gwnaeth yr ysgol gynydd cyflym yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd.

Darparwr: Ysgol Gynradd Plasnewydd

Lefel gweithgarwch dilynol: Mesurau arbennig
Tynnwyd: Hydref 2021

Rhoddwyd Ysgol Gynradd Plasnewydd yn y categori mesurau arbennig yn dilyn yr arolygiad craidd yn 2018. Tynnwyd yr ysgol o weithgarwch dilynol pellach yn 2021. Yn dilyn cyfnod arwain cythryblus, mae'r holl staff bellach yn deall ac yn derbyn eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond maent yn gwybod y byddant yn cael eu dal yn atebol am unrhyw danberfformiad, lle bo'n briodol. Mae athrawon a staff cymorth yn gwerthfawrogi'r cymorth, yr hyfforddiant a'r mentora a dderbyniant gan arweinwyr i'w helpu i wneud eu gorau ar gyfer y disgyblion yn eu dosbarthiadau. Bellach, mae'r hyder gan arweinwyr i fynd i'r afael yn gadarn ag unrhyw danberfformiad. Fodd bynnag, maent yn sicrhau hefyd eu bod yn cydbwysu mynd i'r afael â thanberfformiad â chymorth ar gyfer eu cydweithwyr, er enghraifft pan fydd athrawon yn symud i ddosbarthiadau mewn grwpiau oed anghyfarwydd, neu pan fydd staff dros dro yn cyflenwi dros absenoldeb.

Mae'r cydweithio hwn rhwng staff ac arweinwyr, ynghyd â disgwyliadau uchel, clir gan bawb i wneud eu gorau, wedi cyfrannu at welliannau'r ysgol dros gyfnod. Gyda'i gilydd, mae'r camau gweithredu hyn wedi helpu adeiladu diwylliant lle mae'r holl staff yn awchus ynglŷn â'u cyfrifoldeb craidd dros addysg a chynnydd disgyblion yn eu dosbarth, ac ar draws yr ysgol. Mae'r diwylliant hwn a rennir yn cynorthwyo pawb i fod yn '#falch i fod yn Plas'.

Darparwr: Ysgol Gynradd Bryn Celyn

Lefel gweithgarwch dilynol: Gwelliant sylweddol / Mesurau arbennig
Tynnwyd: 2014 ac ailymwelwyd yn 2022

Cafodd Ysgol Gynradd Bryn Celyn yng Nghaerdydd ei rhoi yn y categori gwelliant sylweddol, ac yna mesurau arbennig, yn dilyn ei harolygiad craidd yn 2011. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal lle ceir difreintedd sylweddol, a rhyw 74% yw cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Tynnwyd yr ysgol o weithgarwch dilynol statudol yn 2014, yn dilyn tair blynedd o fonitro gan Estyn a chymorth dwys ar gyfer yr awdurdod lleol a chonsortïwm rhanbarthol.

Pan ddychwelydd arolygwyr yn 2022 i gwblhau arolygiad craidd, roedd yr ysgol wedi gwella'n nodedig ac nid oedd angen unrhyw weithgarwch dilynol arni. Roedd bron yr holl staff wedi aros yn yr ysgol, gan gynnwys y pennaeth, gan greu diwylliant o gydweithio cydlynus gyda ffocws da. Mae arweinwyr wedi sefydlu partneriaeth gref â rhieni sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus io ran codi dyheadau disgyblion. Canfu arolygwyr ffocws cryfach o lawer ar gyflawniad disgyblion ac, o ganlyniad, gwelliannau sylweddol a oedd wedi'u hymgorffori'n dda yn ansawdd addysgu ac arfer yn yr ystafell ddosbarth.

Darparwr: Cymuned Ddysgu Abertyleri

Lefel gweithgarwch dilynol: Gwelliant sylweddol
Tynnwyd: Chwefror 2022

Yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri, ar ôl cyfnod o ansefydlogrwydd staffio, mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain yn darparu arweinyddiaeth gref sydd wedi ymrwmo i sicrhau addysgu a darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer disgyblion o bob oed. Fe wnaethant gryfhau'r trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant ar draws yr ysgol. O ganlyniad i fonitro mwy cadarn a dysgu proffesiynol priodol, mae addysgu ar draws yr ysgol wedi gwella, a chafodd hynny effaith gadarnhaol ar gynnydd, ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu. Mae dealltwriaeth dda gan y staff o'r hyn a ddisgwylir ganddynt, a'r hyn y gallan nhw ei ddisgwyl gan arweinwyr. Mae hyn wedi helpu gwella morâl staff, creu ymdeimlad o waith tîm ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau o ran beth gall disgyblion ei gyflawni. Hefyd, cryfhodd arweinwyr eu trefniadau ar gyfer ymgynghori â disgyblion ynglŷn â llawer o agweddau ar waith yr ysgol, a arweiniodd at newidiadau nodedig i ddarpariaeth yr ysgol a gwelliant cyffredinol.

Darparwr: Ysgol Bryn Alyn

Lefel gweithgarwch dilynol: Mesurau arbennig
Tynnwyd: Hydref 2021

Roedd Ysgol Bryn Alyn wedi bod yn y categori mesurau arbennig am ychydig dan flwyddyn pan benodwyd y pennaeth presennol yn 2018. Canolbwyntiodd i gychwyn ar sicrhau bod disgyblion a staff yn teimlo'n falch o fod yn aelodau o gymuned yr ysgol, gan wella ymddygiad disgyblion a chryfhau'r arweinyddiaeth. Dros gyfnod o dair blynedd, ac yn arbennig yn ystod y pandemig, gweithiodd ar feithrin ymdeimlad o waith tîm ar draws yr ysgol. Roedd hyn yn hanfodol i wella'r ysgol a helpodd i newid diwylliant ac ethos yr ysgol. Er mwyn cefnogi ymddygiad cadarnhaol ymhlith disgyblion, diwygiodd yr ysgol ei chwricwlwm fel bod ystod ehangach o ddarpariaeth erbyn hyn i fodloni gwahanol anghenion a diddordebau disgyblion.

Cyflwynodd yr arweinwyr bolisi ymddygiad newydd hefyd, a datblygu'r ddarpariaeth fewnol a strategaethau cymorth i helpu disgyblion a oedd wedi colli diddordeb a dadrithio. Rhoddwyd gwedd gliriach ar rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a chawsant eu dosbarthu'n briodol. Mae dysgu proffesiynol yn ymwneud ag agweddau fel hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a bod yn arweinydd wedi helpu arweinwyr i ymgymryd â'u rolau yn well ac mae ganddynt ddealltwriaeth gliriach o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu yn eu meysydd cyfrifoldeb nhw. Mae llywodraethwyr yn cydnabod nad oeddent, yn y gorffennol, wedi bod yn ddigon ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd yn yr ysgol. Erbyn hyn, maent yn sicrhau eu bod yn wybodus ac yn herio'r ysgol yn fwy effeithiol.

Darparwr: Addysg Oedolion Cymru

Lefel gweithgarwch dilynol: Adolygu gan Estyn
Tynnwyd: Mehefin 2021

Arolygwyd Addysg Oedolion Cymru yn Ionawr 2019 ac fe'i gosodwyd yn y categori adolygu gan Estyn. Tynnwyd y darparwr oddi ar y rhestr darparwyr yr oedd angen eu hadolygu gan Estyn ym Mehefin 2021, yn dilyn adolygiad desg o dystiolaeth ar gynnydd a wnaed ers yr arolygiad.

Yn dilyn yr arolygiad craidd, ymatebodd y darparwr yn gyflym i'r argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad arolygu drwy ehangu cyfranogiad staff a phartneriaid allanol mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Hefyd, gweithredodd arweinwyr ar ystod o fentrau i wella'r ffyrdd yr oedd tiwtoriaid yn rhannu arfer dda ac adnoddau ar draws y sefydliad. Roedd y rhain yn cynnwys gwelliannau i feysydd adnoddau ar-lein a chyflwyno rolau tiwtoriaid arweiniol.

Rhoddodd arweinwyr sylw arbennig i wella ansawdd gwybodaeth ac arweiniad yn ymwneud â chynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac i sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant priodol ar ADY. Er enghraifft, mae staff bellach yn gwneud defnydd da o siartiau llif eglur sy'n darparu offeryn cyfeirio hawdd i diwtoriaid i'w helpu i ddeall sut a pha bryd i ymgeisio am gymorth ar gyfer hunangyfeirio, ac adnabod dysgwyr y mae angen cymorth ADY arnynt. Fe wnaeth hyn helpu i wella mynediad at gymorth dysgu ychwanegol. Yn ogystal, elwodd tiwtoriaid o gael hyfforddiant defnyddiol i'w cefnogi i adnabod dysgwyr ag ADY ac i addasu eu dulliau addysgu i ddarparu cymorth mwy effeithiol.

Darparwr: Gwasanaethau Addysg Cyngor Sir Powys

Lefel gweithgarwch dilynol: Pryder sylweddol
Tynnwyd: Hydref 2021

Yn dilyn ein hymweliad monitro yn nhymor yr hydref, barnom fod gwasanaethau addysg Powys wedi gwneud cynnydd digonol i gael eu tynnu oddi ar ein rhestr o awdurdodau lleol sy'n peri pryder sylweddol. Roedd swyddogion ac aelodau etholedig wedi ymateb yn dda i ganfyddiadau'r arolygiad craidd, wedi cydnabod yr heriau yr oeddent yn eu hwynebu, ac wedi gweithio'n gyflym i ddechrau mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaethom.

Penododd y prif weithredwr gyfarwyddwr addysg newydd a gryfhodd y berthynas rhwng y gwasanaeth addysg ac ysgolion. Er bod y gwaith gwella ar gyfnod cynnar ar ddechrau'r pandemig COVID-19, un nodwedd gadarnhaol oedd bod swyddogion ac aelodau etholedig wedi cynnal ffocws cadarn ar weithredu'r strategaethau gwella ar yr un pryd â mynd i'r afael ag anghenion brys ysgolion a achoswyd gan y pandemig.

Fe wnaethom ganfod fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd cryf mewn agweddau o'i waith a achosodd bryder yn ystod yr arolygiad craidd. Er enghraifft, mae cymorth ar gyfer ysgolion, gan gynnwys y rheiny a oedd yn cyfranogi yn null amlasiantaeth peilot Llywodraeth Cymru, wedi arwain at ysgolion uwchradd yn dangos cynnydd digonol i gael ei thynnu o gategori gweithgarwch dilynol statudol. Hefyd, fe wnaeth swyddogion wella cynllunio a chydlynu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig a'r rheiny sydd angen cymorth ychwanegol.

Rhoddodd yr awdurdod lleol raglen uchelgeisiol ar waith o gynigion trefniadaeth ysgolion wedi'i seilio ar y Strategaeth Trawsnewid Addysg. Mae'r cynigion hyn wedi cynnwys agor ysgol pob oed newydd, uno nifer o ysgolion cynradd a chau ysgolion bach gwledig, yn ogystal â newidiadau i gategori iaith ysgolion. Bu swyddogion ac aelodau perthnasol o'r Cyngor yn ymgysylltu'n dda â rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr i drafod y cynigion a lleddfu pryderon.

Darparwyr sydd wedi gwneud digon o gynnydd i gael eu tynnu o ddilyniant statudol (ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol) neu welliant â ffocws (ar gyfer lleoliadau nas cynhelir) yn ystod blwyddyn academiaidd 2021-2022

MA – Mesurau arbennig
GS – Gwelliant sylweddol

Darparwr	Sector	Awdurdod lleol	Lefel gweithgarwch dilynol	Dyddiad y tynnwyd o ddilyniant	Dyddiad dechrau arolygiad craidd
Ysgol Awel y Mynydd	Cynradd	Conwy	MA	04/07/2022	09/12/2019
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Pentip	Cynradd	Sir Gaerfyrddin	MA	04/07/2022	11/03/2019
Ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed	Cynradd	Caerffili	GS	20/06/2022	21/10/2019
Ysgol Bro Sannan	Cynradd	Caerffili	GS	28/03/2022	07/10/2019
Ysgol Gynradd Sirol Abermorddu	Cynradd	Sir y Fflint	MA	08/02/2022	25/11/2019
Ysgol Gynradd Craig-Yr-Hesg	Cynradd	Rhondda Cynon Taf	GS	15/11/2021	24/09/2018
Ysgol Gynradd Cefn	Cynradd	Rhondda Cynon Taf	GS	15/11/2021	24/09/2018
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Alban	Cynradd	Caerdydd	GS	15/11/2021	13/05/2019
Ysgol Gymraeg Ffwrnes	Cynradd	Sir Gaerfyrddin	GS	10/11/2021	16/05/2017
Ysgol Gynradd Cwm Ogwr	Cynradd	Pen-y-bont ar Ogwr	MA	03/11/2021	02/10/2017
Ysgol Y Castell	Cynradd	Sir Gaerfyrddin	MA	02/11/2021	08/07/2019
Ysgol Gynradd Plasnewydd	Cynradd	Pen-y-bont ar Ogwr	MA	19/10/2021	29/01/2018
Ysgol Gynradd Sirol Bryn	Cynradd	Sir Gaerfyrddin	MA	12/10/2021	19/11/2018
Ysgol Gymunedol Porth	Ysgolion Pob Oed	Rhondda Cynon Taf	GS	27/06/2022	25/11/2019
Cymuned Ddysgu Abertyleri	Ysgolion Pob Oed	Blaenau Gwent	GS	14/02/2022	05/02/2018
Ysgol Ardudwy	Uwchradd	Gwynedd	MA	14/02/2022	03/12/2018
Ysgol Dyffryn Ogwen	Uwchradd	Gwynedd	GS	31/01/2022	23/09/2019
Ysgol Harri Tudur	Uwchradd	Sir Benfro	GS	25/01/2022	19/11/2018
Ysgol Sant Julian	Uwchradd	Casnewydd	MA	16/11/2021	02/12/2014
Ysgol Croesyceiliog	Uwchradd	Torfaen	MA	08/11/2021	22/01/2018
Ysgol Bryn Alyn	Uwchradd	Wrecsam	MA	19/10/2021	11/12/2017
Ysgol Aberdaugleddau	Uwchradd	Sir Benfro	GS	18/10/2021	27/11/2017
Ysgol Uwchradd y Drenewydd	Uwchradd	Powys	MA	12/10/2021	19/05/2015
Ysgol Gymunedol Aberdâr	Uwchradd	Rhondda Cynon Taf	GS	12/10/2021	05/03/2018
Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	Uwchradd	Caerffili	GS	22/09/2021	26/04/2016
Canolfan Gyflawni'r Bont	Uned Cyfeirio Disgyblion	Casnewydd	MA	28/03/2022	12/03/2018
Canolfan Addysg Tŷ Gwyn	Uned Cyfeirio Disgyblion	Rhondda Cynon Taf	MA	02/11/2021	07/10/2019

Yn ychwanegol at y darparwyr hyn nad oes angen eu monitro mwyach, mae 16 o ysgolion pellach yn parhau mewn categori gweithgarwch dilynol statudol o ganlyniad i arolygiadau craidd a gynhaliwyd cyn y pandemig. Mae arolygwyr yn parhau i fonitro ac adrodd ar eu cynnydd yn rheolaidd. Adnoddau a allai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr ac awdurdodau lleol:

[Cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad \(llyw.cymru\)](#)

[Ysgolion sy'n achosi pryder: Canllawiau statudol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol](#)

[Canllawiau ar gyfer ysgolion sydd mewn mesurau arbennig a'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso \(llyw.cymru\)](#)

Adroddiadau sector






Adroddiad sector: Meithrinfeydd nas cynhelir 2021-2022

Cyfanswm nifer y lleoliadau yng Nghymru

Fe wnaeth niferoedd y lleoliadau ostwng, ond maent wedi codi'n ôl yn gymharol gryf yn gyffredinol.



Gweithgarwch dilynol

Lleoliadau yr ystyriwyd bod angen gweithgarwch dilynol arnynt i sicrhau gwelliant yn dilyn arolygiad craidd:

6 Wedi'u rhoi mewn categori gweithgarwch dilynol

5 Wedi'u tynnu o gategori gweithgarwch dilynol

5 Wedi aros mewn categori gweithgarwch dilynol

Ionawr 2022:


Ailgychwynnwyd arolygiadau ar y cyd gyda chydweithwyr o Arolygiaeth Gofal Cymru yn dilyn oedi o 21 mis yn sgil y pandemig COVID-19



Ymweliadau ymgysylltu â lleoliadau nas cynhelir yn ystod tymor yr hydref 2021

Ionawr 2022:

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir Nas Cynhelir, yn seiliedig ar y pum llwybr datblygu: (perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol, lles)



Arolygiadau ar y cyd o leoliadau nas cynhelir yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf



Adroddiad sector: Meithrinfeydd nas cynhelir 2021-2022

Dysgu

O ystyried eu cam datblygiadol, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod mewn lleoliadau meithrin nas cynhelir. Yn yr ychydig iawn o achosion lle nad oedd cynnydd mor gryf, nid oedd plant yn datblygu ac yn cymhwyso ystod addas o fedrau llythrennedd a rhifedd yn gyson yn eu chwarae a gweithgareddau strwythuredig. Roedd tystiolaeth o'n gweithgarwch ymgysylltu yn nhymor yr hydref wedi awgrymu, oherwydd y tarfu i ddarpariaeth cyn-ysgol a achoswyd gan y pandemig, y gallai fod dirywiad ym medrau siarad a gwranddo plant o gymharu â charfanau blaenorol. Fodd bynnag, pan ailddechreuwyd ein harolygiadau, de wnaethon ddarganfod, gyda chymorth gan ymarferwyr, fod llawer o blant wedi gwneud cynnydd da gyda'u medrau cyfathrebu o waelodlin isel. Er enghraifft, byddent yn gwranddo ar oedolion ac yn ymateb yn briodol, ac yn dechrau mynegi dewisiadau neu'n gofyn am gymorth, fel y bo'r gofyn. Wrth i'w hyder gynyddu, dechreuodd y rhan fwyaf sgwrsio'n naturiol ag ymarferwyr a'u ffrindiau, a chwarae gyda nhw yn hytrach nag ochr yn ochr â nhw. Datblygodd llawer o blant eu medrau cyfathrebu yn dda gan ddefnyddio technoleg. Er enghraifft, wrth siarad am ffotograffau yr oeddent wedi'u tynnu gan ddefnyddio camerau digidol.

Roedd bron bob plentyn yn mwynhau gwranddo ac ymuno wrth i ymarferwyr ddarllen storïau. Byddai lleiafrif yn dewis cydio a rhyngweithio â llyfrau yn annibynnol. Mewn llawer o leoliadau cyfrwng Saesneg, roedd plant yn dechrau caffael medrau Cymraeg syml a byddent yn ymateb i gyfarchion neu'n adnabod lliwiau yn Gymraeg.

Roedd bron bob plentyn yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Trwy ddatblygu medrau echddygol manwl drwy weithgareddau fel chwarae gyda gleiniau bach a'u rhoi ar llyn, roedd plant yn dechrau datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i ysgrifennu'n gynnar. Roedd llawer yn arbrofi'n effeithiol â gwneud marciau, er enghraifft trwy ddefnyddio sialciau lliw i dynnu llun ar gerrig palmant neu gymryd archebion mewn llyfr nodiadau yn rôl chwarae caffi. Roeddent yn datblygu medrau echddygol bras yn dda drwy weithgareddau fel cerdded ar drawstiau cydbwysu a thrwy ddefnyddio'r offer dringo awyr agored a brynwyd yn aml gyda chyllid grant COVID-19.

Datblygodd llawer o blant fedrau creadigol da. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn lleoliadau lle'r oeddent yn cael eu hannog a'u galluogi i wneud dewisiadau eu hunain, fel dewis arbrofi gyda phaentiau, creu dawnsfeydd dychymygus neu ddefnyddio offer taro i wneud patrymau sain syml. Yn yr achosion cryfaf, roedd plant yn elwa o allu cael

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

mynediad i ystod eang o offer yn annibynnol oedd ar gael iddynt eu defnyddio i fwynhau mynegi'u creadigrwydd a datblygu medrau newydd.

Roedd llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cynnar yn unol â'u cam datblygiadol. Er enghraifft, roeddent yn dechrau adnabod termau fel 'trwm' ac 'ysgafn' wrth lenwi cynwysyddion gyda dŵr a thywod. Pan roddwyd heriau penodol iddynt, roedd plant yn mwynhau datblygu'u medrau datrys problemau drwy arbrofi a goresgyn anawsterau. Er enghraifft, roeddent yn dyfalbarhau ac yn defnyddio dulliau gwahanol wrth adeiladu strwythur i osod uchder o flociau pren. Roedd llawer yn dechrau adnabod ac enwi siapiau syml, ac roedd mwyafrif yn datblygu'u dealltwriaeth o rif yn dda. Er enghraifft, roeddent yn ailadrodd rhifau wrth ymuno â chaneuon, ac roedd y rheiny a oedd ymhellach ymlaen o ran eu cam datblygiadol, yn dechrau cyfrif gwrthrychau gyda rhywfaint o annibyniaeth.

Lles

Ar ddechrau tymor yr hydref, nododd ychydig o arweinwyr bod cynnydd yn nifer y plant oedd â medrau personol a chymdeithasol llai datblygedig o ganlyniad i lai o gyfleoedd i chwarae ochr yn ochr â phlant eraill yn ystod cyfnodau clo. Er enghraifft, roedd rhai plant yn dangos mwy o amharodrwydd i rannu adnoddau, neu i chwarae â phlant eraill. Ar ôl i arolygiadau ailddechrau, fe wnaethom ddarganfod fod y rhan fwyaf o blant wedi ymgartrefu'n dda ac yn teimlo'n ddiogel. Roedd llawer ohonynt yn hapus yng nghwmni eu ffrindiau ac ymarferwyr, ac yn ymgysylltu â'r adnoddau a oedd ar gael iddyn nhw gyda brwdfrydedd. Arweiniodd hyn at blant yn y rhan fwyaf o leoliadau i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol yn dda. Roedd safonau lles yn hynod gryf lle'r oedd y ddarpariaeth yn ddifyr, ac roedd ymarferwyr yn chwarae ochr yn ochr â phlant, gan fodelu medrau cyfathrebu fel geirfa a phatrymau iaith yn gelfydd. Yn yr achosion hyn, roedd plant yn llawn brwdfrydedd ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mewn llawer o leoliadau, roedd plant yn gwneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu, fel symud yn rhydd rhwng mannau dan do a mannau awyr agored i chwarae, a phenderfynu, pan yn cael y cyfle, pa adnoddau i chwarae â nhw. Roeddent yn mwynhau chwarae am gyfnodau amser estynedig, a ddarparodd gyfleoedd i ddatblygu ystod eang o fedrau fel cydweithio gydag eraill. Yn yr un modd, mewn llawer o leoliadau, roedd plant yn mwynhau achlysuron cymdeithasol fel amserau byrbryd, a sgwrsio'n naturiol gyda ffrindiau neu oedolion. Yn y lleoliadau cryfaf, roedd plant yn datblygu medrau hunanofal yn dda iawn trwy ddewis pa bryd i fwyta neu beth i'w fwyta, neu drwy helpu i weini'u hunain neu eu ffrindiau. Roeddent yn dechrau datblygu annibyniaeth yn dda, er enghraifft drwy fynd i nôl eu hances bapur eu hunain pan roedd angen iddynt chwythu'u trwynau neu wisgo'u cot eu hunain i fynd y tu allan. Roedd plant yn dylanwadu'n gynyddol ar beth neu sut y maen nhw yn ddysgu, wrth i ymarferwyr weithio tuag at roi egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ar waith. Er enghraifft, maent wedi awgrymu fod wal ddringo yn cael ei hychwanegu at lethr serth fel eu bod yn gallu mynd at y llithren yn haws.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Er gwaethaf yr heriau a achoswyd gan y pandemig COVID-19, parhaodd y rhan fwyaf o arweinwyr i ddarparu profiadau dysgu addas ar gyfer plant yn ystod tymor yr hydref. Rhoddodd bron yr holl arweinwyr bwyslais cryf ar ddarparu cyfleoedd i blant chwarae a dysgu yn yr awyr agored, gan wneud defnydd o adnoddau newydd. Cynyddodd ychydig o leoliadau eu defnydd o adnoddau naturiol a bywyd go iawn, fel brigau a cherrig yn y mannau awyr agored, neu eitemau bob dydd fel sosbenni yn ardal y cartref. Lle'r oedd y dysgu'n fwyaf effeithiol, roedd ymarferwyr yn darparu ystod eang o adnoddau sy'n eu hysgogi i blant, ac adnoddau y gallai plant gael gafael arnynt yn rhwydd.

Yn ystod tymor yr hydref, dechreuodd lleiafrif o leoliadau i weithio mewn ffyrdd newydd i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft drwy arbrofi â dull sy'n cael ei arwain yn fwy gan blant. O dymor y gwanwyn ymlaen, yn dilyn cyhoeddi'r [Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin](#) a ariennir nas cynhelir, sy'n anelu i ennyn ymdeimlad cadarnhaol tuag at ddysgu ymhlith plant' (tud. 3), dechreuodd mwy o leoliadau addasu eu dulliau addysgu a dysgu. Roedd y ddogfen yn amlinellu pwysigrwydd darpariaeth sy'n cynnwys oedolion

sy'n galluogi, profiadau sy'n ennyn diddordeb ac amgylcheddau effeithiol i gynorthwyo plant wireddu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ddogfen hefyd yn amlinellu pum llwybr datblygu y mae'n cydnabod eu bod yn 'hanfodol i er mwyn i bob plentyn ifanc ddysgu a datblygu' – perthyn, cyfathrebu, archwilio, datblygiad corfforol a lles. Yn gyffredinol, mae'r ddogfen wedi cael effaith gadarnhaol o ran cynorthwyo ymarferwyr i ymgysylltu â diwygio'r cwricwlwm.

Wrth weithio tuag at egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, darparodd lawer o ymarferwyr fwy o gyfleoedd ar gyfer chwarae di-dor, gan alluogi i blant ymgolli yn eu dychymyg, dyfalbarhau â thasgau, a dewis drostyn nhw eu hunain pan fyddan nhw'n barod i symud ymlaen at weithgareddau gwahanol. Yn yr achosion cryfaf, roedd ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn dilyn diddordebau plant, ac yn ymyrryd yn fedrus yn ystod sesiynau i symud dysgu'r plant yn ei flaen. Er enghraifft, roeddent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant, yn modelu patrymau iaith cywir wrth iddynt sgwrsio ac yn gofyn cwestiynau a wnaeth, yn eu tro, gyflwyno plant at eirfa newydd a'u hannog nhw i feddwl.

Roedd llawer o ymarferwyr yn darparu cyfleoedd helaeth i blant arbrofi a datrys problemau, er enghraifft drwy herio plant i sianelu dŵr yn yr ardal awyr agored. Yn yr enghreifftiau cryfaf, parhaodd ymarferwyr i ddod o hyd i ffyrdd i gyflwyno plant i brofiadau newydd, er enghraifft trwy gynllunio gweithgareddau sy'n gwahodd plant i ddathlu treftadaeth Cymru ac amrywiaeth ddiwylliannol yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ddiddordebau presennol plant. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, fe wnaeth lleoliadau dorri'n ôl yn ormodol ar ymyrraeth oedolion. O ganlyniad, ni wnaeth ymarferwyr adnabod cyfleoedd dysgu wrth i blant chwarae, ac nid oeddent yn annog plant i ddatblygu eu medrau i'r cam nesaf. Trwy ganolbwyntio'n unig ar ddiddordebau plant, colodd ychydig iawn o ymarferwyr gyfleoedd i gyflwyno ystod ddigon eang o brofiadau dysgu ar gyfer plant.

Datblygodd llawer o leoliadau eu defnydd o arsylwadau o blant mewn sesiynau yn hytrach nag asesiadau mwy ffurfiol o ddysgu plant, er bod yr arfer hon, yn gyffredinol, ar gam datblygu cynnar. Mewn ychydig o achosion, ni wnaeth yr arsylwadau hyn lywio cynllunio i'r dyfodol yn ddigonol i sicrhau bod gweithgareddau'n ddigon heriol i blant.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Yn unol â blynyddoedd blaenorol, parhaodd sefydliadau i ddarparu lefelau gofal, cymorth ac arweiniad cadarn ar gyfer plant, gydag ymarferwyr yn datblygu perthnasoedd gweithio cynnes gyda phlant, gan eu trin â pharch a gofalu am eu hanghenion. Ym mron pob achos, teimlai plant yn ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn barod i ddysgu.

Roedd ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol ac yn cynorthwyo plant i ddatblygu medrau cymdeithasol fel rhannu ac ystyried teimladau ei gilydd. Roeddent yn annog plant i ddechrau deall eu diwylliant a threftadaeth Cymru. Gweithiai ymarferwyr i sicrhau bod plant yn dechrau adnabod y ffyrdd amrywiol mae pobl yn byw eu bywydau. Er enghraifft, roeddent yn darparu cyfleoedd i blant ganfod ac archwilio ystod o ddathliadau crefyddol a diwylliannol. Roedd llawer yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn dda, fel drwy annog plant i ddewis ystod o ffrwythau a llysiau adegau byrbryd ar eu pennau eu hunain.

Mewn ychydig o leoliadau, fodd bynnag, roeddent wedi nodi pryderon diogelu yn ystod arolygiadau, fel arfer yn gysylltiedig â threfniadau ar gyfer cadw plant yn ddiogel. Er enghraifft, nid oedd staff yn hyderus ynghylch beth ddylent ei wneud os oeddent yn poeni am les plentyn, ac nid oedd ychydig iawn o leoliadau yn cydymffurfio'n llawn gydag arferion recriwtio diogel.

Yn dilyn y cyfnodau clo, dywedodd arweinwyr wrthym eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y plant oedd â materion yn ymwneud â lleferydd, iaith, materion emosiynol ac ymddygiadol. Mae tystiolaeth o arolygu wedi dangos sut mae arweinwyr wedi gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol, lle bo'r angen, i ddarparu cymorth i blant ag ADY. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant, gan gynnwys y rheiny ag ADY, yn gwneud cynnydd da. Mae arweinwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg wedi mynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd cymorth arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ac ymarferwyr wedi defnyddio'r cyfleoedd sydd ar gael i gyrchu hyfforddiant ar y Ddeddf ADY newydd. Maent wedi croesawu rôl statudol newydd Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (SAADYBC) mewn awdurdodau lleol, ac yn gwerthfawrogi'r cymorth ganddynt. Mae arweinwyr wedi dechrau datblygu eu hymagweddau at ADY, er enghraifft trwy ddatblygu proffiliau un dudalen ar gyfer plant. Mae'r rhain yn eu galluogi i adnabod dewisiadau a diddordebau plant pan fyddant yn dod i mewn i'r lleoliad, yn ogystal â nodi unrhyw anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Arweinyddiaeth

Deliodd arweinwyr yn dda â lefelau digynsail o darfu yn ystod y pandemig, yn enwedig trwy fisoedd y gaeaf pan roedd cyfraddau heintiau COVID-19 ar eu huchaf. Er gwaetha'r heriau staffio a greodd hyn, llwyddodd y rhan fwyaf o arweinwyr i redeg eu lleoliadau'n effeithiol, cydymffurfio â chanllawiau diogelwch a chynnal morâl staff. Gwelodd arweinwyr fod rheoli absenoldeb staff yn sgil hunanynysu yn her arbennig, yn enwedig gan fod staff cyflenwi yn brin. Mewn lleiafrif o leoliadau, cafodd staff gyflogaeth amgen yn ystod y pandemig, ac roedd recriwtio staff â chymwysterau addas a medrus yn her sylweddol barhaus. Roedd y cyfryw bryderon hyd yn oed yn waeth mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

Pan ailddechreuwyd arolygu, fe wnaethon ni ddarganfod fod arweinwyr yn gweithio'n effeithiol i sicrhau bod eu lleoliadau'n ystyried anghenion newidiol eu plant. Roedd trefniadau hunanwerthuso a gwella effeithiol gan lawer wedi arwain at addasiadau i'r lleoliad. Er enghraifft, gwnaethant newidiadau i'r ddarpariaeth ar sail adborth gan rieni. Mewn ychydig o leoliadau, fodd bynnag, nid oedd arweinwyr wedi ailddechrau trefniadau sicrhau ansawdd yn llawn, fel arsylwadau a goruchwyliaethau staff. Golygai hyn nad oeddent bob amser yn llwyddiannus o ran nodi targedau gwelliant addas ar gyfer ymarferwyr, neu'r lleoliadau yn eu cyfanrwydd. Fe wnaeth bron yr holl arweinwyr greu a chynnal cysylltiadau cadarnhaol â phartneriaid allanol a rhieni yn benodol. Er enghraifft, darparodd llawer o leoliadau wybodaeth ddefnyddiol i rieni ynglŷn â'r lleoliad, ei waith a chynnydd eu plant. I ymateb i heriau'r pandemig, addasodd llawer o leoliadau i wneud mwy o ddefnydd o gyfathrebu digidol.

Mae wedi bod yn flaenoriaeth i arweinwyr ganolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth ymarferwyr o'r Cwricwlwm i Gymru a'r Cwricwlwm ar gyfer Lleoliadau Meithrin a Ariennir nas Cynhelir. Mewn llawer o achosion, fe wnaethant sicrhau bod ymarferwyr yn cael dysgu proffesiynol i gefnogi'r ddealltwriaeth hon. Yn yr achosion cryfaf, sicrhodd arweinwyr fod dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â gweledigaeth glir ar gyfer darpariaeth yn y lleoliad, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant. Roedd arweinwyr ym mron yr holl leoliadau yn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu diweddarau â hyfforddiant gorfodol sy'n helpu cadw plant yn ddiogel, er enghraifft hyfforddiant diogelu a hylendid bwyd.

Mae'r adnodd hwn yn darparu sbardunau hunanfyfrio i helpu arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir i werthuso ansawdd eu [darpariaeth](#).

Adroddiad sector: Cynradd 2021-2022

Ysgolion



Nifer yr ysgolion cynradd:

2020 = 1,234
2021 = 1,228
2022 = 1,225


Mae nifer yr ysgolion cynradd yng Nghymru wedi aros yn gyson yn bennaf dros y tair blynedd diwethaf.

Disgyblion




Nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd:

2020 = 272,006
2021 = 273,063
2022 = 267,185




Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

2020 = 19%
2021 = 21%
2022 = 22%




Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A-C):

2020 = 6%
2021 = 6%
2022 = 6%



Canran y disgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg:

2020 = 13%
2021 = 13%
2022 = 12%



Canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol:

2020 = 22%
2021 = 21%
2022 = 16%

Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categori gweithgarwch dilynol Medi 2021

MA	GS	AE
7	6	23

Nifer a dynnwyd 2021-2022:

MA	GS	AE
7	6	22

Nifer a aeth i mewn i categori gweithgarwch dilynol 2021-2022:

MA	GS	AE
3	1	9

Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol Awst 2022

MA	GS	AE
3	1	10

MA – Mesurau arbennig
GS – Gwelliant sylweddol
AE – Adolygu gan Estyn

Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: **84**

Cyfrwng Cymraeg: **23**

Dwyieithog: **5**

Cyfrwng Saesneg: **56**

Ffydd: **15**

Oherwydd y pandemig COVID-19, dim ond rhwng diwedd Chwefror a Gorffennaf 2022 y cynhaliwyd arolygiadau craidd

Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau/galwadau: **182**

Cyfrwng Cymraeg: **51**

Dwyieithog: **5**

Cyfrwng Saesneg: **126**

Ffydd: **18**

Astudiaeth achos

Nifer yr astudiaethau achos: **28**

Ysgolion ag astudiaethau achos: **23**



Adroddiad sector: Cynradd 2021-2022

Dysgu

Darganfydded arolygwyr fod llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau mewn llythrennedd, mathemateg a datblygiad corfforol islaw'r rheiny a ddisgwyliwyd am eu cyfnod datblygiadol. Arweiniodd effaith y pandemig at fwyaf o ddisgyblion yn mynd i mewn i ddosbarthiadau meithrin a derbyn gyda lefelau isel o fedrau cymdeithasol a medrau annibynnol. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd o ddifreintedd economaidd-gymdeithasol uchel. Gwnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gynnydd addas yn eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o'u mannau cychwyn amrywiol. Fodd bynnag, roedd disgyblion agored i niwed yn gwneud llai o gynnydd na'u cyfoedion yn aml.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar ddatblygu medrau cyfathrebu disgyblion ieuengaf yn dilyn cyfnodau clo. Yn yr ysgolion hyn, roedd llawer o ddisgyblion yn gwrandao'n astud ac yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn dda. Trwy weithgareddau dysgu cyson a difyr, fe wnaethant wella'u geirfa lafar yn gyflym, a siarad gyda hyder cynyddol gyda'i gilydd ac oedolion. Gwnaed cynnydd cryf yn eu medrau llafar Cymraeg gan lawer o ddisgyblion sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd ffocws cynyddol gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau iaith disgyblion. Fodd bynnag, roedd diffyg hyder gan fwyaf o ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg i siarad yr iaith gan nad oedd eu geirfa a'u patrymau brawddegol wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod llai o gyfleoedd iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y pandemig, ond mae hefyd yn adlewyrchu ein canfyddiadau o flynyddoedd blaenorol. Yn yr un modd, effeithiodd y pandemig yn negyddol ar fedrau iaith disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle nad oedd Cymraeg yn cael ei siarad yn eu cartrefi.

Defnyddiodd Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair yng Nghas-gwent ddysgu proffesiynol yn dda i ddatblygu medrau Cymraeg staff a chodi safonau i ddisgyblion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd disgyblion yn datblygu eu medrau darllen drwy amrywiaeth o ddulliau, a gwnaed cynnydd cadarn gan lawer ohonynt. Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, roedd athrawon yn annog cariad at lenyddiaeth ac yn datblygu diwylliant o ddarllen trwy gwricwlwm llythrennedd cyfoethog. Mewn ychydig o ysgolion, lle'r oedd ffocws gormodol ar dechnegau darllen, nid oedd disgyblion yn datblygu brwdfrydedd dros ddarllen ac roedd hyn yn rhwystro'u cynnydd.

Mewn llawer o ysgolion, arweiniodd effaith y pandemig at gynnydd gwanach yn natblygiad medrau ysgrifennu disgyblion. Yn benodol, roedd dirywiad yn ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion. Pan ddychwelodd disgyblion i'r ysgol, fe wnaeth

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

athrawon gydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd gwell i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Er enghraifft, gwnaeth y disgyblion ieuengaf ymarfer eu medrau gwneud marciau yn yr ardal awyr agored, a dychwelodd y disgyblion hynaf i gynhyrchu darnau o waith ysgrifennu estynedig. Fodd bynnag, parhaodd ychydig o ddisgyblion i weld cynhyrchu darnau ysgrifenedig hirach yn her, ac roedd angen mwy o gymorth arnynt. Mewn lleiafrif o ysgolion, roedd disgyblion o bob gallu yn aml yn gwneud camgymeriadau sylfaenol gyda gramadeg, sillafu ac atalnodi. Yn rhy aml, roeddent yn ailadrodd y camgymeriadau hyn dros gyfnod ac nid oeddent yn golygu nac yn mireinio'u gwaith yn rheolaidd i wneud gwelliannau.

Roedd llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol. Yn yr ysgolion mwyaf llwyddiannus, roedd y disgyblion ieuengaf yn defnyddio cyfarpar, fel cownteri, blociau a rhodenni rhif, yn dda i ddatblygu eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol, ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o eirfa fathemategol. Roedd y disgyblion hynaf yn datblygu gwydnwch wrth fynd i'r afael â phroblemau mathemategol, ac roeddent yn barod i ddefnyddio ystod o ymagweddau gwahanol a dulliau profi a methu i ganfod ateb. Mewn ysgolion lle'r oedd datblygiad medrau mathemategol disgyblion yn llai effeithiol, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau datrys problemau mathemategol gyda llwyddiant amrywiol gan fod eu dealltwriaeth o ychydig o gysyniadau yn llai datblygedig. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, er gwaethaf gwelliannau bach, nid oedd mwyafrif o ddisgyblion yn gallu cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi caffael medrau buddiol mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn ystod y pandemig. Datblygodd y disgyblion ieuengaf eu medrau yn gyflym, a'u cymhwyso'n dda i gefnogi'u dysgu. Roedd y disgyblion hynaf yn defnyddio'u gwybodaeth am apiau a rhaglenni gwahanol i gyflwyno gwybodaeth yn effeithiol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Yn gyffredinol, defnyddiodd disgyblion eu medrau digidol yn dda i gefnogi ac ymestyn eu dysgu mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Er i ddisgyblion ddatblygu llawer o agweddau ar gymhwysedd digidol fel cyfathrebu'n effeithiol dros gyfnod, mewn ychydig o ysgolion roedd bylchau yn nysgu'r disgyblion, fel y defnydd o gronfeydd data a thaenlenni.

Rhoddodd athrawon bwyslais cryf ar ddatblygu medrau creadigol a chorfforol disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi 2021. Roedd llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn dda trwy weithgareddau wedi'u cynllunio i gefnogi eu lles. Fe wnaeth defnydd cynyddol o fannau awyr agored gan y rhan fwyaf o ysgolion gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol. Er enghraifft, roedd y disgyblion ieuengaf yn ymgysylltu'n fwy gyda gweithgareddau i ddatblygu eu medrau cydbwysu, ac roeddent yn fwy parod i gymryd risgiau rheoledig yn eu chwarae.

Lles ac agweddau at ddysgu

Parhaodd lles disgyblion a staff i fod yn flaenoriaeth ar gyfer ysgolion yn ystod tymor yr hydref. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau bod yn ôl yn yr ysgol, yn cymdeithasu â'u cyfoedion ac yn ymgysylltu â dysgu wyneb yn wyneb.

Dangosodd disgyblion lawer iawn o wydnwch ac fe wnaethant addasu'n dda i newidiadau i amserlenni ac arferion ysgol. Mewn ychydig o ysgolion, bu cynnydd mewn atgyfeiriadau at asiantaethau allanol yn sgil pryderon ynglŷn â disgyblion a oedd yn cael anhawster rheoli'u hymddygiad, neu nid oeddent yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd o ddifreintedd economaidd-gymdeithasol lle'r effeithiwyd ar deuluoedd fwyaf gan y pandemig. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, nid oedd cyfraddau presenoldeb cyffredinol wedi dychwelyd i lefelau cyn-pandemig erbyn diwedd y flwyddyn academaidd.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdopi'n dda wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Roeddent yn teimlo'n ddiogel a bod gofal iddynt. Mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn dechrau meddwl mwy am eu hiechyd emosiynol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i gefnogi hyn, fel gwrandao ar gerddoriaeth ymdawelu, siarad am eu profiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau mwy corfforol sy'n hybu ymlacio. Parhaodd hyn yn gyffredinol mewn ysgolion a gyflwynodd y gweithgareddau hyn wrth iddynt sylweddoli'r buddion hirdymor i ddisgyblion.

Yn gynyddol, mae disgyblion yn deall hawliau plant ac yn siarad amdanynt. Er enghraifft, roedd disgyblion mewn llawer o ysgolion yn ystyried sut oedd y rhyfel yn yr Wcráin yn effeithio ar hawliau ffoaduriaid. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, fe wnaethom ddarganfod fod bron yr holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff, ond nid yw'r holl ddisgyblion yn defnyddio'r wybodaeth hon i wneud dewisiadau iach. Roedd y rhan fwyaf yn parhau i wybod am gadw'n ddiogel ar-lein a sut i ddiogelu rhag peryglon posibl.

Cameo: mae disgyblion yn dylanwadu ar fywyd ysgol

Yn Ysgol Gynradd Gymunedol Clwyd, Abertawe, roedd disgyblion yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddylanwadu ar beth a sut maen nhw'n dysgu, er enghraifft drwy eu gwaith mewn nifer sylweddol o grwpiau llais y disgybl. Roedd y grwpiau hyn yn cynnwys Sgwad Diogelwch, a grŵp Parchu Hawliau sy'n helpu disgyblion i gydnabod a hyrwyddo hawliau plant yn unol ag egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dros gyfnod, datblygodd bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'u hawliau, er enghraifft drwy greu siarteri dosbarth sy'n amlinellu disgwyliadau cytûn i ddisgyblion.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, wrth iddynt baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, datblygodd disgyblion ymwybyddiaeth o bedwar diben y cwricwlwm. Mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd dealltwriaeth ddigon da gan ddisgyblion i gryfhau'r nodweddion hyn ynddyn nhw eu hunain drwy eu gweithredoedd, fel sut i fod yn fwy uchelgeisiol neu ymddwyn yn fwy moesegol. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu sbardunau hunanfyfrio i gynorthwyo ysgolion cynradd i gynllunio ar gyfer datblygu'r pedwar diben.

Parhaodd bron yr holl ddisgyblion i ymddwyn yn dda mewn gwersi yn y rhan fwyaf o ysgolion. Roedd ymddygiad ac agweddau disgyblion at ddysgu ar eu cryfaf mewn ysgolion lle'r oedd disgyblion yn gweld y dysgu'n ddiddorol ac yn ysgogol, a chyflymder y dysgu wedi'i farnu yn dda. Yn yr ysgolion hyn, roedd disgyblion yn ymgysylltu'n dda â thasgau, yn dyfalbarhau â heriau, yn dod o hyd i atebion amgen i broblemau ac yn gwneud cynnydd cadarn. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd disgyblion yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Darganfyddodd arolygwyr fod mwyafrif o ysgolion yn parhau i ganolbwyntio ar wella addysgeg, gan ddefnyddio'r egwyddorion addysgegol o Dyfodol Llwyddiannus yn aml fel cyfrwng i drafod dulliau effeithiol o addysgu a dysgu. Yn yr achosion hyn, roedd athrawon yn aml yn defnyddio ymchwil neu gyhoeddiadau Estyn, fel '[Gwellu Addysgu](#)', i helpu datblygu eu harfer. Fe wnaeth cyfyngiadau COVID-19 gyfyngu ar gyfleoedd i athrawon weithio ar y cyd i wella'u harfer broffesiynol gan yr aeth yn anodd iawn trefnu i arsylwi gwersi, gweithio mewn triawdau, a gwneud arsylwadau ar y cyd.

Lle'r oedd ysgolion yn fwyaf effeithiol o ran datblygu addysgeg, roeddent yn adolygu ac yn cryfhau eu dulliau addysgu ac asesu i gefnogi dysgu cyn dylunio cynnwys a strwythur eu cwricwlwm lleol. Fe wnaeth hyn sicrhau bod sylfaen gref ganddynt i adeiladu cwricwlwm newydd arni, a gwerthuso'i heffaith ar ddysgu a lles disgyblion. Fodd bynnag, mewn ychydig o ysgolion, roedd dylunio'r cwricwlwm yn cael blaenoriaeth dros wella ansawdd addysgu, a chollwyd cyfleoedd i drafod a gwella ansawdd addysgeg.

Dychwelodd llawer o ysgolion yn gyflym at ddysgu sylfaen. Mewn ychydig o achosion, serch hynny, roedd y ddarpariaeth hon yn parhau'n rhy ffurfiol neu wedi'i gor-gyfarwyddo gan ymarferwyr. Cafodd hyn effaith niweidiol ar fedrau ehangach disgyblion, fel annibyniaeth, datrys problemau a gwydnwch. Fe wnaeth bron bob ysgol dreialu dulliau addysgu gyda'r disgyblion hynaf a oedd yn golygu eu bod yn cael profiadau dysgu 'go iawn' gyda'r nod o annog disgyblion i gymhwyso a chryfhau'u medrau ar draws y cwricwlwm. Yn yr achosion gorau, roedd hyn yn cynnwys darparu cyfleoedd gwerthfawr



i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â sut byddan nhw'n cymhwyso'u medrau, er enghraifft trwy ddewis ffyrdd gwahanol o gofnodi'u canfyddiadau neu gynllunio ffyrdd i ddatrys problem. Lle'r oedd addysgu'n llai effeithiol, fodd bynnag, y cyfan yr oedd disgyblion yn ei wneud oedd dewis o ddewislen o dasgau, ac roedd y rhain ar lefel rhy isel yn aml o gymharu â gallu disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, roedd athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm a oedd yn adeiladu'n dda ar addysgu iaith, llythrennedd a mathemateg yn uniongyrchol. Roedd llawer o ysgolion yn rhoi pwyslais buddiol ar ddysgu awyr agored ar draws yr holl oedrannau.

Mewn ychydig o ysgolion lle'r oedd yr addysgu gryfaf, roedd athrawon yn defnyddio technegau asesu ar gyfer dysgu yn dda i fesur dysgu'r disgyblion ac addasu gweithgareddau. Roeddent yn defnyddio holi'n effeithiol i brocio dealltwriaeth disgyblion a sbarduno'u meddwl. Yn yr ysgolion hyn, roedd athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall pam yr oeddent yn dysgu testun neu fedr penodol, a sut i fod yn llwyddiannus â'u dysgu. Yn unol â blynyddoedd blaenorol, fe wnaethom ddarganfod, lle'r oedd yr addysgu'n fwyaf effeithiol a ble roedd perthynas weithio gryf rhwng ymarferwyr a disgyblion, mae gwersi yn hwyl ac yn ddifyr, ac mae athrawon yn cydweddu'r dysgu yn agos â gallu disgyblion.

Datblygodd lleiafrif o ysgolion ddull synhwyrol o asesu, a oedd yn cynnwys arsylwadau, trafodaethau â disgyblion ac adborth a oedd yn llywio'r camau nesaf yn yr addysgu. Fodd bynnag, roedd mwyafrif o ysgolion yn ansicr ynghylch sut i ddatblygu eu prosesau asesu i gyd-fynd gyda'r Cwricwlwm i Gymru.

Parhaodd ysgolion i fod ar gamau amrywiol o ran eu cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mewn llawer o ysgolion, lle'r oedd datblygu'r cwricwlwm yn mynd rhagddo'n dda, roedd arweinwyr a staff yn ystyried ystod o ddulliau yn ofalus. Roeddent yn archwilio'n fanwl sut gallai pob dull gefnogi dilyniant gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion, yn ogystal â datblygu eu medrau. Yn aml, roeddent yn defnyddio ymchwil ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm a thystiolaeth o'u hymholiadau eu hunain i lywio'u penderfyniadau. Erbyn mis Gorffennaf 2022, fodd bynnag, roedd ychydig o ysgolion ar gam cynnar o hyd o ran eu paratodau ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith.

Yn yr ysgolion cryfaf, roedd staff yn neilltuo amser i ddyfnhau eu dealltwriaeth o'r dysgu y mae'n rhaid i ddisgyblion ei ddatblygu dros gyfnod, ac yn ystyried hyn yng nghydestun eu hysgol a'u cymuned. Galluogodd hyn iddynt gynllunio themâu a thestunau sy'n berthnasol i anghenion a diddordebau disgyblion. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cydnabod pwysigrwydd llais y disgybl wrth ddatblygu eu cwricwlwm lleol. Yn raddol, aeth ysgolion ati i fyfrio ynghylch pa bryd y mae'n fwyaf priodol i ddisgyblion lywio a dylanwadu ar eu cwricwlwm ysgol yn ystod y cyfnodau cynllunio, treialu ac adolygu. Yn yr ysgolion cryfaf, roedd arweinwyr yn cynnwys yr holl staff, dysgwyr, llywodraethwyr, rhieni a gofawyr yn feddylgar wrth ddatblygu eu gwybodaeth am y cwricwlwm ac wrth

gyfrannu at y broses ddylunio. Mae'r adnodd hwn yn darparu sbardunau hunanfyfrio i helpu cynghorau ysgol a grwpiau disgyblion ystyried sut y gallant weithio gyda staff i wella'u cyfraniad at beth a sut maen nhw'n [dysgu](#).

At ei gilydd, nid oedd ysgolion cynradd ac uwchradd yn cynllunio'n ddigon da mewn partneriaeth â'i gilydd i sicrhau dilyniant cyson mewn gwybodaeth a medrau ar draws y cwricwlwm. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer TGCh a Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Nododd staff ysgolion cynradd fod bylchau yn iechyd a lles disgyblion wedi cynyddu, a bod anghydraddoldebau wedi ehangu yn ystod cyfnodau cau ysgolion. Yn y rhan fwyaf o ysgolion, lles disgyblion oedd eu blaenoriaeth ac fe wnaethant barhau i ddarparu cymorth cryf ar gyfer y maes hwn. Mewn llawer o achosion, yn enwedig mewn ardaloedd o ddifreintedd cymdeithasol, roedd hyn yn ymestyn i gefnogi teuluoedd drwy eu cyfeirio at asiantaethau eraill neu elusennau. O ganlyniad i'r pandemig, datblygodd bron yr holl staff ddealltwriaeth well o anghenion ac amgylchiadau'r teuluoedd yn eu cymunedau ysgol. Arweiniodd hyn at gydweithio gwell a pherthnasoedd cadarnach rhwng yr ysgol a'r cartref.

Cameo: holiaduron lles staff a disgyblion

Yn Ysgol y Llys, Sir Ddinbych, rhoddodd arweinwyr gyfle i ddisgyblion a staff rannu eu teimladau a'u pryderon drwy holiaduron lles. Dadansoddodd arweinwyr y canlyniadau a chwilio am dueddiadau a themâu cyffredin. O ganlyniad, roedd yr ysgol yn gallu targedu anghenion lles penodol y disgyblion a'r staff, a rhoi'r ymyraethau angenrheidiol ar waith. Erbyn hyn, mae swyddog lles parhaol gan yr ysgol sy'n arwain ar strategaethau cefnogi ac yn darparu'r cymorth sydd ei angen ar gyfer disgyblion a staff ar draws yr ysgol.

Roedd llawer o ysgolion yn gweithredu rhaglenni i gefnogi disgyblion a oedd yn teimlo straen emosiynol, a chyflwynodd ychydig o ysgolion weithgareddau fel ymarfer corff dyddiol yn yr amgylchedd awyr agored. Yn gyffredinol, cafodd darparu ymyraethau lles mewn ysgolion effaith gadarnhaol ar leihau gorbryder disgyblion.

Mewn llawer o ysgolion, roedd grwpiau llais y disgybl yn cael cyfleoedd cynyddol i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol. Lle'r oedd hyn yn fwyaf effeithiol, roedd enghreifftiau sylweddol o ddisgyblion yn arwain newid, ac roedd arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion o bob cefndir a gallu yn cael eu cynrychioli. Mewn ychydig o ysgolion, cyfyngedig o hyd oedd cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar beth a sut maen nhw'n dysgu.

Er bod y rhan fwyaf o ysgolion, dros gyfnod, wedi darparu gweithgareddau allgyrsiol sy'n gwella medrau academaidd a chymdeithasol disgyblion, effeithiwyd ar lawer ohonynt gan gyfyngiadau'r pandemig. Gwelsom y rhain yn dechrau ailsefydlu'n araf, ac erbyn diwedd tymor yr haf, dim ond ychydig o ysgolion a ddychwelodd i gynnig ystod eang o ddarpariaeth fuddiol a difyr.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi paratoi'n dda ar gyfer [diwygio ADY](#). Derbyniodd bron yr holl ysgolion hyfforddiant gan eu hawdurdod lleol a chonsortium rhanbarthol i gynllunio a pharatoi ar gyfer y newidiadau. Roedd llawer o gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol yn gweithio gyda chydweithwyr yn eu clystyrau ysgol i rannu gwybodaeth ac arfer orau. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi adnabod disgyblion oedd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DAP), ac wedi mapio anghenion darpariaeth disgyblion eraill oedd heb ADY. Datblygodd staff mewn llawer o ysgolion ddealltwriaeth o arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ac fe wnaethon nhw siarad am sut mae'r dull hwn yn gwella cyfarfodydd adolygu blynyddol ar gyfer disgyblion ag ADY. Parhaodd llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg i fynegi pryderon ynglŷn ag argaeledd adnoddau Cymraeg i gefnogi gwaith ADY.



Yn y rhan fwyaf o ysgolion, gwnaeth staff yn siŵr bod disgyblion yn deall materion cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u bod yn gweithredu gyda sensitifrwydd ynglŷn â nhw. Parhaodd ysgolion â diwylliant cryf o gynhwysiant i herio ymddygiadau ystrydebol ac archwilio ystod o faterion cysylltiedig gan gynnwys, mewn ychydig iawn o achosion, y rheiny sy'n wynebu pobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+. Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd disgyblon yn cael digon o gyfleoedd i ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn monitro presenoldeb yn dda, ac erbyn diwedd tymor yr haf, roeddent wedi adnewyddu eu systemau i herio presenoldeb isel. Ffurfiodd llawer gysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol i gefnogi teuluoedd oedd yn parhau i'w chael yn anodd sicrhau bod eu plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd materion yn ymwneud â diogelu disgyblion, gan gynnwys gwybodaeth staff am brosesau atgyfeirio diogelu plant a diogelwch safleoedd, yn destun pryder.

Cameo: disgyblion yn creu ap lles

Yn Ysgol Gynradd Pantysgallog, Merthyr Tudful, mae sesiynau addysg gorfforol rheolaidd ac ystod eang o chwaraeon allgyrsiol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fwynhau manteision ymarfer. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn prosiect digidol gyda thîm rygbi rhanbarthol i feithrin dyheadau ar gyfer cael ffyrdd iach o fyw trwy greu ap. Crëwyd hwn gan ddisgyblion i ddangos i'w cyfoedion amrywiaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo iechyd a lles.

Arweinyddiaeth

Mewn ysgolion cynradd ledled Cymru, dangosodd arweinwyr wydnwch a chreadigrwydd parhaus wrth iddyn nhw addasu'u darpariaeth i fodloni heriau'r pandemig. Mewn llawer o achosion, ymatebodd arweinwyr yn gyflym i amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym i gadw'r gymuned ysgol yn ddiogel wrth geisio cynnal ansawdd addysgu a dysgu. Yn aml, roedd y rhain yn flaenoriaethau a oedd yn gwrthdaro. Er enghraifft, roedd arweinwyr yn gweld eu hunain yn aml yn gweithio gyda staff i wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â threfnu dosbarthiadau ac hygyrchedd adnoddau er mwyn atal lledaeniad COVID-19, gan wybod bod y mesurau hyn yn creu'r risg o gyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu medrau dysgu allweddol, fel y gallu i gydweithio ag eraill. Fe wnaeth wynebu'r mathau hyn o heriau greu ethos tîm cryfach mewn llawer o ysgolion, wrth i staff dynnu ynghyd i ddarparu dysgu gartref, delio â materion absenoldeb staff a disgyblion, a chadw

disgyblion, staff a'r gymuned yn ddiogel. Wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, dychwelodd llywodraethwyr mewn llawer o ysgolion i ymgysylltu ar y safle ag arweinwyr, staff a disgyblion.

Mae [ymchwil](#) a wnaed yn dilyn y cyfnodau clo cychwynnol yn dangos bod hanner holl weithwyr proffesiynol addysg yn y DU yn teimlo bod eu hiechyd meddwl a'u lles wedi dirywio naill ai'n sylweddol neu ychydig. Nododd arolygwyr fod arweinwyr mewn llawer o ysgolion yng Nghymru wedi ymateb i hyn drwy roi mwy o ffocws ar ystyried a chefnogi lles staff.

Cameo: Helpu staff i ddeall a chefnogi'i gilydd

Treuliodd arweinwyr yn Ysgol Gynradd Glannau Wysg yng Nghasnewydd amser 'dod i adnabod eu staff eto' yn dilyn y cyfnod clo cyntaf. Roeddent yn cydnabod bod blaenoriaethau llawer o'r staff wedi newid, ac roedd eu safbwyntiau a'u hagweddau yn wahanol oherwydd eu profiadau yn ystod y pandemig. Gan adeiladu ar eu profiliau disgyblion oedd wedi'u sefydlu'n dda, gweithiodd arweinwyr gyda chydweithwyr i greu profiliau staff. Roedd y rhain yn ddewisol ac yn cael eu rhannu gyda staff eraill ac uwch arweinwyr yn unig. Roeddent yn nodi cyfrifoldebau teulu a gofalu, a nodweddion personol, fel sut maen nhw'n hoffi derbyn adborth a beth sy'n eu cymell. Galluogodd hyn arweinwyr i gynnig prosesau rheolaeth llinell mwy teilwredig ac i sicrhau bod arweinwyr a staff yn sensitif i anghenion ei gilydd.

I ymateb i'r pandemig a heriau'r cwricwlwm a diwygio anghenion dysgu ychwanegol, ceisiodd arweinwyr mewn llawer o ysgolion gryfhau partneriaethau ag ysgolion eraill, rhieni, ac asiantaethau allanol. Yn yr enghreifftiau cryfaf, datblygodd arweinwyr bartneriaethau cryf iawn â rhieni i feithrin cryn hyder a chred gyffredin bod y staff yn gwneud y peth iawn i'r disgyblion ac yn gweithredu er eu lles pennaf. Yn yr un modd, canolbwyntiodd arweinwyr ar ddatblygu cysylltiadau cryfach ag ysgolion eraill i gefnogi dylunio'r Cwricwlwm i Gymru ac i fynd i'r afael â gofynion diwygio ADY. Yn gynyddol, roedd arweinwyr yn canolbwyntio dysgu proffesiynol ar baratodau ar gyfer y mentrau hyn.

Mae ymgysylltu ag ymchwil i gefnogi datblygu addysgeg a'r cwricwlwm yn nodwedd mewn llawer o ysgolion cynradd yng Nghymru erbyn hyn. Cynhaliodd staff mewn dros hanner o ysgolion ymholiadau mewnol, yn seiliedig yn aml ar archwilio'r 12 egwyddor addysgeg neu sut i wella dyfnder dealltwriaeth disgyblion o fewn y meysydd dysgu ac arbenigedd yn y Cwricwlwm i Gymru. Gweithiodd rhai eraill gyda sefydliadau addysg uwch, er enghraifft fel rhan o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (PYPC). Yn [Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2018-2019](#), fe wnaethom nodi pryderon nad oedd ymarferwyr yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr effaith a gaiff newidiadau a ysgogir gan ymchwil mewn addysgeg ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion. Mae'n parhau'n bwysig fod arweinwyr yn glir ynghylch diben cymryd rhan mewn ac ymgysylltu gydag ymchwil, a bod prosesau clir ganddynt ar gyfer mesur effaith newidiadau i addysgeg a ph'un a yw'n werth dilyn eu trywydd. Erbyn mis Gorffennaf 2022, dim ond megis dechrau meddwl am eu gweledigaeth ar gyfer addysgu a'r cwricwlwm yr oedd ychydig o ysgolion wrth baratoi ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022.

Ym mhob ysgol, effeithiodd y pandemig i raddau amrywiol ar ansawdd darpariaeth a chynnydd disgyblion. Mewn ychydig o ysgolion, roedd arweinwyr yn cael anhawster ailsefydlu prosesau hunanwerthuso. Golygai hyn nad oeddent bob amser yn adnabod yr angen i ganolbwyntio ar nodweddion allweddol darpariaeth, fel elfennau o addysgu a dysgu ac, yn benodol, effeithiolrwydd dysgu sylfaen. Lle'r oedd hunanwerthuso ar ei gryfaf, roedd arweinwyr wedi datblygu diwylliant cryf o ymddiriedaeth ymhlith y tîm arwain a staff eraill a greodd hinsawdd o fod yn agored a gonestrwydd. Yn yr ysgolion hyn, roedd gan y rhan fwyaf o aelodau staff rôl mewn hunanwerthuso a gweithgareddau gwella ysgol, ac roedd hunanwerthuso yn rhan annatod o ddiwylliant yr ysgol. Mae hon yn nodwedd ysgolion effeithiol, a lle mae'r diwylliant hwn yn bodoli, mae staff yn gweithio ar y cyd i fyfyrion ar eu harfer broffesiynol a'i gwella. Caiff hyn effaith hynod gadarnhaol ar ansawdd addysgu a dysgu.

Adroddiad sector: Uwchradd 2021-2022

Ysgolion



Nifer yr ysgolion 2022:

2021 = 182

2022 = 182

Mae nifer yr ysgolion uwchradd wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf yn sgil y cynnydd yn nifer yr ysgolion pob oed.

Disgyblion




Holl ddisgyblion




Nifer y disgyblion mewn addysg orfodol




Nifer y disgyblion yn y chweched dosbarth




Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim



Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A-C)



Canran y disgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg



Canran y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

Gweithgarwch dilynol

Nifer mewn categorï gweithgarwch dilynol Medi 2021

MA	GS	AE
12	8	8

Nifer a dynnwyd 2021-22:

MA	GS	AE
5	5	7

Un wedi'i hisraddio o GS i MA

Nifer a aeth i mewn i categorï gweithgarwch dilynol 2021-2022:

MA	GS	AE
0	1	2

Cyfanswm mewn categorï gweithgarwch dilynol Awst 2022

MA	GS	AE
8	3	3

MA – Mesurau arbennig
GS – Gwelliant sylweddol
AE – Adolygu gan Estyn

Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: 11

Nifer heb fod categorï gweithgarwch dilynol: 8

Cyfrwng Cymraeg: 3

Dwyieithog: 1

Cyfrwng Saesneg: 7

Ffydd: 2

Oherwydd y pandemig COVID-19, dim ond rhwng diwedd mis Chwefror a diwedd mis Mai 2022 y cynhaliwyd arolygiadau craidd

Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau: 39

Cyfrwng Cymraeg: 0

Dwyieithog: 5

Cyfrwng Saesneg: 34

Ffydd: 4

Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: 10

Ysgolion ag astudiaethau achos:

Ysgol Stanwell

Ysgol Uwchradd Whitmore

Ysgol Uwchradd Cathays

Ysgol Penglais

Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin



Adroddiad sector: Uwchradd 2021-2022

Dysgu

Ers iddynt ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gymryd rhan mewn gweithgareddau nad oedden nhw ar gael iddynt oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys gweithio mewn paruau, trafodaethau 'byw' dosbarth cyfan, chwaraeon tîm a gweithgareddau ymarferol fel arbrofion gwyddoniaeth, coginio a defnyddio offerynnau cerdd. Gwnaeth fwyaf o ddisgyblion gynydd cyson yn eu gwybodaeth bynciol a dealltwriaeth, a medrau. Roedd lleiafrif yn gweld dychwelyd i'r ystafell ddosbarth yn heriol, ac nid oeddent yn gwneud digon o gynydd.

Yn gyffredinol, ni wnaeth disgyblion yn y chweched dosbarth weld gymaint o golled yn eu dysgu â disgyblion iau gan yr oeddent yn fwy tebygol o ymgysylltu â gweithgareddau dysgu o bell a roddwyd iddynt. Dangosodd llawer ymwybyddiaeth ddofn o gysyniadau pwnc, ac roeddent yn ddisgyblion huawdl a oedd yn gallu mynegi'u hunain gyda soffistigeiddrwydd. Mewn llawer o achosion, gwnaeth disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gynydd da yn erbyn eu targedau o ganlyniad i ddarpariaeth ystyriol a chydlynus.

Yn ystod cyfnodau clo, nid oedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu gystal ag y byddent wedi'i wneud, pe baent wedi bod yn yr ysgol. Roedd disgyblion o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is yn gwneud cynnydd sylweddol llai na disgyblion eraill. Mae'r canfyddiad hwn yn gyson ag [ymchwil](#) yn Lloegr a ganfu fod disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn dioddef colledion dysgu mwy na'u cyfoedion mwy cefnog o ganlyniad i'r pandemig.

Oherwydd y pandemig, roedd disgyblion Blwyddyn 7 yn dechrau mewn addysg uwchradd gyda llawer llai o brofiad pontio. O ganlyniad i ymdrechion sylweddol gan staff ysgol yn ad-drefnu'r profiadau hyn ar-lein, addasodd llawer o ddisgyblion yn dda a pharhau i wneud cynnydd addas yn eu medrau. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd pontio cwricwlaidd wedi sicrhau bod disgyblion yn adeiladu ar y medrau a ddatblygwyd yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ddigon da. O ganlyniad, roedd disgyblion yn ailadrodd gwaith a wnaethant yn eu hysgolion cynradd. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a TGCh.

Roedd disgyblion ym Mlwyddyn 11, a'r rheiny yn y chweched dosbarth, yn teimlo ansicrwydd sylweddol wrth baratoi ar gyfer eu harholiadau. Mewn llawer o achosion, golygai cymorth defnyddiol gan athrawon fod y disgyblion hyn wedi datblygu eu gallu i baratoi ar gyfer arholiadau a sefyll arholiadau yn addas. Mewn rhai ysgolion, roedd

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

disgyblion yn y grwpiau blwyddyn hyn yn cwblhau profion yn fynych iawn, ac fe wnaeth hynny achosi gorbryder ac nid oedd bob amser yn arwain at gynnydd mewn gwybodaeth bynciol neu fedrau.

Yn ystod cyfnodau clo pan roedd disgyblion yn dysgu o bell, nid oeddent yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau llefared. Ers iddynt ddychwelyd i ddysgu yn yr ystafell ddosbarth, roedd mwyafrif yn mwyafrif cyfleoedd i ymgysylltu â thrafodaethau dosbarth cyfan neu grŵp. Yn ystod y trafodaethau hyn, roedd mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas, ac fe wnaeth ychydig ddatblygu eu gallu i fynegi'u hunain yn huawdl. Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gallu i gyfathrebu drwy siarad a gwrando. Roedd y disgyblion hyn wedi colli cymhelliant a hyder wrth ymateb i gwestiynau athrawon neu gyfranogi mewn trafodaethau â disgyblion eraill. Cyfrannodd yr angen i wisgo mygydau wyneb at y dirywiad hwn gan eu bod yn mygu sain ac yn gwneud mynegiant wyneb yn anodd ei ddarllen. Gwnaeth hyn hi'n arbennig o anodd datblygu medrau cyfathrebu yn Gymraeg neu ieithoedd tramor modern. Cynlluniodd lleiafrif o ysgolion yn ofalus i ddatblygu medrau siarad disgyblion.

Fe wnaeth mwyafrif o ddisgyblion gynnal eu medrau darllen yn addas yn ystod cyfnodau clo, er na wnaethant eu datblygu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid oedd gallu disgyblion i ddarllen ar goedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Yn yr achosion hyn, mae disgyblion yn darllen gyda rhuglder gwael, gan oedi wrth ddod ar draws geiriau anghyfarwydd. Roeddent yn tueddu darllen heb fynegiant. Yn gyffredinol, nid oedd disgyblion yn darllen ar goedd yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm, ac nid oeddent yn derbyn cymorth digonol i ddatblygu'r medr hwn. Ym mwyafrif yr ysgolion, roedd disgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn dda. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn llithrddarllen a sganio testunau'n dda i gael gwybodaeth berthnasol. Roedd llawer yn gallu dod i gasgliadau sylfaenol o destunau. Roedd mwyafrif y disgyblion yn gallu darllen i gael ystyr yn briodol a defnyddio gwybodaeth i wneud rhagfynegiadau neu gasgliadau addas. Nid oedd mwyafrif y disgyblion yn datblygu'r medrau darllen hyn yn ddigon da.

Fe wnaeth llawer o ddisgyblion wella'u medrau bysellfwrdd yn ystod cyfnodau clo. Fodd bynnag, cafodd y cyfnodau hyn effaith niweidiol nodedig ar lawysgrifen disgyblion a'u gallu i gyflwyno darnau cydlynus o waith ysgrifenedig. Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod resymol o bynciau. Yn rhy aml, fodd bynnag, roedd disgyblion yn cwblhau tasgau ysgrifenedig nad oeddent yn ddigon heriol, fel copio neu lenwi bylchau. Roedd mwyafrif o ddisgyblion yn ysgrifennu gyda chywirdeb priodol. Roeddent yn sillafu geiriau a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin yn gywir, ac yn cymhwyso rheolau gramadegol yn briodol. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud gormod o gamgymeriadau sillafu, atalnodi a chamgymeriadau gramadeg sylfaenol.

Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd disgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn briodol ar draws y cwricwlwm. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gallu gwneud mesuriadau sylfaenol yn gymwys, ac roedd mwyafrif yn gallu troi rhwng unedau gwahanol. Fodd bynnag, o ganlyniad i gyfnodau clo, bu cyfleoedd i wneud mesuriadau mwy soffistigedig, fel arbrofion gwyddonol, yn gyfyngedig. Roedd mwyafrif o ddisgyblion yn deall sut i gyflwyno data ar ffurf graffiau yn dda. Wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol, roeddent yn datblygu'r gallu i ddewis y math priodol o siart neu graff i gyflwyno'u data. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, roedd mwyafrif yn gallu llunio a phlotio graffiau gwasgariad yn addas. Mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag, nid oedd disgyblion yn dehongli'r graffiau hyn. Datblygodd y rhan fwyaf o ddisgyblion eu hymdeimlad o gyfrannedd yn dda, a gallent amcangyfrif meintiau yn briodol. Yn gyffredinol, roeddent yn gallu cymhwyso fformiwlâu yn addas, a datblygodd mwyafrif y gallu i drin a thrafod y rhain wrth iddynt symud ymlaen drwy Gyfnod Allweddol 4. Yn rhy aml, nid oedd disgyblion yn ystyried y rhesymeg y tu ôl i'r dulliau yr oeddent yn eu defnyddio i ddatrys problemau mathemategol, yn bennaf am nad oeddent yn cael y cyfleoedd i wneud hynny.

Yn ystod cyfnodau clo, roedd yn anodd iawn i ddisgyblion wneud digon o gynnydd mewn pynciau yr oedd angen dysgu 'ymarferol' ynddyn nhw, fel cerddoriaeth, dylunio a thechnoleg, chwaraeon, celf a'r agweddau ymarferol ar wyddoniaeth. Nid oedd llawer o ddisgyblion yn cyfranogi mewn digon o weithgarwch corfforol yn ystod cyfnodau clo. O ganlyniad i gynllunio gofalus mewn llawer o ysgolion, fe wnaeth disgyblion



ailgyfarwyddo â'r agweddau hyn ar eu dysgu, a gwnaethant gynydd graddol yn y medrau penodol i bwnc hyn. Pan roddwyd y cyfle iddynt, dangosodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau creadigol cryf. Yn ystod tymor yr haf, dychwelodd lleiafrif o ysgolion i'r ystod o weithgareddau allgyrsiol cyn y pandemig.

Cafodd y pandemig effaith niweidiol ar fedrau Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion dwyieithog ac ysgolion Cymraeg. Mewn mwyafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, cynhaliodd disgyblion eu meistrolaeth ar yr iaith yn addas. Roedd hyn yn ganlyniad i lawer iawn o waith caled a chynllunio gofalus gan staff yn ystod y pandemig. Roedd gan y rhan fwyaf o ddisgyblion eirfa eang a gallent drafod ystod o destunau gyda rhuglder priodol. Roedd llawer yn gallu cynhyrchu darnau o waith wedi'u hysgrifennu'n dda sy'n mynegi'u syniadau yn glir. Fodd bynnag, ym mron yr holl ysgolion hyn, fe wnaeth tueddiad disgyblion i ddefnyddio'r iaith â'u cyfoedion ddirywio'n nodedig yn ystod cyfnodau clo. Sicrhodd mwyafrif yr ysgolion hyn fod ailadeiladu gallu disgyblion i siarad Cymraeg yn flaenoriaeth. Roedd hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, nid oedd hyn yn wir ac roedd rhai disgyblion yn amharod i ddefnyddio'r iaith ym mhob amgylchiad, gan gynnwys gyda'u hathrawon.

Mewn ychydig o achosion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu gallu i gyfathrebu yn Gymraeg. Yn y gwersi hyn, roedd disgyblion yn ymgysylltu'n frwdfrydig â'r tasgau dysgu a roddwyd iddynt, ac roeddent yn datblygu eu gallu i siarad, deall a dysgu Cymraeg yn dda. Mewn gormod o achosion, dim ond cynnydd bach yr oedd disgyblion yn ei wneud, a pharhaont i wneud camgymeriadau sylfaenol iawn mewn ynganu a chystrawen. Nid oeddent yn defnyddio'u Cymraeg yn ddigon aml ac eithrio yn eu gwersi Cymraeg, ac yn gyffredinol, nid oedd yr hyder ganddynt i siarad Cymraeg. Ym mhob achos bron, nid oedd disgyblion a dderbyniodd eu haddysg yn Gymraeg yn yr ysgol gynradd, ond a fynychodd ysgol cyfrwng Saesneg wedyn, yn gwneud digon o gynydd yn yr iaith.

Lles ac agweddau at ddysg

Yn ystod cyfnodau clo, wynebodd llawer o ddisgyblion gyfnodau o unigrwydd, syrffed a gorbryder. Parhaodd rhai disgyblion yn wydn a defnyddiont y cyfleoedd a gynigiwyd iddynt gan yr ysgol i ddysgu ar-lein neu drwy'r pecynnau gwaith a roddwyd iddynt. Fodd bynnag, arweiniodd y diffyg strwythur a ddarperir fel arfer gan yr angen i fynychu'r ysgol yn rheolaidd at batrymau cysgu aflonydd, anawsterau yn cydymffurfio â threfniadau arferol ac ymddygiad gwael ar gyfer rhai disgyblion. Nid oedd mwyafrif o ddisgyblion yn cyfranogi'n ddigon da yn y cyfleoedd dysgu a gynigiwyd iddynt yn ystod y cyfnodau hyn. Canfu [Ymchwil gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion](#) dystiolaeth o ddirywiad yn iechyd meddwl a lles disgyblion mewn ysgolion yng Nghymru rhwng 2019 a 2021, yn seiliedig ar gwestiynau arolwg wedi'u cynllunio i fesur lles meddwl, symptomau iselder,

ac unigrwydd. Canfu [King's College Llundain](#) fod iechyd meddwl rhai grwpiau pobl ifanc wedi'u heffeithio mwy nag eraill, yn enwedig y rheiny ag [anghenion addysgol arbennig](#), a merched.

Roedd llawer o ddisgyblion yn awchus ynglŷn â'r cyfleoedd a gynigiwyd iddynt o ganlyniad i ddychwelyd i addysgu 'arferol', ac fe wnaethant ymgartrefu'n ôl i drefniadau arferol yr ysgol yn dda. Parhaodd ychydig o ddisgyblion yn orbryderus eithriadol ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol, neu roeddent wedi mynd i'r arfer o beidio â mynychu. At ei gilydd, roedd presenoldeb yn parhau ymhell i lawr lle'r ydoedd cyn y pandemig. Cynyddodd cyfraddau absenoldeb ar gyfer disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn sylweddol, ac achosodd hynny bryder arbennig gan fod cyfraddau absenoldeb y grŵp hwn o ddisgyblion eisoes yn uchel cyn y pandemig. Gellir gweld canfyddiadau manylach ynglŷn ag effaith y pandemig ar gyfraddau presenoldeb yng Nghymru yn [y papur hwn](#) gan y PAEM blaenorol, Meilyr Rowlands.

Mae [ymchwil](#) o'r Sefydliad Polisi Addysg yn dangos cyswllt clir rhwng presenoldeb rheolaidd a chynnydd. Fe wnaethant ddarganfod bod disgyblion oedran uwchradd â lefel absenoldeb isel wedi dioddef colled ddysgu o ryw fis mewn darllen erbyn diwedd tymor yr hydref. Mae hyn yn cymharu â rhyw 2.7 a 5.1 mis ar gyfer disgyblion â lefelau absenoldeb canolog ac uchel, yn y drefn honno. Mae hyn yn cefnogi'u damcaniaeth, po fwyaf o amser yr oedd disgyblion yn ei dreulio mewn ysgolion pan ailagorodd ysgolion i'r holl ddisgyblion, y lleiaf oedd graddfa'r golled ddysgu. Roedd disgyblion mewn grwpiau blwyddyn lle maent yn cael arholiadau allanol fel arfer yn teimlo ansicrwydd sylweddol ynglŷn â sut byddent yn cael eu hasesu. Arweiniodd hyn at lefelau gorbryder uwch ar gyfer llawer o'r disgyblion hyn.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd ymddygiad yn rhagorol, a dangosodd disgyblion lefelau uchel o ofal a pharch at ei gilydd yn gyson. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o ddisgyblion yn ei gweld yn heriol dychwelyd i'r ystafell ddosbarth, ac yn ei chael yn anodd rheoli'u hymddygiad. Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd achosion o darfu lefel isel yn uwch na chyn y pandemig.

Dywedodd y rhan fwyaf o ddisgyblion nad oeddent wedi dioddef bwllo yn bersonol. Fodd bynnag, adroddodd ychydig iawn o ddisgyblion eu bod yn cael eu bwllo. Mewn llawer o achosion, adroddodd disgyblion fod staff wedi delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio, er nad ymdriniwyd yn foddhaol â'r broblem hon mewn ychydig o achosion. Er gwaethaf ymdrechion gorau llawer o staff, roedd achosion o fwlio neu aflonyddu o ganlyniad i rywioldeb, hil neu rywedd disgyblion yn yr holl ysgolion. Mae rhai disgyblion ym mhob ysgol yn cael profiad o ryw faint o aflonyddwch rhywiol. Teimlai mwyafrif fod staff wedi ymdrin yn briodol â'r mater hwn, ond teimlai rhai eraill fod staff yn ei anwybyddu, ac nid ydynt yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddigon da.

Roedd llawer o ddisgyblion yn mwynhau'u gwersi ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Dangoswyd gwydnwch gan y disgyblion hyn, ac roeddent yn ysgwyddo cyfrifoldeb cynyddol dros eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, roedd diffyg hyder gan leiafrif o ddisgyblion, ac roedd angen anogaeth arnynt i ddyfalbarhau ac edrych am atebion pan roeddent yn wynebu anawsterau. Mewn ychydig o ysgolion, roedd llawer o ddisgyblion yn gweithio'n ddyfal ac roedd ganddynt ddyheadau uchel ar gyfer y dyfodol. Yn yr ysgolion hyn, roeddent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol ysgogol a'u helpodd i ehangu eu gorwelion. Gweler [astudiaeth achos Ysgol Uwchradd Whitmore](#) i gael syniadau ar sut i ddatblygu diwylliant effeithiol ar gyfer dysgu. Mewn ychydig o achosion, roedd disgyblion yn dangos diffyg diddordeb yn eu gwaith, ac roeddent yn ymddwyn yn aflonyddgar, ac effeithiodd hynny ar eu dysgu nhw a dysgu disgyblion eraill.

Mewn llawer o ysgolion, roedd disgyblion yn elwa o ystod eang o gyfleoedd i ddylanwadu ar fywyd ysgol a datblygu eu medrau arwain. Mae astudiaethau achos [Ysgol Bro Myrddin](#) ac [Ysgol Stanwell](#) yn darparu enghreifftiau defnyddiol. Yn ogystal â'r cyngor ysgol, roedd gan lawer o ysgolion grwpiau disgyblion sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion sy'n peri pryder iddynt, fel yr amgylchedd, hyrwyddo'r Gymraeg neu faterion LHDTC+. Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y chweched dosbarth yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'u medrau arwain a rhyngbersonol trwy weithgareddau fel arwain grwpiau disgyblion amrywiol, arwain tai, a mentora a chefnogi disgyblion bregus.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i wneud dewisiadau bwyta ac yfed iach yn briodol, er bod y rhan fwyaf o ysgolion wedi adrodd am fwy o faterion yn ymwneud â defnyddio e-sigarêts ar safle'r ysgol. Mewn lleiafrif o achosion, roedd staff yn cynnig lefelau uchel o anogaeth i ddisgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, ac roedd yr ysgol yn cynnig llawer o gyfleoedd a oedd yn darparu ar gyfer ystod eang o ddiddordebau.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn ystod cyfnodau clo, bu'n rhaid i athrawon wneud addasiadau sylweddol i'r ffordd yr oedden nhw'n addysgu. Un deiliant cadarnhaol o hyn oedd bod y rhan fwyaf o athrawon wedi datblygu'u gallu i ddefnyddio ystod eang o gymwysiadau digidol i wella'u haddysgu. Ers i ddisgyblion ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth, roedd athrawon yn wynebu mesurau diogelwch a hylendid llym a oedd yn rhwystro'u haddysgu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- gwaharddiadau ar symud o amgylch yr ystafell ddosbarth
- yr angen i ddisgyblion a staff wisgo mygydau wyneb
- gwaharddiadau ar rai gweithgareddau, fel gwaith grŵp neu waith ymarferol
- yr angen i osod gwaith disgyblion 'dan gwarantyn' cyn ei farcio

Roedd y mesurau hyn yn creu rhwystr sylweddol rhag addysgu effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Ers diddymu'r mesurau hyn, dychwelodd llawer o athrawon i'w methodolegau blaenorol fel trefnu gwaith grŵp, symud o amgylch yr ystafell ddosbarth i wirio dealltwriaeth disgyblion a chynnig cymorth unigol. Fodd bynnag, roedd ychydig yn parhau i deimlo'n orbryderus ac yn tueddu aros ym mhen blaen y dosbarth a chyflwyno'u gwersi oddi yno. Yn yr achosion hyn, roedd diffyg rhyngweithio buddiol rhwng athrawon a disgyblion.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, roedd yr addysgu'n effeithiol eithriadol o ran sicrhau gwelliannau yn nysgu'r disgyblion. Yn yr achosion hyn, roedd bron yr holl athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn defnyddio gwybodaeth o asesiadau yn fedrus i addasu eu haddysgu. Roedd y rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'u gwersi'n fanwl iawn ac yn darparu adnoddau dysgu ysgogol o ansawdd uchel i ddisgyblion. Roeddent yn uchelgeisiol dros eu disgyblion ac yn cynnig lefelau uchel iawn o her iddynt. Eglurwyd syniadau cymhleth ganddynt drwy eu rhannu'n gamau symlach, ac roeddent yn modelu dulliau datrys problemau soffistigedig fel bod disgyblion yn gallu eu hefelychu a'u cymhwyso. Roeddent yn cefnogi dysgu disgyblion trwy gymorth unigol targedig, ac yn tynnu'r lefel cymorth yn ôl yn fedrus er mwyn datblygu'u hannibyniaeth. Gweler [astudiaeth achos Ysgol Uwchradd Whitmore](#) i gael gwybodaeth am sut y datblygwyd dull ysgol gyfan ganddynt i sicrhau safonau uchel mewn addysgu a dysgu.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, roedd athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac yn rheoli'u hystafelloedd dosbarth yn effeithiol. Yn gyffredinol, roeddent yn fodolau iaith da ac roedd ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth bynciol gryf. Roedd disgwyliadau priodol gan fwyaf o athrawon o ran yr hyn y gallai disgyblion ei gyflawni ac roeddent yn cynllunio'u gwersi yn effeithiol, gan drefnu gwybodaeth a medrau yn gamau dilynol sy'n adeiladu'n rhesymegol ar ei gilydd. Roeddent yn rhannu nodau dysgu yn glir gyda disgyblion ac yn meithrin amgylchedd dysgu lle nad oedd disgyblion yn ofn gwneud camgymeriadau. F wnaethant addasu eu haddysgu yn fedrus i gydweddu â dealltwriaeth disgyblion.

Roedd diffygion cyffredin yn yr addysgu mewn lleiafrif o wersi. Yn fwyaf aml, roeddent yn cynnwys:

- disgwyliadau isel o ran beth allai disgyblion ei gyflawni
- cynllunio gwael, lle rhoddwyd cyfres o dasgau di-her i ddisgyblion a oedd yn eu cadw'n brysyr ond nad oeddent yn sicrhau gwelliant
- diffyg cyfathrebu ynghylch beth yr oedd disgwyl i ddisgyblion ei ddysgu

- diffyg addasu i gyfateb i lefel gallu neu ddealltwriaeth disgyblion
- rheolaeth wael ar ymddygiad disgyblion
- mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, nid oedd anogaeth ddigonol i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg yn aml, ac nid oedd athrawon bob amser yn defnyddio'r iaith yn eu haddysgu neu yn eu rhyngweithiadau â disgyblion

Defnyddiodd mwyafrif o athrawon ystod eang o ddulliau asesu yn briodol. Yn yr achosion mwyafrif effeithiol, nid oeddent yn marcio'r holl ddarnau gwaith yn drwyadl. Yn lle hynny, roeddent yn monitro dealltwriaeth disgyblion yn gyson yn ystod gwersi ac yn cynnig adborth a chynghor llafar iddynt ar sut i wella'u gwaith yn y fan a'r lle. Roedd yr athrawon hyn yn targedu darnau gwaith estynedig a oedd yn galluogi disgyblion i dynnu nifer o agweddau at ei gilydd o'u dysgu diweddar. Roedd y darnau gwaith hyn yn cael eu marcio'n ofalus yn erbyn meini prawf cyffredin, a chynigiai athrawon adborth ysgrifenedig defnyddiol i ddisgyblion ar bethau roedden nhw wedi'i wneud yn dda ac agweddau yr oedd angen eu gwella. Roedd athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn ymateb i'r rhain ac yn gwneud gwelliannau.

Roedd mwyafrif o athrawon yn defnyddio ystod eang o dechnegau holi i ddatblygu meddwl disgyblion a'u cael nhw i ymhelaethu ar eu hatebion yn dda. Roeddent yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn cael eu cynnwys mewn ateb cwestiynau. Roedd yr athrawon mwyafrif effeithiol yn cael disgyblion i wneud sylwadau ar ymatebion disgyblion eraill, ac roedd hyn yn sicrhau bod rhaid iddynt wrando'n ofalus a datblygu'u gallu i feddwl yn feirniadol. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o athrawon naill ai ddim yn gofyn cwestiynau i'w disgyblion, neu roeddent yn dibynnu'n gyfan gwbl ar gwestiynau caeedig i wirio'u gallu i alw i gof.

Er bod llawer o arweinwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'r posibiladau ar gyfer arloesi a gynigiwyd gan y Cwricwlwm i Gymru, fe wnaeth llawer o ysgolion oedi eu cynlluniau ar gyfer gwneud newid sylweddol i'w cwricwlwm yn y tymor byr oherwydd y pandemig. Lle'r oedd arweinyddiaeth yn gryf, dychwelodd ysgolion uwchradd i'w cynllunio yn ystod 2021-2022 ac roeddent yn gwneud cynnydd da i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, gyda ffocws penderfynol ar wella addysgu a dysgu proffesiynol o ansawdd uchel.

Un nodwedd nodedig o nifer o arolygiadau uwchradd oedd y ffordd yr oedd ysgolion yn dylunio'u cwricwlwm gyda ffocws cryf ar eu bro, fel y dangosir yn yr [astudiaeth achos hon o Ysgol Uwchradd Cathays](#). Yn yr achosion gorau, roedd ysgolion yn cydnabod yr angen i feithrin cysylltiadau cwricwlwm cryf â'u hysgolion cynradd partner er mwyn cefnogi dylunio'r cwricwlwm.

Roedd cynnydd tuag at y Cwricwlwm i Gymru yn arafach neu'n anghyson ar draws y cwricwlwm mewn rhai ysgolion. Mae hyn oherwydd eu bod yn canolbwyntio gormod ar weledigaeth a dyluniad y cwricwlwm ar draul gwella ansawdd addysgu a darpariaeth er mwyn sicrhau datblygu medrau disgyblion yn gynyddol. [Bwriedir i'r gyfres hon o sbardunau hunanfyfrio gynorthwyo ysgolion uwchradd wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru](#).

Roedd ysgolion yn gyffredinol yn pryderu ynghylch sut byddent yn asesu ac yn olrhain cynnydd o dan y trefniadau cwricwlaidd newydd, a goblygiadau cymwysterau newydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

Mewn llawer o ysgolion, bu staff yn treialu ymagweddau newydd at eu cynllunio. Lle'r oedd y rhain yn fwyaf llwyddiannus

- roedd adrannau'n meddwl yn ofalus ynglŷn â'r wybodaeth bynciol, y medrau a'r profiadau y mae angen i ddisgyblion eu datblygu
- lle bo'n briodol, roedd staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i ble fyddai dysgu'n elwa o synergeddau naturiol rhwng pynciau
- roedd dilyniant ym medrau a gwybodaeth disgyblion wedi'i gynllunio'n ofalus ymlaen llaw (gweler [astudiaeth achos Ysgol Penglais](#))
- roedd staff yn cynllunio unrhyw waith ar y cyd yn ofalus, ac yn cael amser i feddwl am eu dulliau addysgu a dysgu



- roedd adrannau wedi gweithio ar ddatblygu eu dulliau addysgu er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddion dysgu disgyblion

Lle'r oedd yr ymagweddau hyn yn llai llwyddiannus, roedd adrannau:

- wedi cynllunio dulliau thematig neu drawsgwricwlaidd heb ystyried yn ofalus sut y gallai hyn fod yn fuddiol
- wedi meddwl mwy am beth yr oeddent am i ddisgyblion ei wneud yn hytrach na beth maen nhw eisiau iddynt ddysgu
- wedi cynhyrchu taflenni ticio ar gyfer disgyblion i nodi pa agwedd benodol ar bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru yr oeddent yn ei datblygu
- heb ystyried yn ddigon gofalus sut byddent yn mynd i'r afael â'u haddysgu

At ei gilydd, nid oedd ysgolion uwchradd yn cynllunio'n ddigon da mewn partneriaeth ag ysgolion cynradd i sicrhau dilyniant cyson mewn gwybodaeth a medrau ar draws y cwricwlwm. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer TGCh a Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Yn gyffredinol, roedd ysgolion yn cynnig cyfleoedd dysgu priodol i ddisgyblion yn eu rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, megis dechrau oedd y cynllunio ar gyfer perthnasoedd ac addysg rhyw, yn enwedig mewn perthynas â meysydd fel rhywioldeb, iechyd rhywiol ac agweddau at berthnasoedd. Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd adrannau'r dyniaethau yn cynllunio'n briodol i ehangu eu harchwiliad o hanes grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. I gael mwy o fanylion, gweler ein hadroddiad thematig ar [Addysgu hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig](#) a'n [hadnodd i ddisgyblion i archwilio'r mater hwn](#). Mae crynodeb o'r adroddiad ar gael [yma](#).

Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cwricwlwm rhesymol o eang a chytbwys i'w disgyblion. Fodd bynnag, roedd nifer gynyddol o ysgolion yn caniatáu i ddisgyblion wneud dewisiadau pwnc ar gyfer cymwysterau ym Mlwyddyn 8. Roedd y strategaeth hon yn caniatáu mwy o amser i ddisgyblion astudio a pharatoi ar gyfer arholiadau. Fodd bynnag, roedd yn cyfyngu ar ehangerder profiadau dysgu disgyblion. Yn ogystal, nid oedd llawer o ddisgyblion yn barod i wneud y dewisiadau hyn yn ystod Blwyddyn 8, gan mai dim ond ers pedwar tymor yr oeddent wedi bod mewn ysgolion uwchradd. Mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd cwricwlwm yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

Eleni, edrychom hefyd ar y cyfleoedd cwricwlwm cyffredinol ar draws ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith ar gyfer dysgwyr 16 i 19 oed ledled Cymru. Fe wnaethant ddarganfod bod gormod o amrywio yn y cyfleoedd i bobl ifanc, gan ddibynnu ar ble maen nhw'n byw. Gallwch ddarllen mwy am ein canfyddiadau [yma](#).

Medrau

Roedd llawer o ysgolion yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, roedd cynllunio i ddatblygu medrau TGCh disgyblion ar gam cynnar yn y rhan fwyaf o ysgolion.

Talwyd sylw da gan fwyaf o ysgolion cyfrwng Cymraeg i ddatblygu meistrolaeth disgyblion ar y Gymraeg a dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru, fel y dangoswyd yn [astudiaeth achos Ysgol Bro Myrddin](#). Mewn lleiafrif o achosion, nid oedd yr agwedd hon yn cael digon o flaenoriaeth.

Mewn ysgolion dwyieithog ac ysgolion cyfrwng Saesneg, nid oedd digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio Cymraeg y tu allan i wersi Cymraeg. Yn aml, nid oedd ysgolion dwyieithog yn cynnig ystod ddigon eang o gyrsiau i ddisgyblion astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd staff ysgolion yn dra ymwybodol o anghenion disgyblion wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol yn dilyn cyfnodau clo. Gwnaed lles disgyblion yn flaenoriaeth ym mron yr holl ysgolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd staff yn cynnig cymorth cryf i ddisgyblion ag anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol penodol, a gwnaethant ddefnydd da o asiantaethau allanol pan roedd angen. Yn gynyddol, fe wnaeth ysgolion ehangu ac addasu eu darpariaeth eu hunain i gefnogi lles disgyblion oherwydd y galw ac anhawster cynyddol i gael gwasanaethau allanol. O ganlyniad i'w hymdrechion yn y maes hwn, teimlai llawer o ddisgyblion bod gofal da iddynt gan eu hysgol, ac fe wnaethant addasu'n dda i ddychwelyd i addysg 'arferol' yn yr ysgol.

Ym mhob ysgol, roedd staff yn ymdrechu i ddatblygu ethos cynhwysol. Roedd y rhan fwyaf yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion i hyrwyddo'u datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Roeddent yn annog disgyblion i ddathlu gwahaniaeth ac yn hyrwyddo cydraddoldeb yn gryf. Mewn llawer o achosion, fe wnaethant ddarparu cyngor defnyddiol iddynt hefyd ar lwybrau yn y dyfodol, fel y dangosir yn yr [astudiaeth achos hon o Ysgol Stanwell](#).

Roedd gweithdrefnau ystyriol iawn gan y rhan fwyaf o ysgolion ar gyfer delio ag unrhyw ddigwyddiadau o fwlio ac aflonyddu, ac roedd polisi ymddygiad effeithiol gan lawer ohonynt a oedd yn cael ei gymhwyso'n gyson gan y rhan fwyaf o staff. I ymateb i gynnydd mewn tarfu lefel isel ac anawsterau yr oedd lleiafrif o ddisgyblion yn eu cael wrth ailaddasu i arferion ysgol yn dilyn y pandemig, fe wnaeth llawer o ysgolion adolygu eu polisiau ymddygiad a rhoesant ffocws o'r newydd ar hyn. Mewn ychydig o achosion, roedd anghysondeb yn y ffordd yr oedd staff yn cymhwyso sancsiynau a gwobrau. Yn aml, arweiniodd hyn at ddryswch ymhlith disgyblion ac ymdeimlad o annhegwch. Roedd llawer o ysgolion yn datblygu eu darpariaeth ar gyfer atal a mynd i'r afael â digwyddiadau o aflonyddu rhywiol yn briodol. Gweler ein hadroddiad ar [Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd](#) i gael mwy o wybodaeth. Hefyd, mae gennym adnoddau i ysgolion eu defnyddio i archwilio'r mater hwn, yn ogystal â [fersiwn o'r adroddiad i ddisgyblion](#) a chrynodeb o'r adroddiad [yma](#).

Roedd bron yr holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel, ac roedd trefniadau addas ar gyfer hyfforddiant staff mewn materion yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant ym mron yr holl ysgolion. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid oedd systemau ysgolion ar gyfer cofnodi pryderon disgyblion yn ddigon cadarn na diogel. Mewn ychydig o achosion, nid oedd ysgolion yn sicrhau bod y safle'n ddigon diogel neu eu bod yn cydymffurfio'n ddigonol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Roedd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder mewn llawer o ysgolion. Yn gyffredinol, roedd timau cymorth dysgu'n adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, ac roeddent yn darparu cymorth ystyriol ar gyfer eu dysgu. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion yn gwneud cynnydd da wrth baratoi ar gyfer gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

(Cymru). Yn gyffredinol, roedd 'Proffiliau un dudalen' a 'Chynlluniau Addysg Unigol' yn darparu gwybodaeth fanwl i staff am sut i ddiwallu anghenion disgyblion penodol ac yn cynnwys targedau clir, mesuradwy. Lle'r oedd gan ysgolion ganolfan adnoddau arbenigol, roeddent yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar ac yn sicrhau bod disgyblion yn y canolfannau yn cael eu hintegreiddio i ddosbarthiadau prif ffrwd yn briodol.

Roedd systemau effeithiol gan y rhan fwyaf o ysgolion i olrhain cynnydd a lles disgyblion. Defnyddiwyd gwybodaeth o'r system hon gan staff yn dda i ddarparu ymyriadau ystyriol i gefnogi lles disgyblion a'u cynnydd academiaidd.

Ers Medi 2021, bu'r rhan fwyaf o ysgolion yn cadw golwg fanwl ar bresenoldeb disgyblion, ac yn hyrwyddo'n gynyddol bwysigrwydd presenoldeb cyson, er iddynt weld mynd i'r afael ag absenoldeb parhaus yn arbennig o heriol.

Arweinyddiaeth

Yn ystod cyfnodau clo, roedd arweinwyr ysgol yn wynebu problemau newydd, a oedd yn esblygu'n gyflym. Fe wnaethant adweithio gyda chryfder a gwydnwch i gadw eu cymuned ysgol yn ddiogel ac i liniaru effaith mesurau i reoli lledaeniad COVID-19. Roedd gofynion ychwanegol sylweddol gan arweinwyr ar eu llwyth gwaith. Er gwaetha'r heriau aruthrol a wynebwyd ganddynt, bu llawer o arweinwyr yn cadw llygad ar ddatblygiadau'r dyfodol, ac fe wnaethant barhau i wneud penderfyniadau strategol pan oedd y rhain yn bosibl.

Fe wnaeth llawer o ysgolion newid amseriadau a strwythur y diwrnod ysgol yn ystod cyfnodau clo. Cadwodd llawer o ysgolion rai o'r agweddau hyn, yn enwedig 'amseroedd egwyl a chinio rhanedig' lle'r oedd grwpiau blwyddyn gwahanol yn cael eu hamseroedd egwyl ar adegau gwahanol. Fodd bynnag, roedd y trefniadau hyn yn rhoi gofynion ychwanegol ar staff i oruchwylio disgyblion, ac effeithiodd hynny'n negyddol ar glybiau amser cinio. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd amseroedd cinio'n rhy fyr i ddisgyblion gymdeithasu, ymlacio neu ganlyn diddordebau eraill, ond dywedodd rhai disgyblion, yn enwedig y rhai iau, fod y trefniant hwn yn fuddiol gan nad oedden nhw'n teimlo eu bod yn cael eu bygwth gan ddisgyblion hŷn.

Datblygodd y rhan fwyaf o uwch arweinwyr eu cyfathrebu â rhieni a gwarcheidwaid yn sylweddol yn ystod cyfnodau clo. Mewn llawer o achosion, roedd hyn ar ffurf flogiau wythnosol neu negeseuon e-bost i roi diweddariadau ar bolisiâu, ac arolygon i ofyn am farnau rhieni ar ddarpariaeth yr ysgol. Yn gyffredinol, roedd rhieni a gwarcheidwaid yn gwerthfawrogi'r cyswllt rheolaidd hwn yn fawr iawn, a daeth perthnasoedd rhwng y cartref ac ysgolion yn agosach.

Yn ystod cyfnodau clo, ac ar ôl dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb, rhoddodd arweinwyr flaenoriaeth i les disgyblion a staff. Cafodd y prosesau sicrhau ansawdd arferol eu hatal dros dro. Ers dychwelyd i fywyd ysgol a phrosesau mwy arferol, rhoddodd arweinwyr ystyriaeth ofalus i'r cydbwysedd rhwng dwyn staff i gyfrif a diogelu eu lles. Mewn mwyafrif o ysgolion, dychwelodd arweinwyr i weithredu eu set lawn o weithgareddau i lywio hunanwerthuso. Fodd bynnag, oherwydd y bwlch yn y gweithgareddau hyn, nid oedd gan arweinwyr ddealltwriaeth gynhwysfawr bob amser o'r cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu hysgolion. Diffyg cyffredin ymhlith arweinwyr ar bob lefel oedd eu diffyg dealltwriaeth o sut i werthuso addysgu yn sgil ei effaith ar ddysgu. Mae'r [set hon o sbardunau hunanfyfyrrio](#) yn cynorthwyo ysgolion i wella'r agwedd hon ar eu gwaith.

Roedd ymdeimlad cryf o gydweithio yn y rhan fwyaf o ysgolion. Roedd rolau a chyfrifoldebau wedi'u dosbarthu'n feddylgar, roedd llinellau atebolrwydd yn glir ac roedd cyfathrebu da. Mewn ychydig o ysgolion, fodd bynnag, nid oedd y dosbarthiad cyfrifoldebau yn deg ac roedd gormod o gyfrifoldebau trwm yn cael eu rhoi i ychydig o uwch arweinwyr.

Mewn llawer o achosion, roedd uwch arweinwyr yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol fel y rhaglen trawsnewid anghenion dysgu ychwanegol a datblygu'u cwricwlwm yn dda. Roedd mwyafrif o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu meistrolaeth o'r iaith. Nid oedd hyn yn wir mewn lleiafrif o achosion, fodd bynnag.

Mewn llawer o ysgolion, roedd llywodraethwyr yn chwarae rhan weithgar a buddiol i gefnogi'r ysgol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd dealltwriaeth gynhwysfawr ganddynt o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella, ac roeddent yn cynnig her gadarn i arweinwyr a helpodd i arwain eu penderfyniadau. Mewn ychydig o achosion, nid oedd llywodraethwyr yn deall eu rôl i gynnig her i arweinwyr yn ddigon da.

Derbyniodd pob ysgol gynnydd sylweddol i'w cyllidebau yn sgil grantiau penodol. O ganlyniad, roedd y rhan fwyaf o ysgolion mewn sefyllfa ariannol gadarnhaol. Fodd bynnag, oherwydd yr amodau a'r graddfeydd amser a oedd yn gysylltiedig â gwario grantiau penodol, nid oedd arweinwyr bob amser yn gallu defnyddio'r cyllid ychwanegol hwn i sicrhau'r effaith fwyaf.

Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd dysgu proffesiynol wedi'i gynllunio'n dda ac yn cael effaith ar ansawdd addysgu a dysgu. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr yn cynllunio ystod o weithgareddau buddiol a oedd yn helpu staff i gael gwybod am ganfyddiadau o ymchwil berthnasol i lywio'u harfer, ac roedd athrawon newydd gymhwyso yn cael eu cefnogi'n effeithiol trwy raglen ymsefydlu gynhwysfawr. Mae'r astudiaethau achos o [Ysgol Uwchradd Cathays](#) ac [Ysgol Penglais](#) yn egluro sut mae arweinwyr wedi datblygu'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol yn eu hysgolion. Mewn ychydig o achosion, nid oedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon cryf ar wella addysgu.

Adroddiad sector: Ysgolion pob oed a gynhelir 2021-2022

Ysgolion



Ysgolion pob oed yng Nghymru Ionawr 2022

Yn Agor ym mis Medi 2022: **1**
Testun ymgynghori: **3**

Mae'r sector yn parhau i dyfu, gyda thrafodaethau mewn awdurdodau lleol ledled Cymru ynglŷn â sefydlu ysgolion pob oed.

Disgyblion



Holl ddisgyblion




Nifer y disgyblion oed cynradd




Nifer y disgyblion oed uwchradd (Addysg orfodol)




Nifer y disgyblion yn y chweched dosbarth



Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim



Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (A-C)



Canran y disgyblion sy'n gallu siarad Cymraeg

Gweithgarwch dilynol

Heb fod mewn categori gweithgarwch dilynol ym mis Medi 2021

MA	GS	AE
0	2	1

Nifer a dynnwyd 2021-2022:

MA	GS	AE
0	2	1

Nifer a aeth i mewn i categori gweithgarwch dilynol 2021-2022:

MA	GS	AE
1	0	0

Cyfanswm mewn categori gweithgarwch dilynol Awst 2022

MA	GS	AE
2	0	0

MA – Mesurau arbennig
GS – Gwelliant sylweddol
AE – Adolygu gan Estyn

Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: **3**
Nifer heb fod mewn categori gweithgarwch dilynol: **2**
Cyfrwng Cymraeg: **1**
Dwyieithog: **0**
Cyfrwng Saesneg: **2**
Ffydd: **1**

Oherwydd y pandemig COVID-19, dim ond rhwng diwedd mis Chwefror a diwedd mis Mai 2022 y cynhaliwyd arolygiadau craidd.

[Ystalyfera Bro Dur](#)
[Ysgol Gymunedol Tonyrefail](#)
[Ysgol Crist y Gair](#)

Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau: **3**
Cyfrwng Cymraeg: **1**
Dwyieithog: **0**
Cyfrwng Saesneg: **2**
Ffydd: **1**

Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: **1**

Ysgolion ag astudiaethau achos:
Ysgol Ystalyfera Bro Dur



Adroddiad sector: Ysgolion pob oed a gynhelir 2021-2022

Mae nifer yr ysgolion pob oed yng Nghymru yn cynyddu, a disgwylir y bydd mwy ohonynt yn agor yn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae ymchwil i ysgolion pob oed, gan gynnwys buddion y model hwn, yn gyfyngedig yn gyffredinol, yn bennaf o ganlyniad i niferoedd cymharol isel yr ysgolion pob oed yng Nghymru ac mewn gwledydd eraill. Mae buddion posibl o fodel pob oed, gan gynnwys gwella addysgeg a gofal, manteision ar gyfer datblygu dysgu, a heriau posibl ar gyfer arweinyddiaeth. At ei gilydd, gyda'r nifer fach o arolygiadau a gynhaliwyd hyd yma ac effaith y pandemig, mae'n rhy gynnar i ddweud p'un a yw'r model hwn wedi cyflawni o ran ei botensial.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Dysgu

Pan ddychwelwyd i'r ysgol o fis Medi 2021, adroddodd ysgolion nad oedd medrau disgyblion wedi datblygu yn ôl y disgwyl yn ystod y pandemig. Roedd hwn yn ddarlun tebyg i hwnnw a welwyd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Nododd asesiadau ysgolion o fedrau disgyblion ddirywiad yn eu medrau iaith a chyfathrebu. Effeithiwyd yn arbennig ar fedrau llefaredd disgyblion gan nad oedd disgyblion wedi ymgysylltu digon â gweithgareddau siarad tra'r oeddent gartref. Cynlluniodd ysgolion ymyriadau i geisio cryfhau medrau disgyblion.

Yn yr ysgolion a arolygwyd, roedd medrau llythrennedd disgyblion yn amrywiol. Yn yr achosion gorau, roedd disgyblion yn barod i gyfrannu'n llafar a chynnig ymatebion estynedig pan gawsant eu hysgog i wneud. Fe wnaethant ddangos fedrau ysgrifennu cryf, gan ysgrifennu'n effeithiol at ddibenion gwahanol ac ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol. Roedd llawer o'r disgyblion hyn yn cynhyrchu darnau ysgrifenedig estynedig gyda mynegiant clir. Mewn achosion eraill, roedd diffyg medrau llythrennedd sylfaenol gan ddisgyblion, roeddent yn gwneud camgymeriadau sillafu a gramadeg yn aml, ac nid oeddent yn gallu cyfleu eu barnau yn rhugl. Gellid priodoli'r diffygion hyn i wendidau yn yr addysgu yn aml. Yn gyffredinol, roedd medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol ac roedd eu medrau digidol wedi datblygu'n dda.

Lles

Roedd disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol yn dilyn y pandemig, ond roedd angen mwy o gymorth emosiynol ac iechyd meddwl arnyn nhw. Mewn dau arolygiad, roedd lles disgyblion yn gryf yn sgil ansawdd y cymorth a'r arweiniad a ddarparwyd ar draws yr



ysgol. Roedd llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch at eu cyfoedion ac oedolion. Fe wnaethant ddangos agwedd iach tuag at eu dysgu ac roeddent yn dal ati i ganolbwyntio wrth ddysgu. Mewn llawer o achosion, datblygodd disgyblion fedrau arwain cadarn a'u galluogodd i wneud cyfraniadau cadarnhaol at fywyd yr ysgol. Mewn ychydig o achosion, nid oedd disgyblion yn ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Roeddent yn amharod i gyfranogi mewn trafodaethau i gefnogi'u dysgu, a dim ond atebion byr iawn yr oeddent yn eu rhoi i gwestiynau athrawon. Nid oeddent yn datblygu eu gwydnwch a'u penderfyniad yn ddigonol, a hynny'n aml am nad oedd athrawon yn darparu cyfleoedd iddynt wneud hynny.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Trwy gydol y flwyddyn, parhaodd gwella addysgu yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y rhan fwyaf o ysgolion pob oed. Bu llawer o athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a gweithredu cwricwlwm sy'n ystyried dilyniant ar draws yr holl gyfnodau. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu eu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac wedi dechrau treialu dulliau ac adnoddau. Roedd ysgolion yn treialu profiadau a strategaethau addysgu newydd gyda disgyblion Blwyddyn 7 fel parhad o'r profiadau yr oedd disgyblion wedi'u derbyn yn is i lawr yn yr ysgol.

Gweithiodd athrawon ag arbenigedd mewn agweddau gwahanol ar y cwricwlwm gyda'i gilydd i sicrhau bod disgyblion ar draws yr holl gyfnodau yn cael profiadau gwerth chweil. Roedd hyn yn cynnwys arbenigwyr pwnc yn addysgu disgyblion oed cynradd mewn gweithdai technoleg, stiwdios drama a labordai gwyddoniaeth.

Diwygio'r cwricwlwm

Roedd cynllunio a pharodrwydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru yn amrywio ar draws ysgolion. Roedd llawer o gyfnodau cynradd wedi addasu eu cwricwlwm yn addas, ond nid oedd hyn bob amser wedi parhau i mewn i Flwyddyn 7. Mewn ychydig o achosion, roedd ysgolion yn treialu gweithgareddau ym Mlwyddyn 7 a oedd yn adeiladu'n fuddiol ar brofiadau mewn blynyddoedd is. Yn gyffredinol, roedd ysgolion pob oed yn darparu profiadau dysgu diddorol a chyffrous ar gyfer disgyblion oedran cynradd, ac roeddent yn dechrau datblygu'r addysgu i gyflwyno profiadau tebyg i ddisgyblion hŷn.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd gofal a chymorth bugeiliol ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn y rhan fwyaf o ysgolion pob oed, a bu'n flaenoriaeth ers i ysgolion ailagor. Yn gyffredinol, teimlodd disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol, bod gofal da iddynt, eu bod yn cael eu cefnogi, a'u

gwerthfawrogi. Yn ein harolygiad o [Ysgol Ystalyfera Bro Dur](#), roedd gofal, cymorth ac arweiniad yn arbennig o gryf ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi'n dda. Fe wnaeth hyn eu datblygu'n ddinasyddion gwybodus o fewn eu cymuned, yng Nghymru a'r byd ehangach.

Ym mwyafrif yr ysgolion, roedd staff yn defnyddio gwybodaeth yn dda i nodi disgyblion yn oedd angen cymorth arnynt ar gyfer eu lles neu'u dysgu. Roeddent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. Lle nad oedd hyn mor llwyddiannus, nid oedd arweinwyr yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da nac yn trefnu cymorth digonol i ddisgyblion er mwyn gwneud cynnydd.

Mae llawer o ysgolion wedi datblygu prosesau priodol i alluogi disgyblion gyfranogi yn y broses gwneud penderfyniadau trwy ddarparu cyfleoedd iddynt ddylanwadu ar beth a sut maen nhw'n dysgu. Mewn ychydig o ysgolion, nid oedd effaith disgyblion ar benderfyniadau ysgol gyfan wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mewn dwy o'r tair ysgol a arolygwyd, roedd y trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn, ac roedd bron yr holl staff yn deall eu rolau i gadw disgyblion yn ddiogel. Yn yr ysgolion hyn, roedd diwylliant diogelu wedi'i hen sefydlu. Gweithiodd yr holl ysgolion yn agos gydag asiantaethau allanol i ymateb a darparu cymorth priodol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mewn un achos, fodd bynnag, nid oedd arweinwyr yn ddigon rhagweithiol o ran mynd i'r afael â materion yn ymwneud â lles a diogelwch disgyblion. Yn ogystal, nid oedd system yr ysgol ar gyfer cofnodi pryderon diogelu yn ddigon trwyadl.

Arweinyddiaeth

At ei gilydd, roedd timau arweinyddiaeth pob oed llwyddiannus yn cynnwys cydbwysedd da o arweinwyr â chefnidroedd mewn sectorau oedran gwahanol. Wrth iddynt ddod yn fwy sefydledig, mae ysgolion wedi datblygu arweinwyr i ymgymryd â chyfrifoldebau ysgol gyfan, er enghraifft mewn cydlynio cynllunio ar gyfer dilyniant medrau disgyblion, neu arwain maes dysgu. Mae'r adnodd hwn yn darparu sbardunau hunanfyfrio i helpu ysgolion pob oed i ystyried i ba raddau maent yn elwa ar gynnig darpariaeth pob oed.

Roedd ansawdd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y sector yn amrywiol. Fodd bynnag, yn yr enghreifftiau gorau, roedd ysgolion yn gwerthuso darpariaeth a safonau ar draws cyfnodau a rhyngddynt. Roedd athrawon yn craffu ar waith disgyblion ar draws ystodau oedran ac yn gwerthuso cynnydd dros gyfnod. Roedd hyn yn rhoi darlun cynyddol gywir o gynnydd disgyblion yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, ac effaith darpariaeth ar draws yr ysgol. Roedd hyn yn galluogi arweinwyr i fynd i'r afael ag unrhyw ostyngiadau mewn dysgu yn brydlon. Mewn ysgolion llai effeithiol, nid oedd gwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon manwl. Nid oedd arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol o ran ei effaith ar ddysgu disgyblion yn ddigon da. Cyfrannodd hyn at fod ganddynt olwg rhy gadarnhaol o lawer o waith yr ysgol, ac o ganlyniad, roedd diffyg manylder mewn cynlluniau gwella o ran beth yn union yr oedd angen ei wella.

Roedd dysgu proffesiynol mewn ysgolion pob oed yn arbennig o ddefnyddiol pan roedd yn canolbwyntio ar agweddau ysgol gyfan, ar draws cyfnodau, fel datblygu medrau disgyblion. Roedd hyn yn cynnwys rhannu arfer dda mewn addysgu yn fewnol neu rhwng ysgolion tebyg. Fodd bynnag, nid oedd dysgu proffesiynol allanol wedi'i deilwra'n ddigon penodol yn aml i anghenion y sector pob oed.

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddom adroddiad thematig ar heriau a llwyddiannau sefydlu ysgolion pob oed yng Nghymru. Un o'i argymhellion yw y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno canllawiau cenedlaethol i ysgolion pob oed i gefnogi ysgolion pob oed, eu harweinwyr, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol. Mae hyn i gydnabod bod y sector yn wahanol i ysgolion cynradd ac uwchradd. Hefyd, mae'r adroddiad yn cydnabod pa mor dda mae ysgolion pob oed yn gweithio gyda'i gilydd drwy'r fforwm cenedlaethol ar gyfer ysgolion pob oed. Ceir crynodeb o'r adroddiad thematig [yma](#). Mae fersiwn lawn yr adroddiad ar gael [ar ein gwefan](#).

Mae astudiaethau achos o ddetholiad o ysgolion pob oed yn yr adroddiad yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol y gall ysgolion eraill uniaethu â hi neu ei defnyddio i wella eu harfer.



Adroddiad sector: Ysgolion arbennig a gynhelir 2021-2022

Mae 40 o ysgolion arbennig a gynhelir yng Nghymru sy'n darparu addysg ar gyfer bron i 5,500 o ddisgyblion.

Mae nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig wedi cynyddu blwyddyn ar ôl blwyddyn dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae tair ysgol yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid oes unrhyw ysgolion arbennig yng Ngheredigion na Sir Fynwy.

Mae llawer o ysgolion arbennig yn darparu addysg ar gyfer plant o 3-19 oed. Yn gynyddol, mae ysgolion arbennig yn addysgu plant ag anghenion mwy cymhleth. Yn nodweddiadol, mae ysgolion arbennig yn darparu addysg ar gyfer disgyblion ag anawsterau gwybyddol a dysgu y gellir eu dosbarthu yn rhai dwys, difrifol neu gymedrol. Yn ogystal, mae ein hysgolion arbennig yn darparu ar gyfer disgyblion â chyflwr y sbectrwm awtistiaeth; anawsterau lleferydd, cyfathrebu ac iaith; neu gyflyrau corfforol a/neu feddygol, gan gynnwys cyflyrau synhwyraidd fel namau ar y clyw a/neu'r golwg. Mae ychydig o ysgolion yn cynnig darpariaeth seibiant preswyl, ac mae ychydig iawn o ysgolion yn darparu bron yn gyfan gwbl ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Ymweliadau ymgysylltu

Cynhaliom ymweliadau ymgysylltu â dwy ysgol yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, cyfrannodd naw o ysgolion at waith thematig.

Arolygiadau craidd

Oherwydd y pandemig COVID-19, dim ond o ddiwedd Ionawr hyd fis Gorffennaf 2022 y cynhaliwyd arolygiadau craidd. Yn ystod y cyfnod hwn, arolygwyd tair ysgol.

Gweithgarwch dilynol

Tynnwyd dwy ysgol o'r categori adolygu gan Estyn, ac mae un yn parhau yn y categori adolygu gan Estyn. Cafodd un ysgol ei rhoi yn y categori mesurau arbennig.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)



Dysgu

Mae anghenion ac ystod oedran disgyblion sy'n mynychu ysgolion arbennig a gynhelir yn amrywio gryn dipyn.

At ei gilydd, yn sgil y cymorth ac anogaeth gref a gawsant gan staff, fe wnaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion fodloni targedu personol diwygiedig a datblygu medrau priodol.

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu yn dda ac yn dod yn fwyfwy hyderus wrth ddefnyddio'r medrau hyn mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, roeddent yn mynegi dealltwriaeth ac anghenion drwy ystumio, arwyddo, ysgrifennu a lleisio, gan gynnwys lleferydd. Roedd disgyblion mwy abl yn cyfranogi mewn sgysiau manwl ac ystyrlon, ac yn defnyddio iaith benodol i bwnc ac iaith dechnegol yn dda. Datblygodd disgyblion eu medrau darllen ac ysgrifennu yn briodol, o adnabod a deall symbolau i ddewis a darllen llyfrau o ystod o destunau ffuglen a ffeithiol. Roedd medrau ysgrifennu disgyblion yn ymestyn o wneud marciau synhwyraidd a ffurfio llythrennau unigol i ysgrifennu'n estynedig ac at ddibenion gwahanol, gan gynnwys dadansoddi barddoniaeth fel rhan o gwrs llenyddiaeth Saesneg.

Datblygodd llawer o ddisgyblion fedrau rhifedd a oedd yn eu galluogi, er enghraifft, i ddeall y gwahaniaeth rhwng mawr a bach neu hir a byr. Lle bo'n briodol, datblygodd disgyblion eu medrau rhifedd ac roeddent yn gallu adnabod rhifau a'u gwerth, a chwblhau gweithrediadau fel adio, tynnu, lluosu a rhannu. Dros gyfnod, roedd disgyblion yn ennill dealltwriaeth o werth arian a sut i ddefnyddio arian mewn cyd-destunau bywyd go iawn, er enghraifft i gyllidebu teithiau i'r siop a chyfrifo'r newid y dylent ei dderbyn.

Roedd llawer o ddisgyblion yn datblygu a chymhwyso'u medrau creadigol yn dda, gan gynnwys cyfranogi'n frwdfrydig yn eu côr ysgol. Yn ogystal, roedd disgyblion yn ymgysylltu'n awchus â gweithgareddau caneuon a dawns a ddefnyddir yn effeithiol i atgyfnerthu eu dysgu. Cynhyrchwyd gwaith celf deniadol gan ddisgyblion, gan gynnwys dyfrlliwiau a ffotograffiaeth ddigidol. Roeddent yn creu gemau cyfrifiadur cyffrous ac yn cynhyrchu propiau ac effeithiau arbennig ar gyfer cynrychiadau cyfryngau yn yr ysgol. Er enghraifft, yn Ysgol Pen-y-Bryn, cafodd medrau ffilm effaith arwyddocaol a chadarnhaol ar hyder, ymgysylltiad, gwydnwch a datblygiad medrau disgyblion. Bu'r ysgol yn ddigon caredig i ddarparu astudiaeth achos ar [Gwella profiad o'r cwricwlwm drwy fedrau ffilm](#).

Yn eu cyhoeddiad ym mis Ebrill 2022, [Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant](#) (Llywodraeth Cymru, 2022, tabl 4), nododd Llywodraeth Cymru fod pobl ifanc rhwng 16-18 oed, ag anabledd, bron deirgwaith yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o gymharu â phobl ifanc heb anabledd o'r un oedran. Mae hyn wedi gwaethygu dros y tair blynedd flaenorol o leiaf. Roedd yr adroddiad yn awgrymu bod ychydig o dan un rhan o bump o bobl ifanc anabl 16 i 18 oed heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.



Lles

Yn ystod tymor yr hydref 2021, fe wnaethom nodi fod ychydig o ddisgyblion yn cael anhawster ailintegreiddio a chydymffurfio'n llwyddiannus â disgwyliadau a threfniadau arferol, ac adroddodd arweinwyr fod anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion wedi cynyddu'n gyffredinol. Drwy ein gwaith arolygu dros y ddau dymor nesaf, fe wnaethom nodi fod llawer o ddisgyblion, gyda chymorth sensitif gan staff, wedi dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac roeddent yn dyfalbarhau'n dda. Roedd gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac fe wnaethant ailymgysylltu'n dda â'u cyfoedion yn yr ystafell ddosbarth. Dysgodd disgyblion unwaith eto i dderbyn gwahaniaethau unigol a bod yn gefnogol i'w gilydd. O ganlyniad, daeth disgyblion yn fwyfwy hyderus yn eu dysgu ac fel unigolion.

Yn ei adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru, [Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion nododd](#) y cyn Brif Arolygydd Ysgolion yng Nghymru "...yr ysgolion â'r cyfraddau presenoldeb isaf yn ystod y pandemig a'i ganlyniadau fu ysgolion arbennig..." (Llywodraeth Cymru, 2022, tud14). Gellid priodoli hyn i deuluoedd yn dymuno peidio ag anfon eu plant i'r ysgol, efallai oherwydd eu hanghenion gofal iechyd penodol neu yn sgil bygythiadau iechyd ychwanegol yn sgil COVID-19, er ei bod yn anodd cyffredinoli ar sail y dystiolaeth sydd ar gael. Mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion arbennig wedi bod yn gwella ond mae'n is na'r lefelau cyn y pandemig, yn gyffredinol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Erbyn diwedd tymor yr haf, roedd y rhan fwyaf o ysgolion arbennig mewn sefyllfa dda i weithredu diwygiadau'r cwricwlwm. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y cynnig cwricwlwm yn cyfateb yn dda i egwyddorion a dibenion y Cwricwlwm i Gymru. Defnyddiodd Ysgolion Arbennig eu rhwydweithiau cryf presennol i gydweithio ar ddatblygu eu cynigion cwricwlwm. Mae bron yr holl ysgolion arbennig yn rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith o fis Medi, gan gynnwys ychydig dan draean o ysgolion arbennig gyda disgyblion oed uwchradd.

Yn gyffredinol, roedd arweinwyr ar draws ysgolion arbennig yn cydnabod yr angen parhaus am gwricwlwm hyblyg i ymateb i anghenion disgyblion oherwydd eu profiadau gwahanol yn ystod y pandemig. Mae ysgolion yn sicrhau bod medrau staff yn cyfateb yn dda iawn yn gyffredinol i anghenion disgyblion. Drwy ein gwaith arolygu, fe wnaethom nodi fod cysylltiadau gwerthfawr â darparwyr allanol wedi dechrau ailgychwyn yn raddol. Roedd y rhain yn darparu profiadau dysgu buddiol i ddisgyblion, gan gynnwys ymweliadau â mannau o ddiddordeb lleol, datblygu medrau galwedigaethol a chyfleoedd dysgu yn y gysylltiedig â gwaith. Roedd y profiadau yn ennyn ymgysylltiad dysgwyr yn dda, yn datblygu eu hyder a'u hunan-barch. Lle nad yw'r cysylltiadau allanol hyn yn bodoli, mae'r

cynnig cwricwlwm yn rhy gul ac nid yw bob amser yn cyfateb yn ddigon da i anghenion a dyheadau ar gyfer disgyblion.

At ei gilydd, mae staff yn parhau i fod â dealltwriaeth gadarn o anghenion disgyblion. Roedd cyfathrebu gwell rhwng ysgolion a rhieni yn sicrhau bod ysgolion yn deall anghenion newidiol disgyblion yn gyflym. Ymatebodd y rhan fwyaf o ysgolion arbennig yn briodol i brofiadau eu disgyblion dros gyfnod y pandemig. Fe wnaethant barhau i addasu'u cynlluniau yn sensitif, ac aildrefnu grwpiau dosbarth ac ailbennu pwrpas mannau i alluogi ar gyfer addysgu disgyblion mewn grwpiau bach neu yn unigol, lle bo'n briodol.

Mae absenoldeb staff a threfnu staff cyflenwi addas yn parhau'n her mewn ysgolion arbennig. Yn aml, roedd disgyblion ag anghenion cymhleth yn ei chael yn heriol sefydlu perthnasoedd gyda staff anghyfarwydd. At ei gilydd, mae staff wedi dangos gwydnwch a chreadigrwydd arbennig wrth addasu i'r cyfyngiadau a oedd ar waith, gan gynnwys gweithredu grwpiau cyswllt llym a oedd yn cyfyngu ar symud disgyblion o amgylch yr ysgol ac yn cyfyngu ar ddigwyddiadau ysgol gyfan. Yn ein [harolygiad o Ysgol Ddydd Arbennig Crownbridge](#), gwnaethom sylwadau ar y defnydd cynyddol o lwyfannau ar-lein a oedd yn galluogi disgyblion i gynnal a chyflwyno gwasanaethau ysgol gyfan. "...Mae'r rhain yn brofiadau ysbrydoledig, sy'n cael eu mwynhau gan ddisgyblion sy'n ymgysylltu ag angerdd, brwdfrydedd a mwynhad dilyffethair..."

Gofal, cymorth ac arweiniad

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae gofal, cymorth ac arweiniad wedi bod yn dda neu'n well mewn llawer o ysgolion arbennig. Yn ein hadroddiad [Crynodeb o alwadau ymgysylltu ac ymweliadau ag ysgolion ac UC Dau Hydref 2021](#) (Estyn 2022, tud.7), fe wnaethom nodi fod bron pob arweinydd mewn ysgolion arbennig yn parhau i rannu dulliau clir o asesu, monitro a gwerthuso lles disgyblion. Mae darparu ymyriadau lles wedi cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Fe wnaeth y dulliau hyn, ynghyd ag ailsefydlu trefniadau arferol, perthnasoedd a strwythurau, gynorthwyo'n fawr i adfer presenoldeb rheolaidd llawer o ddisgyblion. Roedd staff ysgolion yn cefnogi teuluoedd yn dda. Er enghraifft yn Ysgol Pen-y-Bryn, cafodd ymgysylltu â theuluoedd effaith gadarnhaol iawn, gan sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ac yn cael eu cefnogi yn eu lles a'u dysgu.

[Fe wnaeth adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru](#) amlygu nifer o ddarnau ymchwil perthnasol ar effaith trychinebau ar les ac iechyd meddwl plant oedran ysgol. Roedd hyn yn cynnwys [ymchwil gan Asbury ac eraill](#), a ganfu fod rhieni wedi adrodd bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dioddef mwy o anawsterau iechyd meddwl. Roedd yr anawsterau hyn yn cynnwys gorbryder, hwyl isel, tynnu'n groes a newidiadau ymddygiad, ac awgrymodd rhieni fod plant a oedd â dealltwriaeth well o'r sefyllfa COVID-19 yn cael deilliannau gwell na'r rheiny â dealltwriaeth gyfyngedig. Cydnabu [ymchwil bellach gan Pearcey ac eraill](#) ar effaith y pandemig COVID-19 fod plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn pryderu ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol oherwydd "...bod pethau'n ansicr neu'n wahanol, newidiadau i'r drefn arferol, ac nad yw'r rhannau o'r ysgol yr oeddent yn eu mwynhau yn digwydd mwyach, a bod i ffwrdd o adref..."

Roedd ein hadroddiad thematig [Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru \(Estyn, 2022, tud 19\)](#) yn pwysleisio bod gan gynghorwyr gyrfaoedd ddealltwriaeth gref o anghenion disgyblion mewn ysgolion arbennig a'u bod yn darparu graddfa uchel o eiriolaeth ar eu cyfer, gan gynrychioli eu barnau a'u hanghenion mewn cyfarfodydd. Nid yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn rhoi rôl statudol i gynghorwyr gyrfaoedd mwyach i asesu anghenion disgyblion neu eiriol ar eu rhan. Nid oedd staff mewn ysgolion arbennig, awdurdodau lleol a Gyrfa Cymru yn glir ynghylch sut, neu os, y byddai'r rôl hon yn addasu i sicrhau bod disgyblion ag ADY yn cael mynediad i gyngor ac arweiniad annibynnol a chymorth i gynllunio'u pontio i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, roedd ysgolion arbennig mewn sefyllfa dda i weithredu'r diwygiadau ADY. Roedd arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn nodweddiadol hir sefydledig o waith y sector, ac mae staff mewn llawer o ysgolion arbennig wedi defnyddio'u harbenigedd i gynorthwyo cydweithwyr mewn ysgolion prif ffwrdd wrth ddatblygu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Dros gyfnod, mae'r arbenigedd mewn ysgolion arbennig wedi'i ddefnyddio i ddylanwadu ar ddylunio a defnyddio cynlluniau datblygu unigol wedi'u cytuno'n lleol sy'n dechrau disodli datganiadau anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, o fis Gorffennaf 2022, nid oedd bod amser yn glir i ysgolion na rhieni p'un a fyddai cynlluniau datblygu unigol yn cael eu cadw gan awdurdodau lleol neu ysgolion, ac mae hyn wedi creu ansicrwydd i rieni ac ysgolion.

Mewn adroddiad rhagarweiniol Addysg Disgyblion Awtistig yng Nghymru, (Davies, S. Prifysgol Abertawe, 2022, tud. 21) nododd yr awdur, sy'n fyfyrwr Doethuriaeth ym Mhrifysgol Abertawe, fod llawer o rieni disgyblion ag awtistiaeth a oedd yn mynychu lleoliadau arbenigol, gan gynnwys ysgolion arbennig, yn hapus â'r ysgol. Mae hyn yn cyferbynnu'n llym â'r 46% o rieni a oedd yn hapus ag ysgolion prif ffrwd. Mae'r canlyniadau hyn yn cysoni'n fras â'r rheiny a ddarparwyd gan rieni yn ein holiaduron cyn- arolygiad.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Parhaodd arweinwyr mewn ysgolion arbennig i wynebu heriau gweithredol yn ddyddiol. Yn gyffredinol, roeddent yn dangos gwydnwch a'r gallu i addasu. Fe wnaethant barhau yn optimistaidd, ac yn gyffredinol roeddent yn benderfynol o sicrhau darpariaeth sy'n bodloni anghenion lles a dysgu disgyblion, a sicrhau bod staff hefyd yn cael cefnogaeth yn ystod cyfnodau o her sefydliadol a phersonol.

Parhaodd absenoldeb staff i fod yn broblem, ac mewn ychydig o achosion, effeithiodd yn negyddol ar yr ysgol. Nododd arweinwyr heriau parhaus wrth sicrhau athrawon cyflenwi i lenwi dros gyfnodau o absenoldebau.

Roedd arweinwyr mewn llawer o ysgolion arbennig yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd addas i ddatblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau ar draws ystod eang o faterion, gan gynnwys cyflawni mentrau cenedlaethol fel diwygio'r cwricwlwm ac ADY. Dechreuwyd ailgychwyn gweithgareddau'n ymwneud â hunanwerthuso a chynllunio gwelliant wrth i effeithiau'r pandemig leihau. Yn gyffredinol, mae ysgolion a arolygwyd wedi myfyrio'n dda ar eu hymatebion i natur anrhagweladwy popeth yn sgil y pandemig.

Adroddiad sector: Ysgolion arbennig annibynnol 2021-2022

37

Nifer yr ysgolion ym mis Ionawr 2022

36

Nifer yr ysgolion ym mis Ionawr 2021

Mae ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu plant rhwng 3 a 19 oed sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys cyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth (ASC) ac anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM).

Mae llawer o'r ysgolion yn fach ac mae disgyblion yn byw mewn cartrefi plant sy'n gysylltiedig â'r ysgol, fel arfer. Mae lleiafrif o'r ysgolion hyn hefyd yn addysgu disgyblion dydd neu ddisgyblion sy'n byw mewn cartrefi plant nad ydynt yn gysylltiedig â'r ysgol. Mae'r lleiafrif o'r holl ysgolion arbennig annibynnol yn addysgu disgyblion dydd yn unig. Ysgolion annibynnol, gan gynnwys ysgolion arbennig annibynnol, yw'r grŵp mwyaf ond un o ddarparwyr i ddisgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ar ôl UC Dau.

Mae bron bob lleoliad mewn ysgolion arbennig annibynnol yn cael ei ariannu gan awdurdod lleol yng Nghymru neu Loegr.

Arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro

Yn ogystal ag arolygiadau llawn, mae Estyn yn cynnal arolygiadau monitro rheolaidd o ysgolion arbennig annibynnol, bob 12 i 18 mis fel arfer. Eleni, arolygom bum ysgol arbennig annibynnol a chynnal ymweliadau monitro â 18 o ysgolion. Mae canfyddiadau'r holl arolygiadau ac ymweliadau wedi llywio'r adroddiad hwn.

Mewn dwy o'r pum ysgol a arolygwyd, ni adroddodd arolygwyr ar ddysgu na lles ac agweddau at ddysgu. Mae hyn oherwydd bod nifer y disgyblion yn rhy fach i adrodd arnynt heb adnabod disgyblion unigol.

Safonau ysgolion annibynnol

Mewn arolygiadau o ysgolion arbennig annibynnol, rydym yn barnu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Roedd pedair o'r pum ysgol a arolygwyd a 7 o'r 18 yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro wedi methu bodloni o leiaf un o Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Lle'r oedd gan ysgolion ddiffygion o ran cydymffurfio â'r rheoliadau, roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf ag ansawdd yr addysg a'r addysgu a ddarperir, er bod gan ychydig o ysgolion ddiffygion yn ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion ac addasrwydd yr adeilad a'r llety.

Eleni, gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i ni gynnal un arolygiad di-rybudd â ffocws dan adran 160 Deddf Addysg 2002 (Prydain Fawr, 2022). Roedd gan yr arolygiad ffocws arbennig ar safon 3 a safon 1 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion ac ansawdd yr addysg a ddarperir (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003). Adeg yr arolygiad â ffocws, nid oedd yr ysgol yn bodloni gofynion rheoleiddiol y safon hon yn llawn.

Rydym yn monitro pob un o'r ysgolion hyn yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gwneud y gwelliannau angenrheidiol i gynnal eu cofrestrriad.

Ymweliadau ag ysgolion annibynnol

Yn ogystal â'n harolygiadau craidd a'n hymweliadau monitro, rydym hefyd yn ymgymryd ag ystod o waith arall ag ysgolion annibynnol:

- Chwe ymweliad cofrestru cychwynnol i gofrestru ysgol annibynnol newydd
- Chwe ymweliad dilynol ar ôl cofrestru i sicrhau bod ysgol annibynnol sydd newydd agor yn parhau i gydymffurfio â'r safonau ysgolion annibynnol
- 31 o ymweliadau newidiadau perthnasol, i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch newid i amgylchiadau ysgol annibynnol



Adroddiad sector: Ysgolion arbennig annibynnol 2021-2022

Dysgu

Mewn un o'r ysgolion a arolygwyd eleni, ac mewn tua chwech o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, gwnaeth lawer o ddisgyblion gynnydd addas o leiaf yn eu dysgu ac mewn agweddau pwysig ar eu datblygiad sy'n ategu hyn.

Yn yr ysgolion hyn, gwnaeth lawer o ddisgyblion gynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn perthynas â'u mannau cychwyn. Mewn gwersi, fe wnaethant ddatblygu eu medrau cymdeithasol a chyfathrebu yn effeithiol. Roeddent yn cydweithio â'i gilydd mewn parau neu grwpiau bach ac yn gwrando ac ymateb yn briodol i gyfraniadau disgyblion eraill mewn trafodaethau dosbarth.

Datblygodd llawer o ddisgyblion fedrau gwerthfawr mewn byw'n annibynnol, a oedd yn eu paratoi'n dda ar gyfer eu lleoliadau ôl-ysgol. Er enghraifft, fe wnaethant wella eu medrau annibynnol yn y gymuned leol, fel trwy ddefnyddio golchdy a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Fodd bynnag, mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd a thua phedair o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd diffygion o ran ansawdd a chysondeb addysgu ac asesu ac o ran ansawdd cymorth therapiwtig yn golygu nad oedd disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynnyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Cameo

Yn Ysgol Red Rose, mae bron bob un o'r disgyblion yn datblygu eu medrau byw'n annibynnol yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion ieuengaf yn datblygu'r medrau hyn trwy baratoi byrbrydau syml yn ystod amser egwyl. Wrth i ddisgyblion symud trwy'r ysgol, maent yn ymarfer ac yn datblygu'r medrau hyn mewn tai y mae'r ysgol yn berchen arnynt. Maent yn dysgu sut i ddefnyddio ystod o offer cegin yn ddiogel ac yn datblygu ystod o fedrau tŷ, gan gynnwys gwneud y gwely, cyllidebu, siopa a pharatoi prydau bwyd. Mae disgyblion hefyd yn ymarfer eu medrau annibyniaeth yn y gymuned leol trwy ddefnyddio golchdy a datblygu eu medrau teithio trwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae bron bob disgybl yn elwa ar y cyfleoedd hyn i ddatblygu medrau bywyd pwysig yn barod ar gyfer eu lleoliadau ôl-ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ennill cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn, sy'n cydnabod eu cyflawniadau'n llwyddiannus.



Lles ac agweddau at ddysgu

Mewn dwy o'r ysgolion a arolygwyd a thua saith o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, gwelodd llawer o ddisgyblion eu lles a'u hagweddau at ddysgu o ganlyniad i'r cymorth lles effeithiol a gawsant. O ganlyniad, roeddent yn teimlo'n ddiogel, yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn cynnal eu lleoliadau'n llwyddiannus.

Yn yr ysgolion hyn, ymgysylltodd llawer o ddisgyblion yn dda â'u gwersi. Dangosont chwilfrydedd, gwnaethant benderfyniadau am eu dysgu a datblygont berthnasoedd gwaith bwriadus â'u cyfoedion. Dros gyfnod ac mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd, fe wnaethant adeiladu eu gwydnwch a chaffael agweddau ac ymddygiad sy'n eu helpu i ddod yn ddysgwyr mwy llwyddiannus.

Roedd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrandao ar eu safbwyntiau a'u bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostyn nhw'u hunain. Lle'r oedd athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd disgyblion, datblygodd llawer ohonynt ymdeimlad o'u lle yn y gymuned ehangach ac ennill dealltwriaeth well o sut i gadw eu hunain yn iach ac yn ddiogel.

Fodd bynnag, mewn un o'r ysgolion a arolygwyd a thair o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd cyfyngiadau yn ymwneud â'r amgylchedd ffisegol, anghysondeb o ran y strategaethau rheoli ymddygiad a ddefnyddiwyd gan staff, a diffygion o ran ansawdd cymorth therapiwtig yn golygu na wnaeth rhai disgyblion, yn enwedig y rhai ag anghenion mwy cymhleth, gynnydd addas. Hefyd, cyfyngodd presenoldeb gwael lleiafrif y disgyblion ar gynnydd y disgyblion hyn yn eu dysgu a'u lles.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Roedd un o'r ysgolion a arolygwyd eleni a thua chwech o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro yn cynnig ystod eang a chytbwys o brofiadau dysgu a oedd yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Yn yr ysgolion hyn, roedd darpariaeth ar gyfer addysg bersonol, gymdeithasol ac iechyd yn cwrddu meysydd pwysig fel perthnasoedd iach, diogelwch personol a lles. Fodd bynnag, at ei gilydd, ym mhob ysgol, nid oedd ychydig o agweddau ar y ddarpariaeth hon wedi'u datblygu'n ddigonol, er enghraifft dysgu am aflonyddu rhywiol, radicaleiddio a chamfanteisio.

Dim ond mewn un o'r ysgolion a arolygwyd eleni, ynghyd â thua chwech o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd ansawdd yr addysgu,



cynllunio ac asesu yn gryf. Yn yr ysgolion hyn, roedd staff addysgu a chymorth dysgu yn cynllunio gweithgareddau difyr wedi'u seilio ar eu gwybodaeth am anghenion a diddordebau disgyblion unigol. Yn benodol, roedd ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ADY eu disgyblion a'r ymagweddau therapiwtig sydd eu hangen i'w cefnogi.

Mewn pedair o'r ysgolion a arolygwyd eleni a phedair o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd angen gwella addysgu a phrofiadau dysgu. Mae hyn oherwydd nad oedd cynllunio athrawon yn cysylltu'n ddigon da ag anghenion disgyblion ac nid oeddent yn dangos sut gall disgyblion ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth yn gynyddol mewn ffyrdd sy'n cysylltu'n glir â'u cyrchfannau tymor hir. Hefyd, cyfyngodd diffygion yn yr amgylchedd ffisegol ac ansawdd yr addysgu a'r cymorth dysgu oherwydd newidiadau rheolaidd i'r tîm staff ar gynnydd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Cameo

Mae Bettws Lifehouse yn cynnig cwricwlwm hyblyg, eang a chytbwys sy'n gweddu'n dda i anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion. Yn yr ysgol isaf, mae'r cwricwlwm symbylol yn caniatáu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu trwy chwarae, archwilio a gweithgareddau go iawn. Mae hyn yn helpu disgyblion i ymgysylltu'n gynhyrchiol â'u gwersi a datblygu medrau pwysig ar gyfer dysgu, fel medrau cymdeithasol a medrau meddwl. Mae disgyblion yn yr ysgol uchaf yn cael cynnig ystod eang o gymwysterau a phrofiadau perthnasol, sy'n galluogi disgyblion i ddilyn llwybr sy'n bodloni eu hanghenion a'u diddordebau'n llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion yn manteisio ar lwybrau cymwysterau sy'n berthnasol ac yn cefnogi eu llwybrau ôl-ysgol yn effeithiol.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn pedair o'r ysgolion a arolygwyd eleni a saith o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd gofal, cymorth ac arweiniad yn agwedd gref ar waith yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, roedd prosesau cyn-derbyn ac asesiadau cychwynnol yn gadarn ac yn sicrhau bod gan athrawon ddealltwriaeth gywir o ADY a mannau cychwyn disgyblion unigol. Darparodd yr ysgolion hyn amgylchedd meithringar a chynhwysol cryf a helpodd lawer o ddisgyblion i ddatblygu gwydnwch a theimlo'n ddiogel.

Yn yr ysgolion hyn, roedd y gwaith i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn gryfder. Roedd y ddarpariaeth hon yn cynnwys cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth ddiwylliannol a'u hymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas, a chynlluniodd staff yn effeithiol i baratoi disgyblion ar gyfer y camau nesaf mewn bywyd. Sicrhodd arweinwyr fod systemau cryf i gyfathrebu â rhieni a gofawyr ac i lywio gwaith y tîm therapiwtig neu glinigol. O ganlyniad, roedd y strategaethau hyn yn cefnogi gwaith staff addysgu yn dda.

Ar draws y sector hwn, roedd diogelu yn agwedd gref ar waith ysgolion. Fodd bynnag, mewn dwy ysgol a arolygwyd, nid oedd arweinwyr yn monitro cymhwyso polisiau a gweithdrefnau'n ddigon manwl. Yn yr ysgolion hyn, ynghyd â dwy o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd cymhwyso strategaethau rheoli ymddygiad a chyfathrebu yn anghyson. Yn ogystal, nid oedd ymagweddau therapiwtig wedi'u cydlynyn'n ddigon dda i fodloni anghenion disgyblion a staff.

Arweinyddiaeth

Ar hyd cyfnod y pandemig, gan gynnwys yn ystod y cyfnodau clo cyffredinol, dangosodd arweinwyr ysgolion arbennig annibynnol ymrwymiad a gwydnwch sylweddol o ran sicrhau bod eu hysgolion wedi parhau i fod ar agor i gefnogi lles a diogelwch eu disgyblion. Lle mae ysgolion yn gysylltiedig â chartrefi preswyl, roedd hyn fel arfer yn golygu eu bod wedi cynnal addysgu wyneb yn wyneb ar hyd bron y cyfnod hwn i gyd. Yn aml, gweithredodd yr ysgolion hyn heb gymorth gan awdurdodau lleol neu rwydweithiau cymorth eraill.

Mewn un ysgol a arolygwyd eleni a thua phump o bob deg o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r broses fonitro, roedd arweinyddiaeth a rheolaeth yn gryfder yn yr ysgol. Yn yr ysgolion hyn, roedd arweinwyr yn cyfleu cyfeiriad strategol clir i'r ysgol, yn ogystal â sicrhau rheolaeth effeithiol dros yr ysgol o ddydd i ddydd. Roedd rhaglenni dysgu proffesiynol yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau strategol yr ysgol ac roedd prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn gadarn a chynhwysol. O ganlyniad, gwnaeth yr ysgolion hyn gynnydd cryf yn erbyn argymhellion o ymweliadau monitro ac arolygiadau blaenorol.

Fodd bynnag, yn yr ysgolion eraill yr ymwelwyd â nhw eleni, cyfyngodd diffygion yn ansawdd yr arweinyddiaeth ar y cynnydd a wnaed gan ddisgyblion. Roedd y diffygion hyn yn golygu bod gweithgareddau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio gormod ar ddangos cydymffurfiaid, yn hytrach na chynnig gwerthusiad manwl o beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd angen ei wella. Nid oedd cynllunio gwelliant yn ddigon manwl ac ni nododd yr adnoddau a'r amserlenni yr oedd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau'r ysgol. Yn yr ysgolion hyn, nid oedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu dealltwriaeth athrawon o fedrau craidd addysgu a chynorthwyo disgyblion ag ystod eang o anghenion cymhleth. O ganlyniad, gwnaeth yr ysgolion hyn gynnydd araf yn unig yn erbyn argymhellion o ymweliadau blaenorol.

Cameo

Yn Ysgol Headlands, mae'r uwch dîm arwain yn cynnig arweinyddiaeth strategol hynod effeithiol i'r ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir, yn rhannu ymrwymiad cryf i wella'r ysgol yn barhaus ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ran cyrhaeddiad ac ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae gan uwch arweinwyr ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.

Mae staff ar draws yr ysgol yn rhannu ymrwymiad cryf i ddysgu proffesiynol ac yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i nodi a rhannu arfer dda. Mae hyn wedi helpu'r ysgol i wneud gwelliannau pwysig, er enghraifft i gryfhau'r ymagwedd therapiwtig integredig.

Mae'r adnodd hwn yn darparu sbardunau hunanfyfrio i gynorthwyo i gryfhau arweinyddiaeth mewn [ysgolion arbennig annibynnol](#).

Adroddiad sector: Prif ffrwd annibynnol 2021-2022

36

Nifer o ysgolion lonawr 2022

10

Gan gynnwys 10 ysgol breswyl

37

Ysgolion prif ffrwd annibynnol lonawr 2021

Safonau Ysgolion Annibynnol

Mewn ysgolion annibynnol, rydym yn arolygu i ba raddau y mae'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Roedd yr holl ysgolion a arolygwyd yn 2021-2022 yn bodloni'r Safonau hyn.

Eleni, gofynnodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol i ni gynnal un arolygiad â rhybudd, gan canolbwyntio ar arolygu dan adran 160 Deddf Addysg 2002 (Prydain Fawr, 2002). Roedd gan yr arolygiad ffocws penodol ar safon 3 Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, sy'n ymwneud â lles, iechyd a diogelwch disgyblion (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003). Adeg yr arolygiad â ffocws, nid oedd yr ysgol yn bodloni gofynion rheoleiddiol y safon hon yn llawn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r ysgol hon ac yn monitro a fydd yn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen i gynnal ei chofrestriad.

Cynhaliom dair cynhadledd wella hefyd ag ysgol a fethodd y gofynion rheoleiddiol ar gyfer safon 3 yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol. Mae'r ysgol hon bellach yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol ac mae wedi'i thynnu o'r categori gweithgarwch dilynol.

Arolygiadau craidd

Eleni, arolygom bedair ysgol brif ffrwd annibynnol.

Mae tair ysgol yn ysgolion pob oed ac un ohonynt yn ysgol gynradd.

Yn ogystal, mae dwy o'r ysgolion yn ysgolion preswyl.

Astudiaeth achos

Ysgol Gynradd Fwslimaidd Caerdydd – [cymorth ymarferol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol](#)

Ymweliadau ag ysgolion annibynnol

Yn ogystal â'n harolygiadau craidd a'n harolygiadau â ffocws, rydym hefyd yn ymgymryd ag ystod o waith arall ag ysgolion annibynnol:

- Un ymateb i gynllun gweithredu lle nad yw ysgol yn bodloni Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003
- Tri ymweliad cofrestru cychwynnol i gofrestru ysgol annibynnol newydd
- Tri ymweliad dilynol ar ôl cofrestru i sicrhau bod ysgol annibynnol sydd newydd agor yn parhau i gydymffurfio â'r safonau ysgolion annibynnol
- Ymweliadau â chwe ysgol annibynnol fel rhan o'n hadroddiad thematig ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion
- Saith ymweliad newid perthnasol, i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch newid i amgylchiadau ysgol annibynnol



Adroddiad sector: Prif ffrwd annibynnol 2021-2022

Dysgu

Yn yr ysgolion a arolygwyd eleni, sicrhodd ymateb chwim i heriau pandemig COVID19 fod safonau'n parhau'n uchel a bod disgyblion yn parhau i wneud cynnydd cryf.

Ar draws yr ysgolion a arolygwyd, roedd gan ddisgyblion fedrau cyfathrebu datblygedig iawn. Roedd bron bob disgybl yn huawdl ac yn hyderus wrth siarad ag ymwelwyr. Roeddent yn teimlo'n gartrefol wrth drafod eu gwaith ac wrth ymateb i gwestiynau. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o ddisgyblion yn gwrando'n ddigon da bob tro pan roedd pobl eraill yn siarad.

Ym mron pob un o'r ysgolion a arolygwyd, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos medrau darllen cryf, ynghyd â hoffter o lyfrau a llenyddiaeth. Roedd ychydig o ddisgyblion yn ddarllenwyr eithriadol o gymwys ac yn gallu darllen a deall ystod eang o destunau. Roedd y medrau darllen hyn yn galluogi disgyblion i fanteisio'n llwyddiannus ar ddeunydd ysgrifenedig ar draws y cwricwlwm.

Roedd safon ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gryf ar draws pob ysgol. Roedd disgyblion yn datblygu'r medrau priodol i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd a dibenion gwahanol. Roedd ychydig iawn o ddisgyblion yn gwneud gwallau sylfaenol cyson o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.

Datblygodd y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau mathemategol hynod o gryf a, phan roddwyd cyfle iddynt, fe wnaethant gymhwyso eu medrau rhifiadol mewn cyd-destun gwahanol. Roedd ychydig iawn o ddisgyblion hyn yn fathemategwyr medrus dros ben a oedd yn cymhwyso eu medrau mathemategol yn gywir ac yn gadarn ar draws y cwricwlwm.

Datblygodd medrau digidol bron bob disgybl yn dda oherwydd y ddarpariaeth ar-lein effeithiol a drefnwyd gan ysgolion yn ystod pandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys ffocws cryf ar ddefnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu'n effeithiol, i gwblhau eu gwaith ac ar gyfer ymchwil.

Lles ac agweddau at ddysgu

Ym mhob un o'r ysgolion a arolygwyd, roedd lles disgyblion a staff yn ffocws cryf o hyd. Dangosodd disgyblion falchder yn eu hysgol ac roedd ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, a oedd yn cyfrannu'n effeithiol at eu lles.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)



Roedd bron bob disgybl yn mwynhau perthynas waith adeiladol ac ymddiriedus â'u hathrawon. Roedd disgyblion yn hyderus wrth siarad â staff ac yn gwybod yr eir yr afael ag unrhyw bryderon yn gyflym. Roedd bron bob disgybl yn gweithio'n ddiwyd yn y dosbarth ac yn mwynhau eu gwersi. Roeddent yn cydweithio â'i gilydd yn aeddfed mewn paru a grwpiau bach. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn trin cyfraniadau disgyblion eraill â pharch ac yn cynnig cymorth i'w cyfoedion. Roeddent yn ddysgwyr brwdfrydig a oedd yn awyddus i gyfranogi ac ateb cwestiynau athrawon. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion yn ystod trafodaethau dosbarth, nid oedd disgyblion yn aros eu tro i gyfrannu bob amser nac yn rhoi digon o amser i ddisgyblion eraill rannu eu syniadau.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn yr holl ysgolion a arolygwyd, roedd y cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn bodloni gofynion Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003. Yn ogystal, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4, roedd yr ysgolion pob oed yn aml yn cynnig cwricwlwm tra phwrpasol a oedd yn gweddu'n dda i ddiddordebau a doniau'r disgyblion. Roedd y cyfleoedd cydgwricwlaidd helaeth y mae ysgolion annibynnol yn eu cynnig wedi'u cwtogi oherwydd cyfyngiadau pandemig COVID-19. Fodd bynnag, ailgyflwynodd tri chwarter yr ysgolion ymweliadau addysgol a theithiau cynlluniedig ymhellach i ffwrdd yn gyflym. Roedd y profiadau hyn yn cefnogi lles disgyblion yn gryf.

Fodd bynnag, mewn hanner yr ysgolion a arolygwyd, roedd un o'u hargymhellion yn ymwneud â darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Yn yr achosion hyn, nid oedd y dull o gyflwyno'r maes pwysig hwn o'r cwricwlwm wedi'i gydlyn neu nid oedd yr arfer yn cyfateb i'r polisi. Roedd disgyblion yn colli allan ar agweddau pwysig ar y pwnc hwn. Roedd hyn hefyd yn wir yn yr ysgolion yr ymwelom â nhw fel rhan o'n gwaith ar gyfer ein hadroddiad 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion. Yn yr ysgolion hyn, yn aml, nid oedd digon o amser yn y cwricwlwm ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol i ddisgyblion hyn ac nid oedd disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i siarad yn agored am eu profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

Ar draws yr ysgolion, roedd gan bron yr holl staff berthynas waith gadarnhaol a chefnogol â disgyblion ac roeddent yn eu hadnabod yn arbennig o dda. Roedd gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u hunain a'u disgyblion.

Lle'r oedd addysgu yn fwyaf llwyddiannus, roedd gweithgareddau'n aml yn benagored ac wedi'u haddasu'n effeithiol i gynnig lefel briodol o her i ddisgyblion. Yn yr achosion hyn, roedd athrawon yn cynnig adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion, a oedd yn nodi'n glir feysydd lle y gellid gwella eu gwaith.

Lle'r oedd addysgu'n llai llwyddiannus, roedd athrawon yn cynllunio gweithgareddau a oedd â ffocws mwy cul neu wedi'u harwain gormod gan athrawon i ddisgyblion allu cyfarwyddo eu dysgu eu hunain ac felly elwa ar gyfleoedd i ddatblygu medrau ehangach ac annibyniaeth. Hefyd, yn yr achosion hon, ni roddwyd cyfle i ddisgyblion gael adborth defnyddiol ar eu gwaith ac nid oedd disgwyl iddynt ymateb iddo.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Rhoddodd arweinwyr a staff flaenoriaeth uchel i les pob disgybl.

Lle'r oedd yn briodol, cysylltodd ysgolion yn adeiladol ag asiantaethau allanol, er enghraifft i gynnig cymorth arbenigol ar gyfer iechyd meddwl disgyblion. Hefyd, defnyddiodd un ysgol yn benodol y gymuned leol a'r gymuned ehangach yn hynod effeithiol i gefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

Ym mron pob un o'r ysgolion a arolygwyd, sicrhodd y cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol (CADY) fod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael y cymorth roedd ei angen arnynt i lwyddo â'u dysgu. Mewn un ysgol, roedd hyn yn gryfder penodol.

Roedd gan bob un o'r ysgolion a arolygwyd ddiwylliant diogelu priodol ac roedd diwylliant cryf yn hanner yr ysgolion a arolygwyd. Roedd yr holl staff yn deall eu rôl o ran sicrhau bod disgyblion yn ddiogel ac yn cael gofal da. Fodd bynnag, mewn ysgolion eraill, nid oedd staff yn glir bob tro ynghylch pwy y dylent roi gwybod iddynt os oedd ganddynt bryderon am uwch aelodau staff neu nid oedd gwirio cofnodion yn gadarn bob tro. Lle nododd arolygwyr y materion hyn, aethpwyd i'r afael â nhw â'r ysgolion wedi hynny. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau ein hadroddiadau thematig ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, lle mae staff ym mron pob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am ddisgybl. Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid yw athrawon ac, i raddau llai, uwch arweinwyr a staff cymorth, yn gwbl ymwybodol o gyffredinrwydd aflonyddu rhwng cyfoedion, gan nad yw disgyblion yn rhoi gwybod i staff ysgolion am eu pryderon yn systematig.

Arweinyddiaeth

Yn yr ysgolion a arolygwyd, roedd gan arweinwyr uchelgeisiau uchel ar gyfer eu disgyblion a disgwyliadau uchel o'u staff. Cefnogwyd y pennaeth yn dda gan yr uwch dîm a, gyda'i gilydd, roeddent yn pennu gweledigaeth glir, gytûn ac ethos yr oedd pawb yn ei gefnogi. Roedd y rhan fwyaf o arweinwyr yn monitro gwaith yr ysgol yn ofalus ac roedd ganddynt ddealltwriaeth gywir o'r cryfderau a'r diffygion ar draws yr ysgol. Lle'r oedd monitro arweinwyr yn nodi diffygion mewn arfer, aethpwyd i'r afael â'r rhain yn gyflym, er enghraifft trwy gymorth mentora ac anogaeth.

Lle'r oedd diffygion mewn arweinyddiaeth, nid oedd prosesau cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion, y safonau roeddent yn eu cyflawni ac ansawdd yr addysgu bob tro. O ganlyniad, nid oedd trefniadau'r ysgol i werthuso cynnydd tuag at wneud gwelliannau yn y meysydd pwysig hyn yn ddigon effeithiol.

Mewn tri chwarter o'r ysgolion a arolygwyd, roedd cyfleoedd datblygiad proffesiynol, boed hynny'n rhannu arfer dda neu'n mynychu cyrsiau allanol, yn gryf o hyd. Fodd bynnag, mewn chwarter o'r ysgolion, dim ond lleiafrif o'r staff a oedd wedi ymgymryd â chyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol.

Mewn hanner o'r ysgolion a arolygwyd, nid oedd rôl y corff llywodraethol wedi'i datblygu'n ddigonol, yn enwedig ei rôl fel cyfaill beirniadol.

Mae'r adnodd hwn yn darparu sbardunau hunanfyfrio i gynorthwyo i gryfhau arweinyddiaeth mewn [ysgolion annibynnol](#).

Adroddiad sector: Unedau cyfeirio disgyblion 2021-2022

Yn gyfreithiol, mae unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn fath o ysgol ac yn fath o addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Maent wedi'u sefydlu a'u cynnal gan awdurdod lleol i ddarparu addysg addas i blant a phobl ifanc efallai na fyddant yn cael addysg debyg oherwydd salwch, gwaharddiad neu reswm arall (adran 19 Deddf Addysg 1996).

UCDau

22

Cyfanswm nifer yr UCDau ym mis Ebrill 2021

21

Cyfanswm nifer yr UCDau ym mis Chwefror 2022

2

Mae dwy UCD yn darparu addysg ar gyfer disgyblion y dysgu sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 yn unig.

7

Mae saith UCD yn darparu addysg ar gyfer disgyblion cynradd, y cyfnod sylfaen a Chyfnodau Allweddol 3 a 4 yn unig.

11

Mae gan 11 UCD ddarpariaeth pob oed.

4

Nifer yr awdurdodau lleol heb ddarpariaeth UCD gofrestredig.

Disgyblion

857

Nifer y disgyblion mewn darpariaeth UCD ym mis Ionawr 2022

UCDau yw darparwr mwyaf addysg heblaw yn yr ysgol (AHY).

Modelau darpariaeth

- Mae ysgol eang o fodelau ar waith ledled Cymru.
- Mae cymysgedd o UCDau â darpariaeth ar un safle ac UCDau portffolio sydd wedi'u trefnu dros nifer o safleoedd.
- Mae'r ystod oed mewn UCDau yn amrywio, gyda rhai UCDau pob oed a rhai yn darparu ar gyfer ystod oedran benodol.
- Gall cofrestrriad mewn UCDau fod ar sail ranamser ac amser llawn. Gall disgyblion fod wedi'u cofrestru mewn mwy nag un sefydliad.
- Mae niferoedd y disgyblion mewn UCDau unigol yn amrywio o tua 20 i dros 120.
- Gall arweinwyr UCDau fod â chyfrifoldebau ychwanegol ar ran awdurdodau lleol, fel rheoli gwasanaethau tiwtora gartref neu diwtora yn yr ysbty.
- Mae'n ofynnol i bob UCD fod â phwyllgor rheoli.

Darpariaeth UCD

Cyfanswm = 21
Cyfrwng Cymraeg = 2
Dwyieithog = 1

Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau craidd = 2

Gweithgarwch ymgysylltu

Oherwydd pandemig COVID-19, cynhaliwyd arolygiadau craidd rhwng diwedd mis Ionawr a mis Gorffennaf 2022 yn unig. Yn ystod y flwyddyn academiaidd hon, cynhaliodd arolygwyr alwadau neu ymweliadau ymgysylltu â phob UCD.

Gweithgarwch dilynol


Medi 2021 nifer yr UCDau mewn categori gweithgarwch dilynol = 2 (y ddau ohonynt yn y categori mesurau arbennig)

Nifer yr UCDau a dynnwyd o gategori gweithgarwch dilynol yn 2021-2022 = 2

Nifer yr UCDau mewn categori gweithgarwch dilynol Awst 2022 = 0

Astudiaethau achos

UCD Bryn y Deryn



Adroddiad sector: Unedau cyfeirio disgyblion 2021-2022

Dysgu

Gwnaeth lawer o ddisgyblion yn yr UCDAu a arolygwyd gynnydd o'u mannau cychwyn gwreiddiol. At ei gilydd, fe wnaethant ymateb yn dda i ailsefydlu arferion a strwythurau, a dangos gwydnwch. Fodd bynnag, roedd angen cymorth ychwanegol ar y rhan fwyaf o ddisgyblion ar gyfer eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl. Roedd problemau parhaus â phresenoldeb ac absenoldebau cyson yn her o hyd ac effeithiodd hyn ar gynnydd disgyblion.

Dros gyfnod, gwellodd medrau cymdeithasol llawer o ddisgyblion a'u gallu i oddef cydweithio â disgyblion eraill, yr oedd y pandemig wedi cael effaith niweidiol arnynt. Fodd bynnag, i lawer o ddisgyblion, gwaethygydd bylchau blaenorol mewn dysgu gan y pandemig. Er enghraifft, ni ddatblygodd llawer o ddisgyblion eu medrau TGCh yn gynyddol oherwydd diffyg cyfleoedd cyson a chynlluniedig ar draws y cwricwlwm.

Manteisiodd y rhan fwyaf o ddisgyblion ar ystod addas o gymwysterau cydnabyddedig ar ddiwedd Blwyddyn 11. Ailsefydlodd UCDAu brosesau effeithiol ar gyfer cynlluniau pontio yn gyflym wrth i ddisgyblion adael yr UCD. O ganlyniad, yn yr UCDAu a arolygwyd, symudodd bron bob disgybl a adawodd UCDAu yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-2021 ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Lles

Parhaodd disgyblion nad oeddent yn ymgysylltu'n dda â dysgu cyn dechrau COVID19 i beri pryder trwy gydol y pandemig. At ei gilydd, cynyddodd anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl disgyblion yn sgil y pandemig a chafodd ychydig o ddisgyblion drafferth cydymffurfio'n llwyddiannus â disgwyliadau ac arferion wrth i'r argyfwng gilio. Canolbwyntiodd yr UCDAu a aeth i'r afael â'r materion hyn yn fwyaf effeithiol ar gynnal perthynas waith gadarnhaol â disgyblion.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

UCD Bryn y Deryn

Roedd diwylliant ac ethos nodedig o gefnogi lles ar draws yr UCD. Roedd bron bob disgybl yn ymgysylltu'n gyson â'r arferion sefydledig yn ystod cyfnod bugeiliol y bore. Roedd y berthynas waith gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn cefnogi ymagwedd deuluol a oedd yn galluogi disgyblion i reoli eu hymddygiad yn fwy llwyddiannus. Roedd bron bob disgybl yn adolygu ac yn gweithredu ar dargedau pwrpasol ar gyfer gwella yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, roedd bron bob] disgybl yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn gallu ymgartrefu'n gyflym mewn sefyllfaoedd dysgu ac yn dangos ymddygiad rhagorol mewn gwersi.

Cymerodd bron bob disgybl yn yr UCDAu a arolygwyd ran mewn cyfleoedd i ddylanwadu ar beth a sut roeddent yn dysgu. Er enghraifft, roedd cyfarfodydd y cyngor ysgol wedi'u sefydlu'n dda ac roedd disgyblion yn teimlo bod staff yn gwrandao ar eu safbwyntiau.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mabwysiadodd arweinwyr ymagwedd hyblyg tuag at y cwricwlwm, gyda ffocws penodol ar les disgyblion a'u hanghenion ymddygiadol, emosiynol ac iechyd meddwl. Crybwyllodd arweinwyr bryderon yn ymwneud ag amrywioldeb ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu. I ymateb i hynny, cynyddodd UCDAu ddarpariaeth yr ymyriadau therapiwtig ychwanegol i gynorthwyo disgyblion a'u hailymgysylltu â'u dysgu.

Effeithiodd absenoldebau parhaus staff a disgyblion yn gysylltiedig â COVID-19 ar barhad darpariaeth ac ansawdd yr addysgu a dysgu ar draws UCDAu. Er bod arweinwyr yn siarad yn hyderus am sut roeddent yn datblygu eu cwricwlwm ar sail y pedwar diben, arweiniodd yr heriau gweithredol a achoswyd gan y pandemig at amrywiad yn y parodrwydd ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu sbardunau hunanfyfrio i gynorthwyo UCDAu i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Yn y ddau ddarparwr a arolygwyd, roedd rhaglenni ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda ac roeddent yn ffocws allweddol ers y pandemig.

Roedd bron pob un o'r staff wedi meithrin perthynas waith gadarnhaol a gwerthfawr â'u disgyblion. Roeddent yn dangos eu bod yn deall ac yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn cydnabod y rhwystrau posibl rhag dysgu y gallai disgyblion eu hwynebu. Mewn llawer o achosion, ceisiodd athrawon leddfu effaith y pandemig trwy addysgu disgyblion mewn grwpiau bach neu'n unigol. Fodd bynnag, yn y ddwy UCD, roedd cryfhau cysondeb mewn addysgu yn faes i'w wella. Yn y ddau ddarparwr, roedd ystod y profiadau dysgu i gynorthwyo disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus yn ymwneud â'u gyrfaedd yn y dyfodol a'r byd gwaith yn gryf.

Canolfan Addysg Conwy

Yng Nghyfnod Allweddol 4, darparodd yr UCD ystod dda o brofiadau dysgu i helpu disgyblion i wneud dewisiadau gwybodus am eu gyrfaedd yn y dyfodol a'r byd gwaith. Darparwyd y profiadau hyn trwy bartneriaethau cryf â'r coleg lleol, y cynghorydd gyrfaedd a phartneriaid allanol eraill. Trefnodd yr UCD ymweliadau i ddisgyblion â'r coleg o'u dewis a chan fusnesau lleol i esbonio'r gwaith maent yn ei wneud i gynorthwyo disgyblion i ennill medrau ar gyfer y gweithle. Roedd y gwaith hwn yn gryfder yn yr UCD.

At ei gilydd, roedd gan yr UCDAu a arolygwyd drefniadau asesu cynhwysfawr i nodi cryfderau disgyblion a'u meysydd i'w datblygu. Defnyddiwyd deilliannau asesu yn dda gan athrawon i gynllunio profiadau dysgu priodol i ennyn diddordeb disgyblion a'u cynorthwyo i wneud cynnydd ar sail eu hanghenion unigol. At ei gilydd, roedd gan staff



ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion. Roeddent yn ystyried cynlluniau addysg unigol (CAUau) neu gynlluniau datblygu unigol (CDUau) a thargedau disgyblion ac yn cynllunio'n dda ar gyfer y rhain yn eu haddysgu.

UCD Bryn y Deryn

Caniataodd asesiadau cynhwysfawr wrth ddechrau yn yr UCD, ynghyd â chysylltiad effeithiol ag ysgolion ac asiantaethau partner, i'r staff nodi anghenion dysgu a lles unigol disgyblion a chynllunio'n dda ar eu cyfer. Cyfrannodd yr asesiadau cychwynnol hyn at ddogfen cofnod cyrhaeddiad werthfawr. Cafodd cynnydd ei olrhain yn effeithiol ar draws pob maes cyflawniad, gan gynnwys ymgysylltiad, targedau dysgu a dyheadau gyrfa. Roedd dogfennau 'taith y dysgwr' hefyd yn cefnogi cynllunio ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu neu ddatblygiad, gyda ffocws ar yrfaoedd a dewisiadau ôl16.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd gan y ddwy UCD a arolygwyd ethos gofalgarg a chynhwysol. Roedd yr ethos hwn yn ymdreiddio i waith yr UCDAu ac yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar les disgyblion. Wynebodd arweinwyr heriau o ran bodloni anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl cynyddol eu disgyblion yn sgil y pandemig. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ystod gynyddol yr ymyriadau therapiwtig ar sail arferion wedi'u llywio gan drawma a ddarparwyd gan yr UCDAu wedi dechrau mynd i'r afael â'r heriau hyn yn llwyddiannus. Fodd bynnag, crybwyllodd UCDAu y gallai cymorth allanol i fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â phresenoldeb fod yn rhy feichus ac nad oeddent yn ddigon amserol. Roedd y gallu i fanteisio ar Wasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn rhy amrywiol hefyd.

I ddisgyblion newydd a oedd yn ymuno ag UCDAu, roedd prosesau asesu cynhwysfawr i asesu eu hanghenion a'u galluoedd. Roedd y trefniadau hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgartrefu'n gyflym ac yn dda yn eu UCDAu.

Roedd gan y ddwy UCD ddull cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd wedi'i ddatblygu'n dda. Roedd cyfuniad o CAUau a CDUau ar waith ar draws yr UCDAu. Roedd hyn yn adlewyrchu ymagwedd yr awdurdod lleol ar y pryd wrth ymateb i ddiwygio ADY. Roedd staff yn defnyddio CAUau a CDUau yn dda i gynllunio a darparu profiadau dysgu perthnasol i ddisgyblion. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd anghysondebau o ran y trefniadau ar draws awdurdodau lleol mewn perthynas â 'pherchenogaeth' CDUau disgyblion yn peri pryder o hyd ymhlith arweinwyr mewn UCDAu.



Roedd gan y ddwy UCD strategaethau effeithiol ar gyfer cyfathrebu â rhieni a gofawyr. Cryfhawyd y rhain yn sylweddol yn ystod y pandemig a pharhaodd UCDAu i adeiladu'n llwyddiannus ar yr arfer hon. Roedd diwylliant ac arfer diogelu ar draws UCDAu yn gryf.

Arweinyddiaeth

Yn ein hymgysylltiad â darparwyr, crybwyllodd arweinwyr mewn UCDAu fod absenoldebau parhaus staff o ganlyniad i COVID-19 yn cael effaith negyddol ar gynnydd disgyblion. Er enghraifft, roedd disgyblion yn aml yn ei chael yn heriol meithrin perthnasoedd ac yn cael trafferth dysgu'n effeithiol â staff anghyfarwydd. Roedd dod o hyd i staff asiantaeth addas yn heriol iawn hefyd. Serch hynny, parhaodd arweinwyr i roi blaenoriaeth uchel i les staff a disgyblion.

Crybwyllodd arweinwyr fod ganddynt gyfrifoldebau ychwanegol i reoli gwasanaethau dan arweiniad yr awdurdod lleol, fel gwasanaethau tiwtora gartref a thiwtora yn yr ysbyty. Mae i hyn fantais ogreu ymagwedd fwy hyblyg a chydlynus tuag at gefnogi pobl ifanc sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Fodd bynnag, crybwyllodd ychydig o arweinwyr newydd fod yr heriau sy'n gysylltiedig â'r cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn ychwanegu at eu llwyth gwaith.

Yn y ddwy UCD a arolygwyd, parhaodd prosesau hunanwerthuso a monitro a systemau sicrhau ansawdd i weithredu. Roedd y prosesau hyn yn galluogi arweinwyr i gynllunio'n strategol ar gyfer gwella a chryfhau darpariaeth. Dangosodd arweinwyr lefel uchel o wydnwch a hyblygrwydd a rheolwyd newid yn dda.

Manteisiodd arweinwyr i'r eithaf ar gyfleoedd dysgu proffesiynol yn ystod y pandemig. Rhoddodd digwyddiadau hyfforddiant rhithwyr gyfle iddynt gefnogi datblygiad staff yn fwy hyblyg. Roedd arweinwyr yn awyddus i ailsefydlu ymweliadau â darparwyr eraill i fanteisio i'r eithaf ar rannu arfer dda ar draws y sector.

Yn gyffredinol, mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff yn cyd-fynd yn effeithiol â blaenoriaethau UCDAu. Mae hyn yn cynnig y set medrau sydd ei hangen ar staff i gefnogi anghenion cymhleth disgyblion ar draws UCDAu yn fwy llwyddiannus. Mae staff yn elwa ar gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n adlewyrchu anghenion cymhleth disgyblion yn dda.

At ei gilydd, roedd lefel y cymorth a her a gynigiwyd i arweinwyr gan bwyllgorau rheoli wedi gwella. Yn y ddwy UCD, roedd trefniadau cydweithio cryfach â swyddogion yr awdurdod lleol yn gwella ansawdd darpariaeth yr UCD. Ar draws awdurdodau lleol, mae anghysondebau yn nhrefniadau'r gyllideb ar gyfer UCDAu.

Dolenni : [Crynodeb o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac UCDAu – hydref 2021 | Estyn \(gov.wales\)](#)



Adroddiad sector: Colegau arbenigol annibynnol 2021-2022

7

Nifer y colegau arbenigol annibynnol ym mis Ionawr 2022

Mae colegau arbenigol annibynnol yn addysgu tua 200 o ddysgwyr ledled Cymru sy'n 16 oed neu'n hŷn. Mae'r colegau'n darparu ar gyfer ystod amrywiol o anghenion dysgwyr, gan gynnwys anhwylderau sydd â'r cyflyrau awtistiaeth, anawsterau emosiynol ac ymddygiadol, ac anawsterau dwys a lluosog. Mewn pedwar o'r colegau, mae llawer o ddysgwyr yn byw mewn cartrefi preswylwyr sy'n gysylltiedig â'r coleg.

Ariennir bron pob un o'r lleoliadau mewn colegau arbenigol annibynnol gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru neu gan awdurdodau lleol i ddysgwyr o Loegr.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

7

Nifer y colegau arbenigol annibynnol ym mis Ionawr 2021

Arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro

Yn ogystal ag arolygiadau llawn, rydym yn cynnal ymweliadau monitro rheolaidd â cholegau arbenigol annibynnol. Mae'r ymweliadau hyn yn ystyried y cynnydd a wnaed gan y colegau yn erbyn argymhellion penodol o arolygiadau craidd ac ymweliadau monitro blaenorol.

Eleni, fe wnaethom gynnal pump ymweliad monitro a dim un arolwg craidd. Mae canfyddiadau'r holl ymweliadau hyn wedi llywio'r adroddiad hwn.

Dysgu

Dros gyfnod, gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd cryf mewn perthynas â'u mannau cychwyn unigol. Fe wnaethant ddatblygu medrau cyfathrebu a'u medrau ymarferol yn arbennig o dda. Er enghraifft, fe wnaethant ddilyn rhyddid gweledol i goginio pryd i swper neu ddefnyddio arwyddion i wneud mainc dderw yn yr ardal gwaith coed.

Mewn tri choleg, datblygodd llawer o ddysgwyr eu medrau ymarferol trwy dasgau pwrpasol a oedd wedi'u cynllunio'n dda mewn ystod o gyd-destunau realistig. Er enghraifft, mewn un coleg, gwnaeth dysgwyr fachau cotiau a dolenni drysau mewn gefail, casglu wyau ar y fferm a thyfu bwyd i'w ddefnyddio yng nghegin y coleg a chartrefi preswyl. Fe wnaethant ddilyn arferion sefydledig i gwblhau tasgau'n fwyfwy annibynnol, fel creu rhestrau siopa, prynu cynhwysion a gwneud teisennau fel rhan o'u cwricwlwm medrau bywyd.



Ym mhob un o'r colegau, cwblhaodd y rhan fwyaf o ddysgwyr gymwysterau neu achrediad perthnasol yn llwyddiannus. Fodd bynnag, parhaodd y cyfyngiadau a osodwyd gan bandemig COVID-19 i effeithio ar gynnydd dysgwyr, yn enwedig o ran parodrwydd dysgwyr ym mlwyddyn olaf eu cwrs i symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam nesaf yn eu bywyd a'u dysgu.

Lles ac agweddau at ddysgu

Gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd gwerthfawr yn datblygu eu hyder a'u gwydnwch ar draws ystod werthfawr o brofiadau dysgu a oedd yn cynorthwyo i ddatblygu eu lles yn effeithiol.

Cyfranogodd llawer o ddysgwyr yn dda mewn gwersi. Roeddent yn deall ac yn dilyn arferion yn briodol ac yn gweithio'n gadarnhaol â'u cyfoedion i gwblhau tasgau'n annibynnol neu fel rhan o grŵp. Er enghraifft, fe wnaethant gydweithio'n frwdfrydig mewn sesiynau cerddoriaeth a chynorthwyo ei gilydd yn dda wrth wirio iechyd moch cwta yn eu sesiwn gofal anifeiliaid.

Datblygodd y rhan fwyaf o ddysgwyr berthynas waith gref â'r staff addysgu a'u cyfoedion. Oherwydd y cymorth medrus a gawsant, roeddent yn teimlo'n ddiogel yn ystod sesiynau, a oedd yn eu helpu i ymgysylltu'n dda, rheoli eu hymddygiad eu hunain a gwella ansawdd eu gwaith. Gyda'u cyfoedion, dangosodd y rhan fwyaf o ddysgwyr barch tuag at ei gilydd a dathlu cyflawniadau gyda'i gilydd yn gadarnhaol.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Ym mhob coleg, darparodd tiwtoriaid a staff cymorth gefnogaeth sylwgar a gofalus. Roeddent yn adnabod anghenion eu dysgwyr yn dda ac yn meithrin perthynas waith gadarnhaol â nhw.

Cynlluniodd tiwtoriaid yn ofalus i gynnig ystod berthnasol ac ystyrlon o brofiadau dysgu, y gwnaethant eu haddasu'n ofalus i fodloni anghenion amrywiol ar draws y coleg. Mewn llawer o achosion, parhaodd cynllunio i ganolbwyntio'n gryf ar weithgareddau a oedd yn hyrwyddo lles dysgwyr yn benodol. Rheolodd tiwtoriaid beryglon yn gysylltiedig â'r gweithle yn ofalus a datblygodd dysgwyr ddealltwriaeth gref o ystyriaethau iechyd a diogelwch perthnasol.

Helpodd yr ymagwedd hon i gynorthwyo i ddatblygu gwydnwch dysgwyr, ynghyd â medrau annibyniaeth a medrau bywyd gwerthfawr, gan gynnwys hyfforddiant teithio, rheoli arian a medrau cyfweld.

Cameo: Aspris College South

Yn 2021, symudodd y coleg i adeilad newydd, sy'n cynnwys ystafelloedd dysgu a lles, ystafell TGCh, cegin addysgu, ystafell dawel a swyddfeydd clinigol. Mae'r adeilad hwn yn cynnig amgylchedd dysgu dymunol a chroesawgar sy'n bodloni anghenion dysgwyr yn arbennig o dda. Mae'r coleg hefyd wedi buddsoddi mewn rhandir lleol, sydd yn ei ddyddiau cynnar o ran cael ei ddatblygu.

Un o nodweddion hynod adeilad newydd y coleg yw 'caffi gwaith'. Mae'r adnodd hynod fuddiol hwn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr gwblhau profiad gwaith mewn amgylchedd adnabyddus sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae dysgwyr yn defnyddio'r adnodd hwn yn effeithiol i ddatblygu eu medrau cymdeithasol, technoleg bwyd a rheolaeth ariannol a'u dealltwriaeth ohonynt. Maent hefyd yn elwa ar gwblhau cymwysterau hylendid bwyd.

Lle'r oedd diffygion mewn addysgu, roedd hyn oherwydd nad oedd addysgu'n bodloni anghenion cymhleth dysgwyr yn ddigon da. Mewn dau goleg, roedd gormod o amrywioldeb yn nealltwriaeth staff addysgu a'r modd roeddent yn cymhwyso strategaeth cyfathrebu i gefnogi anghenion cyfathrebu dysgwyr. Mewn un coleg, nid oedd tiwtoriaid yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn raddol ac nid oedd adborth tiwtoriaid yn nodi'n ddigon clir beth roedd angen i ddysgwyr ei wneud i wella eu gwaith.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd y pedwar coleg yr ymwelwyd â nhw eleni yn cynnig amgylchedd tawel, cefnogol a meithringar sy'n hyrwyddo lles dysgwyr yn effeithiol. Er gwaetha'r heriau sylweddol a achoswyd gan y pandemig, parhaodd staff i addasu ymagweddau'n hyblyg i fodloni anghenion dysgwyr a hyrwyddo eu diogelwch a'u lles corfforol. O ganlyniad, roedd gan y rhan fwyaf o ddysgwyr lefelau uchel o les a oedd, yn ei dro, yn sicrhau bod llawer ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn o leiaf yn eu dysgu.

Mewn pedwar o'r colegau, addasodd a diwygiodd arweinwyr eu darpariaeth yn briodol i alluogi dysgwyr i barhau ar eu rhaglenni a chadw cofnodion manwl o gynnydd dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn. Helpodd y monitro gofalus hwn i golegau asesu effaith y pandemig ar gynnydd dysgwyr a nodi ymatebion addas i fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, rhoddodd un coleg gynlluniau presenoldeb cadarn ar waith i gynorthwyo dysgwyr pryderus i ddychwelyd i addysg wyneb yn wyneb amser llawn.

Mewn un coleg yr ymwelwyd ag ef eleni, nid oedd y ddarpariaeth arbenigol a wnaed gan y coleg ei hun i gefnogi anghenion cymhleth dysgwyr wedi'i ddatblygu'n ddigonol. O ganlyniad, parhaodd llawer o ddysgwyr i ddibynnu ar gymorth a ddarparwyd gan dimau clinigol yn eu hawdurdod lleoli a'r bwrdd iechyd lleol i ddarparu arweiniad parhaus i fodloni eu hanghenion arbenigol, hyd yn oed ar ôl iddynt ymuno â'r coleg.

Arweinyddiaeth

Mewn tri o'r colegau, ymatebodd arweinwyr yn gadarnhaol i'r adborth o ymweliadau monitro blaenorol. Roedd ganddynt ddealltwriaeth gywir o gryfderau'r coleg a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella, a rhoddwyd systemau priodol ar waith i sicrhau ansawdd a monitro cynnydd yn erbyn agweddau allweddol ar eu gwaith.

Mewn dau goleg, helpodd yr ymagwedd hon i sicrhau, er gwaetha'r heriau a achoswyd gan y pandemig, bod arweinwyr yn gallu gwneud gwelliannau sylweddol i adeilad a chyfleusterau'r coleg i gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr. Fodd bynnag, mewn dau goleg, cafodd newidiadau diweddar i arweinyddiaeth y coleg, ynghyd â'r her o reoli'r coleg yn ystod y pandemig, effaith negyddol ar arweinyddiaeth strategol y coleg. Yn y



colegau hyn, nid oedd prosesau gwerthuso a sicrhau ansawdd yn drylwyr ac nid oeddent yn llywio blaenoriaethau'r coleg ar gyfer gwella yn ddigon da.

Mewn dau goleg, nid oedd dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n ddigon da ar yr ystod lawn o anghenion dysgwyr sy'n mynychu'r coleg nac ymateb yn ddigon da iddynt. Mae'r adnodd hwn yn cynnig sbardunau hunanfyfrio i gefnogi dysgu proffesiynol mewn [colegau arbenigol annibynnol](#).

Yn gyffredinol, cadarnhaodd arweinwyr eu bod yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw staff â chymwysterau a phrofiad addas, gan gynnwys recriwtio staff therapiwtig, yn ogystal â'r pwysau a achoswyd gan y cynnydd diweddar mewn costau i gynnig darpariaeth arbenigol oherwydd chwyddiant. Mynegodd arweinwyr bryderon parhaus am faterion yn deillio o roi diwygiadau ADY ar waith hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys trosglwyddo cyllid ar gyfer lleoliadau mewn colegau arbenigol o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, ynghyd â phryderon a nodwyd yn adroddiad thematig diweddar Estyn, [Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru](#) (Estyn, 2022), ynghylch didueddrwydd cyngor ac arweiniad i ddysgwyr mewn ysgolion arbennig yn y dyfodol wrth ystyried eu hopsiynau ôl-16.



Adroddiad sector: Gwasanaethau addysg llywodraeth leol 2021-2022

Mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnwys y rhai sy'n cael eu darparu neu eu comisiynu gan un awdurdod lleol, yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol eraill. Caiff gwasanaethau gwella ysgolion eu darparu ar y cyd â'r consortia rhanbarthol ar ran awdurdodau lleol, gan fwyaf, er bod y model o ran sut mae hyn yn gweithio yn amrywio ledled Cymru.

Cyflawnodd ein harolygwyr cyswllt awdurdodau lleol eu gwaith arferol ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol, a gweithion ni ag Archwilio Cymru i roi ein safbwyntiau i awdurdodau lleol ar beth sy'n gweithio'n dda yn eu gwasanaethau addysg llywodraeth leol a beth sydd angen ei wella.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Arolygiadau

Rhwng mis Medi 2021 a mis Gorffennaf 2022, fe wnaethom gynnal pum arolygiad o wasanaethau addysg llywodraeth leol. Barnwyd bod un awdurdod lleol, sef Torfaen, yn peri pryder sylweddol. Gofynnwyd i lawer o awdurdodau lleol lunio astudiaethau achos yn amlinellu arfer effeithiol mewn agweddau ar eu gwaith.

Gweithgarwch dilynol

Ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd, roedd tri awdurdod lleol yn peri pryder sylweddol. Barnwyd bod Powys wedi gwneud cynnydd da yn ystod ymweliad monitro yn nhymor yr hydref ac fe'i tynnwyd o unrhyw weithgarwch dilynol pellach. Fe wnaethom gynnal cynadleddau gwella yn awdurdodau Sir Benfro a Wrecsam i ddarganfod y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion o'u harolygiadau craidd. Fe wnaethom nodi bod angen i'r ddau awdurdod barhau i weithio ar eu prosesau monitro a gwerthuso. Byddwn yn parhau i werthuso cynnydd gwasanaethau addysg.



Deilliannau

Yn ystod ein harolygiadau y llynedd, nid oedd modd i ni roi gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Roedd hyn oherwydd effaith pandemig COVID-19, a oedd yn golygu y bu raid atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mater eilaidd oedd y diffyg data ar ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod, gan i'r pandemig achosi newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau ac effeithio ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth werthuso, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16. Felly, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022, adroddom ar ddeilliannau cyn y pandemig yn unig neu'r rhai a oedd yn ymwneud â deilliannau mwy diweddar, lle mae'r sylfaen dystiolaeth yn ddilys ac yn ddibynadwy.

Mae ein harolygiadau mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y pum awdurdod lleol a arolygwyd yn dangos bod a barnau a luniwyd ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar eu cryfaf mewn ysgolion yn Abertawe ac ar eu gwanaf mewn ysgolion yn Nhorfaen.

O'r awdurdodau lleol a arolygwyd eleni, ar gyfer y tair blynedd cyn pandemig COVID-19, roedd safonau yng Nghyfnod Allweddol 4 yn uchel mewn ysgolion yn Abertawe a Chaerdydd. Roeddent yn fwy amrywiol mewn ysgolion ar Ynys Môn ac yn isel yn Nhorfaen a Merthyr Tudful. Roedd safonau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw'r cyfartaleddau cenedlaethol neu'n gyfwerth â nhw ym mhob un o'r awdurdodau lleol a arolygwyd.

Roedd lles disgyblion a'u hagweddau at ddysgu yn dda neu'n well mewn tri awdurdod lleol, yn unol â'r cyfartaleddau cenedlaethol yng Nghaerdydd ac yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol yn Nhorfaen. Roedd lefelau presenoldeb ar gyfer y tair blynedd cyn y pandemig COVID-19 yn gyfwerth â'r cyfartaleddau cenedlaethol neu'n uwch mewn pedwar awdurdod lleol, ond yn is ym Merthyr Tudful. Ledled Cymru, mae lefelau presenoldeb disgyblion yn is yn 2021-2022 nag oeddent cyn pandemig COVID-19. Mewn ysgolion cynradd sy'n cael eu cynnal, roedd presenoldeb yn 2021-2022 yn 89%, o gymharu â 94.6% yn 2018-2019. Mewn ysgolion uwchradd sy'n cael eu cynnal, roedd presenoldeb yn 2021-2022 yn 83.7%, o gymharu â 93.8% yn 2018-2019.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddylanwadu ar waith gwasanaethau addysg a lleisio eu barn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymunedau. Er enghraifft, ar Ynys Môn, mae disgyblion wedi cyfrannu at arolwg 'dweud eich dweud', gan drafod eu profiadau o fyw ar Ynys Môn a chyfeirio at agweddau fel eu gobeithion ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Ym Merthyr Tudful, arweiniodd pobl ifanc ar ddatblygu fersiwn i bobl ifanc o strategaeth 'Codi Dyheadau, Codi Safonau' yr awdurdodau lleol ac, yn Abertawe, cyfrannodd disgyblion at recriwtio'r Cyfarwyddwr Addysg.



Gwasanaethau addysg

Ym mhob arolygiad, rydym yn gwerthuso **pa mor dda y cynorthwyodd awdurdodau lleol ysgolion i wella**. Mewn llawer o'r awdurdodau lleol a arolygwyd y llynedd, fe wnaethom ddarganfod fod swyddogion wedi meithrin perthynas waith gadarnhaol â'u consortiwm rhanbarthol. Cyfrannodd hyn at sicrhau bod prosesau i gynorthwyo ysgolion i wella yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer rhannu gwybodaeth am ysgolion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt a threfniadau'r 'Tîm o amgylch yr ysgol'. Yn yr achosion hyn, cydweithiodd swyddogion o'r gwasanaethau gwella ysgolion ag arweinwyr gwasanaethau awdurdod lleol, fel lles addysg a chynhwysiant, i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth gytûn a chadarn o gryfderau a diffygion pob ysgol. Helpodd y berthynas waith agos hon i swyddogion ymyrryd a chynnig cymorth y cyn gynted ag y nodwyd risg. Mewn gwasanaethau addysg lle mae prosesau gwella ysgolion yn wannach, roedd cyflymder y gwelliant mewn ysgolion sy'n peri pryder yn rhy araf. Roedd hyn yn rhannol oherwydd na wnaeth swyddogion yr awdurdod lleol herio swyddogion o'r gwasanaeth gwella ysgolion yn ddigon da ynghylch y cymorth mae ei ysgolion yn ei gael.

Yn Abertawe, fe wnaethom ddarganfod fod swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ag ysgolion i adnabod a chefnogi arweinwyr ysgolion y dyfodol, gan gynnwys ar gyfer ysgolion lle mae'n anoddach recriwtio o bryd i'w gilydd, fel ysgolion Catholig. Helpodd yr ymagwedd hon i sicrhau bod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn Abertawe yn gryf. Yn y cyfnod o dair blynedd cyn y pandemig, barnwyd bod gan y rhan fwyaf o'r ysgolion a arolygwyd yn Abertawe arweinyddiaeth a rheolaeth dda neu ragorol, sef proffil gwell nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Gallwch ddarllen am y gwaith hwn yn yr [astudiaeth achos yma](#).

Cynigiodd pob awdurdod lleol gymorth i ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm yn unol â gofynion y Cwricwlwm i Gymru. Yn aml, darparwyd y gwaith hwn trwy gonsortia rhanbarthol, er bod ychydig o awdurdodau lleol wedi ymgysylltu â mentrau ar ben y rhaglen genedlaethol o gymorth cwricwlaidd. Er enghraifft, yng Nghaerdydd, datblygodd swyddogion gwrs 'cyfrifiant yn y cwricwlwm' mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe. Roedd y cwrs hwn yn cynorthwyo ymarferwyr i ystyried cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer cyfrifiadura, yn gysylltiedig â gwyddoniaeth a thechnoleg. Ar Ynys Môn, roedd yr awdurdod yn rhan o grŵp gorchwyl a gorffen cenedlaethol a oedd yn gweithio ar ddiweddarau'r polisi addysg cydberthynas a rhywioldeb i gyd-fynd â'r gofynion newydd yn y Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid oedd cymorth cwricwlaidd wedi'i deilwra'n ddigon da i anghenion ysgolion unigol neu grwpiau o ysgolion, fel ysgolion arbennig a gynhelir. Ysgrifennom yn fanwl am ansawdd y cymorth i ysgolion gan awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ein hadroddiad yn 2022, [Y Cwricwlwm i Gymru: Sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion?](#)

Ym mhob arolygiad, rydym yn ystyried agwedd ar **ba mor dda mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo pobl ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n fregus**. Ym Merthyr Tudful, gwerthusom ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Fe wnaethom ddarganfod fod swyddogion yr awdurdod lleol wedi meithrin perthynas ag ysgolion wedi'i seilio ar gydymddiriedaeth a pharch a bod y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol i gefnogi anghenion disgyblion yn uchel eu parch ymhlith ysgolion. Yn Nhorfaen, fe wnaethom ddarganfod cryfderau yn y modd y mae'r awdurdod lleol yn cynorthwyo ei ysgolion a lleoliadau eraill i ddarparu ar gyfer disgyblion ag ADY. Roedd y rhain yn cynnwys cynnig cymorth ac arweiniad defnyddiol ar baratoi ar gyfer diwygio ADY a threfniadau sy'n cael eu deall yn dda ar gyfer atgyfeiriadau. Yng Nghaerdydd, gwerthusom y ddarpariaeth y gwnaeth yr awdurdod lleol i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg fel iaith ychwanegol. Fe wnaethom ddarganfod cryfderau yng nghymorth y cyngor i geiswyr lloches a ffoaduriaid, a lluniodd swyddogion astudiaeth achos am y gwaith hwn.

Cymorth Cyngor Caerdydd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches

Canfu arolygwyr fod Cyngor Caerdydd yn darparu lefel uchel o gymorth i geiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cyrraedd yr ardal. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer anghenion addysgol plant sy'n newydd gyrraedd trwy drefnu cyfleoedd dysgu iddynt yn gyflym. Er enghraifft, cyn pen pythefnos o gyrraedd y ddinas yn nhymor yr hydref 2021, cydlynodd swyddogion addysgu i grwpiau mawr o blant o Affganistan. Roedd hyn yn cynnwys ffoaduriaid a gafodd eu lletya yng Nghaerdydd cyn cael eu gwasgaru i rannau eraill o Gymru. Cydweithiodd yr awdurdod lleol ag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i ryddhau athrawon sy'n siarad ieithoedd perthnasol i gefnogi'r disgyblion hyn. Gallwch ddarllen mwy am y gwaith hwn [yma](#).

Gwnaethom argymhellion i dri awdurdod lleol wella agweddau ar eu gwasanaethau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion lles. Yng Nghaerdydd, roedd y ffocws ar wella effaith ddarpariaeth addysg ran-amser i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Yng Nghyngor Torfaen, roedd angen gwelliannau yn arweinyddiaeth y gwasanaethau i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a strategaeth y cyngor ar gyfer y gwaith hwn. Gwnaeth Cyngor Sir Powys gynydd da wrth fynd i'r afael â'r argymhelliad i wella ei ddarpariaeth i ddysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a disgyblion eraill y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Gallwch ddarllen am waith y Cyngor i wella gwerthuso, cynllunio a chydlynio ei ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr hyn [yma](#).

Y llynedd, adolygom **waith gwasanaethau ieuenctid** mewn tri awdurdod lleol fel rhan o drefniadau arolygu peilot. Fe wnaethom ddarganfod, trwy eu hymgysylltiad â gweithwyr ieuenctid a chymryd rhan mewn sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol, fod llawer o bobl ifanc yn gwella eu medrau cymdeithasol a'u hymwybyddiaeth o faterion ieuchyd. Gwellodd llawer ohonynt eu medrau ymarferol hefyd, er enghraifft trwy sesiynau cyfrwng Gymraeg a Saesneg ar sut i adeiladu go-certi moduro. Gwnaeth y rhan fwyaf o bobl ifanc a oedd yn cael cymorth addysgol targedig gan weithwyr ieuenctid gynydd gwerthfawr ac ennill cymwysterau defnyddiol.

Roedd y sector gwaith ieuenctid yn aml yn arloesol yn y modd y ceisiodd dyfu ddarpariaeth a chael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysgol pobl ifanc. Er enghraifft, datblygodd gwasanaeth ieuenctid Caerdydd arlwy digidol arloesol dan arweiniad pobl ifanc. Mae manylion am y gwaith hwn i'w weld [yma](#). Ym Merthyr Tudful, cyflwynodd gweithwyr ieuenctid raglenni a oedd yn galluogi disgyblion a dargedwyd i ennill cymwysterau perthnasol a chynorthwyo'r rhan fwyaf ohonynt i symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cam newydd yn eu haddysg neu gyflogaeth, sy'n cael ei nodi yn yr [astudiaeth achos](#) hon a luniwyd gan yr awdurdod lleol. Ariannodd gwasanaeth ieuenctid Torfaen seicolegydd addysg i gefnogi gweithwyr ieuenctid a llywio eu harfer, gan gynnwys hyfforddiant ar sut i ddefnyddio ymagweddau therapiwtig ymddygiadol gwybyddol i ddarparu ymyriadau i bobl ifanc.

Cameo: Gwasanaethau ieuencid awdurdod lleol Torfaen

Mae Seicolegydd Addysg (SA) yn cynnig cymorth i Wasanaeth Ieuencid Torfaen ar dair lefel: unigol, grŵp a systematig. At lefel unigol, mae'r SA yn cynnig ymgynghoriad un-i-un i uwchsgilio a grymuso gweithwyr ieuencid, sy'n cynnwys eu cynorthwyo i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc. Ar lefel grŵp, mae'r SA yn cynnig sesiynau myfyrio wythnosol, gweithdai ar sail thema wedi'u hysbrydoli gan faterion cyfredol a sesiynau galw heibio i drafod pobl ifanc neu grwpiau penodol. Ar lefel systematig, mae'r SA yn cynnig hyfforddiant perthnasol ar bynciau fel ymagweddau wedi'u llywio gan drawma neu ddefnyddio gweithgareddau seicolegol penodol i gael barn pobl ifanc. Lle y bo'n briodol, mae'r SA yn cysylltu ag asiantaethau eraill i ddarparu hyfforddiant pwrpasol perthnasol.

At ei gilydd, roedd y gwasanaethau gwaith ieuencid awdurdodau lleol a arolygom yn cynnig cymorth gwerthfawr i bobl ifanc trwy ddarpariaeth dargedig, allgymorth a mynediad agored. Roedd gweithwyr ieuencid yn darparu cymorth buddiol iawn i ieuchyd a lles emosiynol pobl ifanc. Er enghraifft, roeddent yn cynnig cymorth effeithiol a sensitif i ofalwyr ifanc, pobl ifanc fregus a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i'w helpu i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llwyddiannus a boddhaus yn y gymdeithas. Maent yn cynnig cymorth da i bobl ifanc LHDTC+ yn ôl yr angen. Roedd targedu meysydd â blaenoriaeth ar sail anghenion economaidd-gymdeithasol yn effeithiol o ran bodloni anghenion y bobl ifanc hynny. Fodd bynnag, roedd y targedu hwn yn cyfyngu ar gyfleoedd i bobl ifanc o bob cefndir elwa ar ddarpariaeth gwaith ieuencid neu'r cymorth a ddarperir gan weithwyr ieuencid.

Yn yr holl awdurdodau lleol a arolygwyd, roedd enghreifftiau da o weithwyr ieuencid unigol a oedd yn medru'r Gymraeg a oedd yn ymgysylltu'n dda â phobl ifanc Cymraeg eu hiaith ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau iaith y tu allan i leoliadau ysgol ffurfiol. Yn yr enghreifftiau gorau, roeddent yn normaleiddio defnyddio'r iaith mewn gweithgareddau a oedd yn apelio at bobl ifanc. Fodd bynnag, at ei gilydd, roedd cynllunio strategol a phwrpasol i gynyddu'r defnydd o'r iaith trwy arlwy cynlluniedig rhagweithiol naill ai'n annatblygedig neu yn y camau cynnar o'u datblygu.

Cydweithiodd arweinwyr gwaith ieuencid yn effeithiol ag adrannau eraill yr awdurdod lleol a sefydliadau partner, gan gynnwys y sector gwirfoddol, i sicrhau darpariaeth eang sy'n esblygu i fodloni anghenion pobl ifanc. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd arweinwyr yn arloesol yn y modd y cawsant gyllid ychwanegol i gynnal a thyfu arlwy eu gwaith ieuencid i bobl ifanc. Gwnaethant fonitro ansawdd darpariaeth gwaith ieuencid yn effeithiol ac ymgynghori'n dda â phobl ifanc i asesu'r gwasanaethau maent yn manteisio arnynt a sicrhau bod eu llais yn dylanwadu ar benderfyniadau polisi.

Ym Merthyr Tudful, gwerthusom waith y gwasanaeth addysg i leihau effaith tlodi a difreintedd ar ddysgu disgyblion. Fe wnaethom ddarganfod fod swyddogion wedi meithrin partneriaethau gwerthfawr trwy rwydwaith o wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol a sefydliadau'r trydydd sector. Sefydlodd yr awdurdod lleol Grŵp Strategol Trechu Tlodi i gynniw arweinyddiaeth a llywodraethu ar gyfer y gwaith hwn. Mae'r grŵp yn cynnwys penaethiaid gwasanaeth ar draws yr awdurdod lleol ac ystyriodd sut y gellid defnyddio adnoddau mewn modd bwriadus i fynd i'r afael â difreintedd trwy waith trawsgyfarwyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth. Ar draws gwasanaethau, roedd gan swyddogion yr awdurdod lleol drosolwg cynhwysfawr o anghenion dysgwyr bregus a'u teuluoedd.

Ar lefel weithredol, cydweithiodd arweinwyr gwasanaethau ar draws cyfarwyddiaethau â'i gilydd yn dda. Mae ganddynt dealltwriaeth glir o sut mae eu darpariaeth yn rhan o ymateb amlwasanaeth i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar addysg. Mae'r Hwb Cymorth Cynnar yn cynnig man cyswllt canolog defnyddiol i deuluoedd fanteisio ar gymorth ac yn hwyluso gwaith amlasiantaeth effeithiol. Mae'r dull hwn yn osgoi dyblygu gwasanaethau'n ddiangen ac yn helpu plant a'u teuluoedd i gael y cymorth priodol ar gyfer eu hanghenion mewn modd amserol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae

atgyfeiriadau o ysgolion i'r Hwb Cymorth Cynnar wedi dyblu. Roedd ffocws cryf ar leihau effaith tlodi ar draws holl gyfarwyddiaethau'r cyngor yn Abertawe hefyd. Adlewyrchwyd y flaenoriaeth hon yng ngwaith yr holl dimau yn y gyfarwyddiaeth addysg. Trwy gymryd rhan yn fforwm tlodi'r awdurdod, mae swyddogion y tîm addysg wedi gallu ystyried y ffordd orau i gefnogi ysgolion, er enghraifft trwy rannu gwybodaeth am ddefnyddio undebau credyd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cryfhodd y cymorth i gymunedau addysg gan arweinwyr awdurdodau lleol ac aelodau etholedig yn ystod pandemig COVID-19 y berthynas rhwng gwasanaethau addysg ac ysgolion. Bu hyn yn fuddiol o ran meithrin ymddiriedaeth a hyder ymhlith rhanddeiliaid yng ngwaith swyddogion mewn gwasanaethau addysg wrth i ysgolion a darparwyr addysg eraill ddychwelyd i ffyrdd mwy arferol o weithio. Ar Ynys Môn, cefnogodd y perthnasoedd gwell hyn ymgysylltiad gwell i drafod a chasglu safbwyntiau ar faterion sensitif, er enghraifft ar ad-drefnu ysgolion yn ardal Llangefni, gyda thrafodaethau'n arwain at gynnig gwahanol i'r un a gyflwynwyd yn wreiddiol.

Yng Nghaerdydd, cydweithiodd cadeirydd y pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn effeithiol â'r pedwar cadeirydd craffu arall, gan sicrhau bod addysg wrth wraidd penderfyniadau yn ymwneud â COVID-19. Aliniodd cyfarwyddwr cynorthwyol addysg Caerdydd a'i gydweithiwr sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch eu gwaith yn effeithiol ar hyd y pandemig. O ganlyniad, roedd gwasanaethau addysg yn gallu ymateb yn gyflym i anghenion ysgolion a darparwyr addysg eraill wrth i'r sefyllfa o ran COVID-19 newid. Cafodd y gefnogaeth hon ei chroesawu'n fawr gan arweinwyr ysgolion a lleoliadau.

Y llynedd, fe wnaethom ddarganfod fod craffu ar wasanaethau addysg yn gadarn mewn llawer o awdurdodau lleol. Yn Abertawe, mae'r panel craffu ar addysg yn ymgysylltu'n dda ag ysgolion ac yn cynnwys safbwyntiau disgyblion ac arweinwyr ysgolion wrth werthuso eitemau agenda sy'n dod ger eu bron, lle bo hynny'n briodol. Yng Nghaerdydd, mae'r pwyllgor craffu plant a phobl ifanc yn cynnig craffu cryf ac amserol ar nifer o faterion perthnasol y mae addysg yn yr awdurdod lleol yn eu hwynebu, gan gynnwys cynigion sensitif yn ymwneud ag ad-drefnu ysgolion. Mae aelodau'r pwyllgor yn mynd ar drywydd meysydd â ffocws ac yn ysgrifennu at yr aelod cabinet i fynegi eu harsylwadau ynghyd ag argymhellion sy'n cynnig her addas. Fodd bynnag, ym Merthyr Tudful, nid yw aelodau'r pwyllgor craffu ar wasanaethau addysg llywodraeth leol yn cynnig her ddigon cadarn i'r aelod cabinet na swyddogion i sicrhau atebolrwydd digonol na hyrwyddo gwelliant.

Y llynedd, paratôdd awdurdodau lleol eu Cynlluniau Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (CSGA) ar gyfer y cyfnod o 10 mlynedd rhwng 2022 a 2032. Mae ansawdd ac uchelgais y cynlluniau hyn yn amrywiol'n fawr. Mae'r cynlluniau gorau yn ffiniog ac yn glir ynghylch eu nodau, ac maent yn cynnig sicrwydd ynghylch gweithredu. Mae cynlluniau llai llywyddiannus yn brin o uchelgais a manylion gweithredu.

Mae'r amrywiad ledled Cymru o ganlyniad i'r cyd-destun ieithyddol a phatrwm strwythurol darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, i ryw raddau. Er enghraifft, yn y de-ddwyrain a'r gogledd-ddwyrain, yr arfer yw bod ag ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg dynodedig ac nid oes llawer o amrywiad i'r trefniant hwn. Yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin, mae patrymau cymhleth o ysgolion cyfrwng Cymraeg ynghyd â chontinwdd o drefniadau amrywiol o ran darpariaeth.

Yn y de-ddwyrain, mae cyfeiriadau at gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn bennaf yn gyfyngedig. Mae cynlluniau'n amlgu nodau naill ai i lenwi'r lleoedd gwag sy'n bodoli eisoes yn y sector addysg cyfrwng Cymraeg neu agor ysgolion newydd mewn ardaloedd sy'n llai hygyrch i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd.

Mewn awdurdodau lleol yn y de-orllewin a'r gogledd-orllewin, mae'r darlun yn fwy cymysg. Mae pum awdurdod lleol yn datgan yn glir eu dyhead i gynyddu darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion sy'n rhai cyfrwng Saesneg yn bennaf neu sydd â ffrwd Gymraeg. Er enghraifft, yn ei gynllun, mae Ceredigion yn nodi'r camau tuag at sicrhau bod chwech o'r saith ysgol uwchradd yn cynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn sylweddol.

yn ystod cyfnod deng mlynedd y CSCA. Mae'n nodi'r camau tuag at wireddu'r nodau hyn, er enghraifft trwy ymgysylltu â chyrff llywodraethol yr ysgolion hynny fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol.

Yn yr awdurdodau lleol a arolygom, gwerthusom gynnydd yr awdurdodau lleol o ran cyflawni eu cynlluniau blaenorol ar gyfer datblygu'r Gymraeg mewn addysg. Ym Merthyr Tudful, datblygodd swyddogion gynllun gweithredu o'u strategaeth Cymraeg i hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg a gwella safonau Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Nod y strategaeth yw creu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn rhan fwy o fywyd pob dydd pobl ym Merthyr Tudful – sef 'shwmaeronment'. Yng Nghaerdydd, mae swyddogion ac aelodau etholedig wedi buddsoddi mewn ystod addas o brosiectau cyfalaf i gynyddu nifer y lleoedd mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chydabod yr angen i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio lleoedd ysgol i sbarduno galw am addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y ddinas.

Yn Nhorfaen, fe wnaethom ddarganfod fod yr awdurdod lleol wedi rhoi mwy o ffocws ar ddatblygu ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae digon o leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg i fodloni'r galw uniongyrchol a thwf yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr sy'n dymuno manteisio ar ddarpariaeth ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu manteisio ar yr un amrediad o gyrsgiau â'r rhai sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg. Mewn tri o'r awdurdodau lleol, gwnaethom argymhellion yn ymwneud â sicrhau bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol yn bodloni anghenion dysgwyr yn eu hawdurdodau. Ysgrifennom yn fanwl am effeithiolrwydd defnydd awdurdodau lleol o addysg drochi Cymraeg fel modd o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn ein hadroddiad, [Addysg Drochi Cymraeg – Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed](#).

Y llynedd, yn unol â blynyddoedd blaenorol, fe wnaethom ddarganfod wendidau ym mhrosesau hunanwerthuso awdurdodau lleol, yn enwedig ar lefel meysydd gwasanaeth. Nid yw swyddogion yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael iddynt i gefnogi eu prosesau gwerthuso yn ddigon da nac yn pennu meini prawf llwyddiant digon manwl i fesur llwyddiant yn eu herbyn. Mae hyn yn golygu nad yw prosesau gwerthuso yn ddefnyddiol i awdurdodau lleol o ran nodi meysydd i'w gwella â blaenoriaeth. Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â gwella prosesau hunanwerthuso mewn pedwar o'r gwasanaethau addysg llywodraeth leol y gwnaethom eu harolygu y llynedd. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu sbardunau hunanfyfrio i gynorthwyo swyddogion mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol i werthuso eu gwaith.

Ym mhob awdurdod lleol a arolygwyd y llynedd, fe wnaethom ddarganfod fod cynghorau wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg. Er enghraifft, ym Merthyr Tudful, cynyddodd a diogelodd yr awdurdod lleol ei gyllideb addysg ar adeg o bwysau cyllidebol ar draws yr awdurdod ac, ar gyfer 2021-2022, cynyddodd ei gyllideb addysg uwchlaw'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, cynyddodd cronfeydd wrth gefn cyffredinol ysgolion yn sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2020-2021, yn bennaf oherwydd y cyllid ychwanegol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Serch hynny, mae ychydig o ysgolion yn yr awdurdodau lleol a arolygwyd gennym yn rhagweld diffygion ariannol yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf. Cydweithiodd timau cyllid awdurdodau lleol yn effeithiol i fonitro cyllidebau ysgolion a chynorthwyo ysgolion i reoli gwargedion neu ddiffyg yn y gyllideb.

Yn ystod y cylch arolygiadau cyfredol, rydym wedi canolbwyntio'n agosach ar y diwylliant diogelu mewn gwasanaethau addysg awdurdodau lleol. Mewn llawer o awdurdodau lleol, fe wnaethom ddarganfod fod dealltwriaeth gorfforaethol gref fod diogelu o bwys i bawb. Yn yr awdurdodau hyn, mae uwch aelodau staff yn ymgymryd â rôl swyddogion diogelu dynodedig ac yn rhoi arweiniad clir i ysgolion a lleoliadau ar bolisiau ac arferion i gadw dysgwyr yn ddiogel. Fodd bynnag, yn awdurdod lleol Torfaen, fe wnaethom ddarganfod nad oedd gan aelodau etholedig drosolwg ddigon cryf o ddiogelu mewn addysg.



Adroddiad sector: Addysg bellach 2021-2022

Darparwyr

12

Mae 12 o golegau addysg bellach yn darparu cyrsiau addysg bellach yng Nghymru. Mae llawer ohonynt ar nifer o safleoedd ar draws ardal ddaearyddol eang.

Mae mwyafrif yn gweithredu o dan strwythur grŵp, gyda hunaniaethau coleg ar wahân ar gyfer safleoedd unigol neu glystyrau safleoedd rhanbarthol. Mae ychydig o golegau yn gweithredu fel is-gyrff ym mherchnogaeth lwyr sefydliadau addysg uwch.

Dysgwyr mewn sefydliadau addysg bellach (SABau)

90,395

Holl ddysgwyr AB mewn SABau
(2019-2020: 94,220 -3%)

8.8%

Dysgwyr mewn SABau gyda chefnidiroedd Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol
(2019-2020: 8.5%)

47,590

Dysgwyr AB amser llawn
(2019-2020: 46,290 +3%)

12.4%

Dysgwyr mewn SABau a nododd fod ganddynt "anabledd a/neu anhawster dysgu"
(2019-2020: 13.6%)

42,805

Dysgwyr AB rhan-amser
(2019-2020: 47,930 -11%)

Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: **2**

Oherwydd y pandemig COVID-19, dim ond ym Mawrth 2022 yr ail-ddechreuodd arolygiadau craidd.

[Coleg Penybont](#)
[Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion](#)

Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: **4**

Colegau ag astudiaethau achos:

[Coleg Penybont 1](#)
[Coleg Penybont 2](#)
[Coleg Sir Gar \(Coleg Ceredigion\) 1](#)
[Coleg Sir Gar \(Coleg Ceredigion\) 2](#)

Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau: **12**

Cynhaliwyd yr holl ymweliadau ymgysylltu rhwng Medi a Rhagfyr 2021.

[Hydref 2021 – Adroddiad Cryno AB](#)

Gweithgarwch Dilynol

Nid oes unrhyw golegau addysg bellach mewn dilyniant ar hyn o bryd.



Adroddiad sector: Addysg bellach 2021-2022

Dysgu

Ym mis Medi 2021, roedd ôl-groniad o asesiadau galwedigaethol anghyflawn, yn enwedig ar gyfer cyrsiau yr oedd angen lleoliadau gwaith arnynt, fel gofal plant ac iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd cyfyngiadau'r pandemig. Pan wnaethom arolygu nes ymlaen yn y flwyddyn, roedd llawer o ddysgwyr yn gweithio'n llwyddiannus tuag at gyflawni'u cymwysterau. Mewn gwrsi a sesiynau ymarferol, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol o leiaf, ac roedd llawer yn cynhyrchu gwaith o safon uwch. Yn yr achosion gorau, roedd dysgwyr yn ymateb yn dda i adborth gan eu hathrawon, gan ailystyried eu dysgu a gwella eu gwaith.

Mewn dosbarthiadau, mae llawer o ddysgwyr yn galw dysgu diweddar i gof yn effeithiol ac mae mwyafrif yn cymhwyso'u dysgu i gyd-destunau newydd yn dda. Mae llawer o ddysgwyr yn ymgysylltu, yn cefnogi ac yn herio'i gilydd mewn trafodaethau grŵp, ac yn ymateb yn dda i gwestiynau llafar ynglŷn â'u gwaith.

Yn ystod ein harolygiadau craidd, fe wnaethom nodi fod mwyafrif o ddysgwyr yn dechrau eu cyrsiau o fan cychwyn is na fyddid wedi disgwyl. Yn gyffredinol, nid oedd gwybodaeth ar medrau'r dysgwyr hyn mor gryf â charfanau tebyg cyn y pandemig, gan adlewyrchu'r tarfu ar eu dysgu blaenorol. Yn benodol, nid oedd medrau rhifedd a mathemategol ehangach dysgwyr wedi datblygu gystal â charfanau blaenorol, ac nid oedd llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd digonol wrth ddatblygu'u medrau rhifedd. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod mwy o ddysgwyr na'r arfer yn dechrau'r coleg gyda chymwysterau Saesneg a mathemateg TGAU ar radd C neu'n uwch, a bod angen i lai ailsefyll eu harholiadau. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo athrawon mewn addysg bellach i ddatblygu medrau rhifedd dysgwyr mewn cyd-destun galwedigaethol.

Dywedodd llawer o ddysgwyr oedd yn astudio cymwysterau a oedd yn golygu sefyll arholiadau allanol eu bod yn arbennig o bryderus ynglŷn â sefyll yr arholiadau, yn enwedig gan nad oedd llawer wedi sefyll unrhyw arholiadau allanol yn ystod Blynyddoedd 10 ac 11 oherwydd y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Roedd dysgwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfleoedd i ymarfer tasgau ysgrifennu estynedig ac ymgymryd ag arholiadau ffug fel rhan o'u paratoi ar gyfer asesiadau allanol. Dywedodd dysgwyr eraill eu bod yn teimlo eu bod wedi colli allan ar gyfleoedd pwysig i ymgymryd â sesiynau ymarferol yn ystod cyfyngiadau cyfnodau clo, a theimlent, er y dychwelwyd i addysgu wyneb yn wyneb eleni, nad oeddent mor hyderus ag y byddent wedi gobeithio bod ynglŷn â gwaith ymarferol a'u gallu i ymdopi ar raglenni lefel uwch.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)



Lles ac agweddau at ddysgu

Trwy gydol ein gweithgarwch ymgysylltu, dywedodd y rhan fwyaf o golegau wrthym fod niferoedd uwch o lawer o ddysgwyr yn wynebu heriau gyda materion iechyd meddwl nag mewn blynyddoedd blaenorol. Effeithiwyd yn niweidiol ar les dysgwyr gan y pandemig, ac wynebodd llawer ohonynt heriau yn deillio o ystod eang o faterion lles, profedigaeth a digartrefedd. Effeithiodd hyn ar eu hunan-barch a'u hyder, ac ar eu cyfranogiad ac ymgysylltiad â'u dysgu.

Yn ein harolygiadau craidd eleni, fe wnaethom ddarganfod fod nifer y dysgwyr a oedd yn ceisio cymorth ar gyfer eu lles emosiynol a'u hiechyd meddwl wedi cynyddu'n sylweddol o ganlyniad i'r pandemig COVID-19. Fe wnaeth dysgwyr elwa o gael ystod gynhwysfawr o gymorth lles i drafod y materion hyn. Teimlai'r rhan fwyaf o ddysgwyr fod y cymorth a gawsant wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w lles, gwydnwch a'u gallu i gynnal a gwneud cynnydd yn eu dysgu.

Dangosodd llawer o ddysgwyr archwaeth cryf i ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb yn y coleg ac i elwa o'r agweddau cymdeithasol ar fywyd coleg. Roedd llawer yn ymgysylltu'n dda â'r ddarpariaeth ychwanegol yr oedd colegau wedi'i rhoi ar waith i ddatblygu'u gwybodaeth ehangach, medrau ymarferol, datblygiad personol, a medrau cyflogadwyedd yn sgil y pandemig.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Roedd y rhan fwyaf o golegau yn cynnig cyrsiau addysg gyffredinol amser llawn a chysiau galwedigaethol yn ychwanegol at ystod helaeth o gyrsiau rhan-amser. Roeddent yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth ar lefelau gwahanol. Darparodd hyn gyfleoedd dilyniant wedi'u cynllunio'n dda i ddysgwyr at gyrsiau lefel uwch, addysg uwch neu brentisiaethau.

Erbyn dechrau 2021-2022, dychwelodd yr holl golegau i gyflwyno darpariaeth wyneb yn wyneb ar y safle yn bennaf. Roedd hyn yn adlewyrchu dewis clir y rhan fwyaf o'r dysgwyr a'r staff. Fe wnaeth bron yr holl golegau gadw ychydig o agweddau ar ddarpariaeth ar-lein neu ddarpariaeth gyfunol. Soniodd ychydig o golegau am enghreifftiau lle bu parhau â dull cyfunol yn fuddiol i ddysgwyr. Er enghraifft, mewn un coleg, mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd digidol dysgwyr yn fedrus yn eu pynciau galwedigaethol neu academaidd. O ganlyniad, mae dysgwyr yn dangos lefelau uchel o gymhwysedd wrth ddefnyddio llwyfannau digidol i storio, cofnodi, trefnu ac olrhain eu dysgu eu hunain. Roedd sail resymegol glir ar gyfer y dull hybrid gan bron yr holl golegau, er nad oedd hyn yn cael ei gyfleu'n ddigon clir i ddysgwyr mewn ychydig o achosion.

Roedd bron yr holl athrawon yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn adeiladu perthnasoedd cadarnhaol a oedd yn meithrin dysgu. Roeddent yn cynorthwyo dysgwyr i wneud cynnydd priodol o leiaf tuag at gyflawni'u cymwysterau neu nodau dysgu. Fe wnaeth llawer o athrawon golli cyfleoedd i adeiladu datblygu medrau llythrennedd a rhifedd i'w dosbarthiadau ac eithrio drwy wersi medrau wedi'u trefnu'n benodol.

Cynyddodd y rhan fwyaf o golegau y cyfleoedd cyfoethogi wyneb yn wyneb a oedd ar gael ar gyfer dysgwyr wrth i gyfyngiadau'r pandemig lacio. Roedd y rhain yn cynnwys gweithgareddau fel rhaglenni academi yn gysylltiedig â chwaraeon a diddordebau eraill, cystadlaethau medrau, siaradwyr gwadd, ymweliadau addysgol a rhaglenni cyfnewid dysgwyr.

Cameo: Mae dysgwyr medrau byw yn annibynnol yng Ngholeg Penybont yn elwa o llwybrau dysgu clir

Mae ehangder y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol ac ystod y rhaglenni dysgu yng Ngholeg Penybont yn darparu llwybrau addas a realistig i waith ar gyfer dysgwyr medrau byw yn annibynnol, cael mynediad i'r gymuned a datblygu annibyniaeth. Mae'r cwricwlwm wedi'i seilio ar bedwar llwybr ac un llwybr interniaeth a gefnogir. Dyrennir llwybrau i ddysgwyr wedi'u seilio ar eu dyheadau a'u hanghenion dysgu, a nod y dysgu yw cefnogi proses asesu bersonoledig, heb ei hachredu. Rhoddir cyfle i ddysgwyr ag anawsterau dysgu cymedrol ymgymryd â phrofiad gwaith ystyrlon sy'n cefnogi cynnydd tuag at ddyheadau gwaith tymor hwy. Yn 2020-2021, o ganlyniad i'r cyfleoedd hyn, llwyddodd pob un o'r dysgwyr ar interniaethau a gefnogir i sicrhau swydd gyflogedig amser llawn.

Roedd colegau'n cynllunio'u hasesiadau a'u cwricwlwm yn ofalus gan ddisgwyl i arholiadau allanol ddychwelyd, tra'n cynnal trefniadau wrth gefn rhag ofn y byddai tarfu pellach. Fe wnaeth llawer gynorthwyo a pharatoi dysgwyr ar gyfer asesiadau allanol drwy gynyddu mynychder asesiadau mewnol ffurfiol a sicrhau bod cynnydd dysgwyr yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Teimlai arweinwyr coleg nad oeddent yn cael arweiniad amserol a chlir gan sefydliadau dyfarnu, ac fe wnaethant fynegi pryder arbennig ynglŷn â gwahaniaethau rhwng addasiadau i drefniadau asesu ar gyfer rhaglenni academaidd a galwedigaethol.

Yn ystod y flwyddyn, edrychom hefyd ar y cyfleoedd cwricwlwm cyffredinol ar draws ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith i ddysgwyr 16 i 19 ledled Cymru. Fe wnaethom ddarganfod fod gormod o amrywiaeth yn y cyfleoedd i bobl ifanc, gan ddibynnu ar ble roeddent yn byw. Gallwch ddarllen mwy am ein canfyddiadau [yma](#).

Gofal, cymorth ac arweiniad

Yn ein dau arolygiad craidd fel ei gilydd, fe wnaethom ddarganfod fod y colegau'n cynorthwyo'u dysgwyr yn dda yn gyffredinol trwy gydol eu cyfnod yn y coleg. Roedd hyn yn cynnwys darparu cymorth yn ystod cyfnod pontio dysgwyr i'r coleg a thrwy gydol eu rhaglen ddysgu, yn ogystal â chynorthwyo dilyniant i mewn i addysg bellach neu gyflogaeth. Yn gyffredinol, roedd trefniadau pontio a chymorth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn cael eu rheoli'n dda.

Roedd llawer o golegau'n darparu cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ymweld â'r coleg fel rhan o weithgareddau ymgylfarwyddo a pharatoi cyn rhaglenni ymsefydlu ffurfiol. Mabwysiadodd y rhan fwyaf o golegau ymagwedd systematig at asesiadau cychwynnol a diagnostig o anghenion medrau llythrennedd a rhifedd ar gyfer yr holl ddysgwyr.

Nododd y rhan fwyaf o golegau gynnydd sylweddol yn yr angen am gymorth lles ar gyfer dysgwyr yn ystod y pandemig. Defnyddiwyd cyllid dros dro gan lawer i gyflogi staff lles ychwanegol. Gweithiai'r staff hyn ochr yn ochr ag athrawon a thiworiaid i nodi a darparu cymorth gyda materion a allai fod yn effeithio ar les, presenoldeb a chynnydd dysgwyr. Darparwyd amrywiaeth o gymorth lles buddiol i ddysgwyr, gan gynnwys cwnsela, mentora a gweithdai.



Cameo: Mae Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn gwneud defnydd effeithiol o system integredig ar gyfer gosod targedau ac olrhain cynnydd dysgwyr

Mae'r adran anghenion dysgu ychwanegol yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion wedi datblygu proses sgrinio ac asesu ddefnyddiol i helpu nodi anghenion dysgwyr unigol a llywio penderfyniadau ar opsiynau cymorth sydd ar gael. Mae'r holl ddysgwyr yn cael cyfnod ymsefydlu dysgu a chymorth yn ystod pythefnos cyntaf eu cwrs, ac maent wedyn yn ymgymryd â phroses sgrinio ar-lein. Mae'r broses asesiad sgrinio a diagnostig yn cwmpasu rheoli amser, darllen, gwaith ysgrifenedig, cof, canolbwyntio a threfnu, medrau cymdeithasol a chyfathrebu, prosesu synhwyrdd, anawsterau dysgu, cyflyrau meddygol a chyflyrau iechyd a threfniadau arholiadau blaenorol. Defnyddir deilliannau'r broses hon i greu proffiliau dosbarth defnyddiol ar gyfer yr holl athrawon a helpu llywio arfer athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

[Astudiaeth achos llawn](#)

Roedd cael cyngor ac arweiniad diduedd yn parhau yn her i lawer o ddysgwyr wrth iddynt adael yr ysgol a symud ymlaen at addysg ôl-16. Amlygodd ein hadroddiad ymgysylltu [Gwaith ymgysylltu – diweddariad am y sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned – hydref 2021](#) fod dysgwyr wedi adrodd nad oedden nhw'n ddigon ymwybodol o ystod yr opsiynau dilyniant trwy wybodaeth neu arweiniad cyn gwneud cais i goleg. Teimlai ychydig o ddysgwyr fod y cyngor a roddwyd gan eu hysgolion wedi canolbwyntio'n bennaf ar eu hannog i symud ymlaen i chweched dosbarth yr ysgolion eu hunain. Nid yw trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng darparwyr wedi'u ffurfioli bob amser. Mae hyn yn golygu y gofynnir i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr yn aml ddatgelu'r un wybodaeth ar amryfal achlysuron pan fyddant yn symud ymlaen at ddarpariaeth newydd.

Roedd dealltwriaeth dysgwyr o faterion yn gysylltiedig â radicaleiddio ac eithafiaeth yn rhy amrywiol ar draws colegau ac o fewn colegau. Yn y ddau arolygiad coleg, fe wnaethom ddarganfod nad oedd llawer o ddysgwyr yn gallu cofio neu ddangos dealltwriaeth o faterion yn gysylltiedig â radicaleiddio ac eithafiaeth. Nid oedd deunyddiau tiwtorial yn ymwneud â'r materion hyn wedi'u haddasu bob amser i ddiwallu anghenion yr holl ddysgwyr.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Parhaodd arweinwyr a rheolwyr i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau parhaus yn sgil y pandemig COVID-19 a llacio cyfyngiadau cysylltiedig yn raddol. Parhaont i roi pwys mawr ar gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr a staff. Defnyddiwyd cyllid

ychwanegol Llywodraeth Cymru gan y rhan fwyaf o golegau i fuddsoddi mewn adnoddau defnyddiol i wella lles dysgwyr ac i ddarparu gallu ychwanegol i olrhain a chefnogi lles dysgwyr.

Defnyddiodd colegau gyllid Llywodraeth Cymru o dan y Cynllun Adfer COVID-19, Adnewyddu a Diwygio i gynorthwyo dysgwyr i bontio i'r coleg. Hefyd, parhaodd y rhan fwyaf o golegau i fuddsoddi i gryfhau eu gallu digidol ac uwchsgilio staff i ddefnyddio technoleg yn effeithiol i gefnogi addysgu, dysgu ac asesu.

Cameo: Mae staff yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion yn elwa o ystod ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol i helpu gwella'u medrau digidol

Yn ystod y pandemig COVID-19, ymatebodd arweinwyr colegau'n gyflym i'r angen i ddatblygu medrau digidol staff er mwyn parhau i gyflwyno dysgu mewn amgylchedd dysgu digidol. Mae'r coleg wedi cryfhau ei ddarpariaeth dysgu proffesiynol. Mae arweinwyr wedi datblygu ystod gynhwysfawr o lwybrau dysgu ar gyfer staff sy'n cyflwyno hyfforddiant teilwredig, wedi'i fentora, ac mae'r coleg yn annog yr holl staff i gymryd rhan ynddo. Mae hyn yn cynnwys rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr ar gyfer llywodraethwyr newydd, a rhaglen ar gyfer staff addysgu i ddatblygu eu medrau rheoli.

Mae ymagwedd y coleg at ddatblygiad proffesiynol yn annog staff i fyfyrio ar eu cryfderau a'u medrau, a'u cofnodi, gan ddarparu fframwaith gwerthfawr i reolwyr i drafod arfer dda ac anghenion gwella. Gall staff naill ai ddewis i'w perfformiad gael ei werthuso trwy arsylwadau ffurfiol neu gefnogi datblygiad ei gilydd mewn grwpiau bach.

[Astudiaeth achos llawn](#)

Fe wnaeth y rhan fwyaf o golegau ddiwygio'u trefniadau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yng ngoleuni'r heriau yn deillio o'r pandemig. Hefyd, dechreuodd llawer o golegau wneud mwy o ddefnydd o asesu cymheiriaid a chymorth mentora fel rhan o'u strategaethau i wella ansawdd addysgu.

Mae effeithiau'r pandemig wedi cyflymu'r heriau recriwtio yr oedd llawer o golegau eisoes yn eu hwynebu. Gwelodd llawer o golegau gynnydd mewn trosiant staff, ac adroddont am anawsterau o ran recriwtio staff i ychydig o rolau addysgu a chymorth arbenigol. Mynegodd bron yr holl arweinwyr anawsterau wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg. Hefyd, dywedwyd bod recriwtio staff i rolau sy'n talu cyflogau is, fel cynorthwywyr cymorth dysgu a staff ategol, yn arbennig o heriol.

Adroddiad sector: Dysgu yn y gwaith 2021-2022

Darparwyr

10

Nifer y darparwyr 2022: 10

Nifer y darparwyr 2021: 17

Mae'r gostyngiad yn nifer y darparwyr dysgu yn y gwaith yn sgil contract newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu rhaglenni prentisiaeth yn dechrau ym mis Awst 2021.

O'r 10 darparwr, mae chwech yn golegau addysg bellach a phedwar yn ddarparwyr hyfforddiant annibynnol. Mae'r darparwyr hyn yn gweithio gydag ystod o ddarparwyr hyfforddiant eraill gan ddefnyddio trefniadau consortia, trefniadau partneriaeth a threfniadau is-contractio i ddarparu hyfforddiant ar raglenni prentisiaeth ar bob lefel.

Dysgwyr

46,040

Nifer dysgwyr ar brentisiaethau

9,415

Nifer y dysgwyr ar brentisiaethau uwch

20,220

Nifer y dysgwyr lefel 3

16,405

Nifer y dysgwyr lefel 2 (prentisiaeth sylfaen)

5,695

Nifer y dysgwyr mewn hyfforddeiaethau a rhaglenni eraill DYG

Darpariaeth

Mae prentisiaid yn cael eu cyflogi ac yn gweithio mewn ystod eang o alwedigaethau. Mae prentisiaethau ar gael ar lefel 2 a 3, a lefelau prentisiaeth uwch (lefel 4 ac uwch). Mae dysgwyr sy'n ymgymryd â phrentisiaethau yn aelodau amser llawn o staff eu cyflogwr. Yn gyffredinol, mae rhaglenni prentisiaeth yn cymryd dwy i dair blynedd i'w cwblhau.

Mae prentisiaid yn mynd i mewn i'w hyfforddiant ar lefelau gwahanol gan ddibynnu ar y swydd, eu profiad blaenorol ac anghenion cyflogwyr. Yn ogystal â datblygu eu medrau'n gysylltiedig â swydd yn y gweithle, mae prentisiaid yn gweithio tuag at gyflawni cyfres o gymwysterau cydnabyddedig.

Ymweliadau â darparwyr prentisiaethau

O fis Tachwedd 2021 hyd fis Gorffennaf 2022, cynhaliom ymweliadau â phob un o'r 10 darparwr prentisiaethau. Arweiniodd pob ymweliad at lythyr cyhoeddedig.

[Esbonio dysgu yn y gwaith](#)

Rhaglenni cyflogadwyedd ar gyfer y rhai 16 i 18 oed

Roedd y contract ar gyfer darparwyr hyfforddiant i gyflwyno rhaglenni hyfforddeiaethau ac ymgysylltu ar gyfer y rhai 16 i 18 yn rhedeg hyd at fis Mawrth 2022. O fis Ebrill 2022, contractiwyd darparwyr hyfforddiant gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen newydd, Twf Swyddi Cymru Plws. Caiff y rhaglenni cyflogadwyedd newydd hyn eu darparu mewn rhanbarthau, gyda phump o ddarparwyr yn ddarparwyr arweiniol. Mae dau yn ddarparwyr hyfforddiant annibynnol, mae un yn ddarparwr arweiniol yn yr holl ranbarthau, ac mae'r llall yn ddarparwr arweiniol mewn tri o'r pedwar rhanbarth. Ceir tri choleg addysg bellach fel darparwyr arweiniol mewn rhanbarthau penodol. Mae gan ddarparwyr addysg bellach, darparwyr hyfforddiant a sefydliadau trydydd sector drefniadau is-contractio ar draws y rhanbarthau ar gyfer yr hyfforddiant hwn.

Yn sgil newid y trefniadau contractio, gwaith cyfyngedig a wnaethom yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon yn ystod 2021-2022.



Adroddiad sector: Dysgu yn y gwaith 2021-2022

Dysgu

Ers iddynt ddychwelyd yn llawn i'w gweithleoedd a gweithgarwch wyneb yn wyneb i ffwrdd o'r gwaith ym mis Medi 2021, bu'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgysylltu'n arbennig o dda â'u gweithgareddau ymarferol a theori. O ganlyniad, gwnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd priodol o leiaf a gwnaeth ychydig o ddysgwyr gynnydd cryf. Mae nifer uchel o ddysgwyr wedi'u recriwtio ar y rhan fwyaf o raglenni prentisiaeth. O ganlyniad, mae bron yr holl ddarparwyr ar eu capasiti llawn i fodloni'u contract.

Yn ystod y pandemig, parhaodd nifer o sectorau allweddol fel iechyd a gofal, a gofal plant, ar agor. Roedd dysgwyr yn y sector iechyd a gofal dan gryn bwysau yn ystod ac ar ôl y pandemig. Er iddynt aros yn y gweithle ac yn yr amgylchedd mwyaf heriol oherwydd cyfyngiadau, nid oedd hawl gan eu haseswyr i ymweld. O ganlyniad, nid oedd y dysgwyr hyn yn gallu cwblhau eu hasesiadau mewn modd amserol er mwyn cyflawni'u prentisiaethau.

Yn aml, roedd gan ddysgwyr newydd a oedd yn ymuno â rhaglenni prentisiaeth fedrau llythrennedd a rhifedd islaw lefelau'r dysgwyr hynny a ymunodd cyn y pandemig. Roedd hyn yn bennaf oherwydd dysgu a gollwyd o'r ysgol neu goleg. Mewn lleiafrif o achosion, roedd diffyg hyder a gwydnwch gan ddysgwyr, ond gyda chymorth personol gan eu haseswyr a'u cyflogwyr, fe wnaeth hyn wella'n gyflym. At ei gilydd, fe wnaeth llawer o ddysgwyr gryfhau eu medrau digidol oherwydd yr angen i gael mynediad i ddysgu o bell a defnyddio ystod o becynnau cyfrifiadu'r i gefnogi'u dysgu, a oedd yn ddatblygiad cadarnhaol.

Yn ystod y flwyddyn hon, roedd y rhai newydd a oedd yn ymuno â rhaglenni prentisiaeth yn parhau i gael profiad o weithgareddau cyfyngedig hyfforddi yn y gwaith ac i ffwrdd o'r gwaith yn aml. Yn yr achosion gorau, roedd dysgwyr yn elwa o gymorth cryf gan eu cyflogwyr a oedd yn gwneud yn siŵr bod dysgwyr yn cael cyfleoedd eang i ymgymryd â thasgau asesu yn y gwaith. Yn gyffredinol, roedd dysgwyr yn gwneud cynnydd rhesymol yn eu gwybodaeth theori, ond cynnydd arafach yn eu hasesiadau ymarferol. Er bod aseswyr yn cael mynediad llawn i weithleoedd erbyn hyn, mae'r sector wedi dioddef o gyfraddau uchel dysgwyr yn gadael, a chynnydd a chyflawniad arbennig o araf gan ddysgwyr. Mewn meysydd dysgu lle'r oedd yn ofynnol i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth glir o wyddoniaeth, mathemateg a thechnolegau, roeddent yn colli gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith a'r cymorth yr oeddent yn ei gael o'r sesiynau hyn. Er i'r ddarpariaeth lletygarwch ac arlwyo wella, parhaodd y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i wynebu heriau yn ystod y flwyddyn hon. Effeithiwyd ar nyrsio deintyddol hefyd, gyda llawer o ddysgwyr yn gadael rhaglenni'n gynnar ac nid yn dychwelyd i'r diwydiant. Roedd y galw am brentisiaethau adeiladu yn uchel, gyda chyflogwyr yn recriwtio niferoedd cynyddol o brentisiaid i fodloni'u llwyth gwaith trwm.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blyneddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)



Lles ac agweddau at ddysgu

Roedd bron yr holl ddysgwyr yn croesawu dychwelyd i'r gweithle a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith. Er bod ychydig iawn yn orbryderus ynglŷn â dychwelyd, roedd presenoldeb yn y gweithle ac i ffwrdd o'r gwaith yn uchel.

At ei gilydd, roedd dysgwyr yn mwynhau'u gweithgareddau hyfforddi ac yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Roeddent yn gweithio'n dda â'u cyflogwr, cyfoedion a chleientiaid. Daeth y dysgwyr hyn yn aelodau gwerthfawr o weithlu eu cyflogwr yn fuan, ac yn yr achosion gorau, yn enwedig gyda phrentisiaethau lefel uwch, roedd dysgwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Roedd dysgwyr a oedd yn parhau â'u prentisiaethau ar ôl y pandemig a'r rhai newydd a oedd yn dod i mewn yn teimlo'n frwdfrydig ynglŷn â'u hyfforddiant ac yn llawn cymhelliant i lwyddo, gyda'r mwyafrif yn awyddus i symud ymlaen i'r lefel nesaf.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn ystod y cyfnod clo, symudodd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr at ddysgu o bell yn gyflym. Roedd y gallu hwn i ymateb yn gyflym yn ganlyniad yn rhannol i'r gwaith blaenorol yr oedd ddarparwyr wedi'i wneud wrth ddefnyddio portffolios dysgwyr ar-lein ac olrhain cynnydd. Hefyd, roedd llawer wedi datblygu hybiau lle'r oedd modd storio deunyddiau addysgu a dysgu, ac roedd athrawon, hyfforddwyr, aseswyr a dysgwyr yn gallu eu defnyddio.

Lle'r oedd canolfannau hyfforddi a cholegau yn cael ailagor, rhoesant flaenoriaeth i ddysgwyr yr oedd angen iddynt gwblhau asesiadau ymarferol oedd ganddynt yn weddill. Creodd cwblhau'r asesiadau hyn lawer o broblemau i ddarparwyr, gan gynnwys:

- yr addasiadau yr oedd angen eu gwneud, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol
- y nifer gyfyngedig o ddysgwyr a oedd yn cael bod mewn gofod gweithdy
- cyfyngiadau ar symud
- yr angen i wisgo mygydau wyneb
- adnabod symptomau COVID-19
- cyfyngu ar fynediad a mynd i mewn
- datblygu systemau unffordd
- dim ond ychydig o ddysgwyr yn gallu defnyddio gweithdai mawr ar unrhyw un adeg oherwydd rheolau cadw pellter



Pan ddychwelodd dysgwyr at eu cyflogwyr a hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith, unwaith eto roeddent yn cael cymysgedd cyfoethog o weithgareddau, gan gynnwys sesiynau o bell, lle bo'n briodol. Roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn cydnabod y byddai elfennau o ddysgu o bell yn parhau ar ôl y pandemig. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd modd ymgymryd ag adolygiadau o gynnydd dysgwyr yn effeithiol o bell, gyda'r fantais bod aseswyr yn gorfod teithio llai a bod mwy o amser ganddynt i dreulio gyda'r dysgwyr. Mae dysgwyr prentisiaethau uwch yn ymgymryd â'u rhaglenni o bell fel arfer, yn enwedig medrau arweinyddiaeth a rheolaeth, a medrau digidol. Ar y rhan fwyaf o raglenni, fodd bynnag, nid oedd sail resymegol glir gan ddarparwyr ar gyfer cydbwyso gweithgarwch wyneb yn wyneb a dysgu o bell.

Roedd bron yr holl athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda dysgwyr a helpodd i'w cefnogi i symud ymlaen â'u gwaith ymarferol a theori. Yn yr achosion gorau, roedd staff darparwyr yn adnabod eu dysgwyr yn arbennig o dda, ac yn rhoi lefelau cryf o gymorth personol iddynt a helpodd i feithrin hyder a gwydnwch dysgwyr. Roedd aseswyr a staff hyfforddi yn hyblyg yn y ffordd yr oeddent yn ymgysylltu â dysgwyr i addasu dulliau cyflwyno yn ôl anghenion eu dysgwyr, yn enwedig wrth ddarparu ar gyfer patrymau gwaith shift a phwysau gwaith dysgwyr. Rhoddodd darparwyr flaenoriaeth uchel i ddefnyddio'u hadeiladau a'u hadnoddau staff yn hyblyg er mwyn gwneud yn siŵr bod gan ddysgwyr fynediad i gyfleusterau a gweithdai i gwblhau asesiadau ymarferol a dal i fyny gyda dysgu a gollwyd.

Roedd gan lawer o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ddisgwyliadau priodol o ddysgwyr ac roeddent yn gosod targedau realistig, ond heriol, ar gyfer cwblhau gwaith ysgrifenedig ac asesiadau ymarferol. Yn y lleiafrif o achosion lle gellid gwella addysgu, hyfforddi ac asesu:

- Nid oedd yr holl athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn herio dysgwyr i gyflawni gwaith o ansawdd uchel
- Nid oedd sesiynau theori i ffwrdd o'r gwaith yn ddigon difyr
- Yn aml, roedd cynlluniau dysgu unigol dysgwyr yn cynnwys dyddiadau targed generig ar gyfer cwblhau gwaith. Nid oedd y cynlluniau hyn yn ystyried manau cychwyn dysgwyr, eu profiad blaenorol na'r cynnydd yr oedden nhw'n ei wneud

Gofal, cymorth ac arweiniad

Ar draws y rhwydwaith, roedd darparwyr dysgu yn y gwaith yn ymwybodol iawn o'r cymorth y gallai fod ei angen ar ddysgwyr er mwyn eu helpu i lwyddo. Yn ystod y pandemig ac wrth ddychwelyd i weithgarwch wyneb yn wyneb, rhoddodd staff darparwyr y flaenoriaeth uchaf i les dysgwyr. Yn yr holl ddarparwyr, roedd hyfforddwyr, aseswyr a staff cymorth arbenigol yn rhoi help wedi'i dargedu i ddysgwyr i helpu â'u hanghenion

lles a chymorth personol. Lle'r oedd yn briodol, roedd staff yn atgyfeirio dysgwyr at asiantaethau arbenigol, fel gwasanaethau cwnsela. O ganlyniad i gymorth cryf gan ddarparwyr ac asiantaethau allanol, parhaodd llawer o ddysgwyr ar raglenni a gwneud cynnydd. Yn sgil y cymorth hwn â ffocws, teimlai llawer o ddysgwyr eu bod yn cael gofal da gan eu darparwr ac fe wnaethant gwblhau eu prentisiaeth neu wneud cynnydd cadarn tuag at gwblhau eu prentisiaeth.

Cryfhaodd llawer o ddarparwyr eu gweithdrefnau ar gyfer olrhain cynnydd a lles dysgwyr yn ystod y pandemig. Yn yr achosion gorau, roedd y prosesau hyn yn cynnwys datblygu cofrestr dysgwyr sydd mewn perygl. Roedd y cofrestrau hyn yn galluogi staff i gadw cyswllt rheolaidd â dysgwyr a oedd yn arbennig o fregus, a darparu lefelau uchel o gymorth personol. Yn sgil y cofrestrau a chyswllt rheolaidd, roedd darparwyr yn cael rhybudd cynnar os oedd dysgwyr yn cael anawsterau ac yn eu galluogi i roi ystod eang o ymyriadau ar waith yn gyflym pan roedd angen yn cael ei nodi. O ganlyniad, roedd y dysgwyr hyn yn parhau ar eu rhaglenni yn gyffredinol, ac roedd cefnogaeth dda i'w hiechyd a'u lles.

Ar draws y rhwydwaith dysgu yn y gwaith, roedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda mewn perthynas â diogelu plant. Mewn llawer o achosion, datblygodd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ddealltwriaeth dysgwyr o radicaleiddio yn briodol.

Arweinyddiaeth

Yn ystod blwyddyn gychwynnol y contract prentisiaethau newydd, mae perthnasoedd gweithio gydag isgontractwyr a phartneriaid wedi'u datblygu'n dda, ac mae perthnasoedd, prosesau ac arferion gydag isgontractwyr newydd yn cael eu datblygu. Mae'r holl ddarparwyr wedi derbyn dysgwyr sydd wedi'u dadleoli o ddarparwyr hyfforddiant na ddyfarnwyd grant prentisiaethau iddynt. Mae arweinwyr a staff yn cynorthwyo'r dysgwyr hyn yn dda i wneud cynnydd wrth gwblhau'u rhaglenni prentisiaeth.

Gan adeiladu ar waith yn ystod y pandemig, cryfhaodd uwch arweinwyr eu cyfathrebu â phartneriaid allweddol, gan gynnwys aelodau consortia, isgontractwyr newydd, cyflogwyr a staff. Roedd y cyfathrebu hwn yn eang ac amrywiol, ac yn cynnwys cyfarfodydd o bell, negeseuon e-bost, a flogiau i ddarparu diweddariadau a gwybodaeth am ddatblygiadau allweddol fel galw gan gyflogwyr, perfformiad dysgwyr, a diweddariadau gan Lywodraeth Cymru a chyrrff dyfarnu. Roedd hyn yn arbennig o fuddiol i bartneriaid allweddol a staff, a oedd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a oedd yn cael ei rhoi iddynt. Mae'r adnodd hwn yn darparu cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo darparwyr dysgu yn y gwaith i wella gweithio mewn partneriaeth ymhellach.

Roedd dysgu proffesiynol yn flaenoriaeth uchel ar draws darparwyr, gyda chyflwyno o bell a medrau digidol yn feysydd datblygu allweddol. Rhoddodd arweinwyr ffocws cryf ar gynorthwyo'u staff i ddatblygu eu medrau digidol er mwyn helpu dysgwyr gynnal eu hymgyssylltiad a gwneud cynnydd. Wrth ddod allan o'r pandemig, manteisiodd arweinwyr ar y cyfle i fyfrio ar ddysgu o bell a chynllunio gweithgarwch dysgu o bell yn y dyfodol lle'r oedd yn darparu'r budd mwyaf i ddysgwyr. Yn yr achosion gorau, roedd darparwyr yn cydnabod bod dysgu o bell yn fwy addas na dysgu wyneb yn wyneb ar gyfer ychydig o grwpiau dysgwyr.

Yn ystod cyfnodau clo a dychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb, rhoddodd rheolwyr ffocws clir ar gefnogi lles dysgwyr ac athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr. Er bod darparwyr wedi cadw llawer o agweddau ar eu prosesau sicrhau ansawdd, roedd yn arbennig o anodd adolygu effeithiolrwydd addysgu, hyfforddi ac asesu. Roedd hyn yn arbennig o wir yn gynnar yn ystod y pandemig lle'r oedd uwch arweinwyr yn ystyriol o'r cydbwysedd rhwng dwyn staff i gyfrif a chefnogi'u hiechyd a'u lles. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, yn yr achosion gorau, datblygodd rheolwyr strategaethau i adolygu effeithiolrwydd addysgu, asesu a dysgu. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau o hyd yn sgil yr anawsterau'n ymwneud â chymhlethdod y trefniadau asesu a hyfforddi ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a thechnegol.



Dysgu oedolion yn y gymuned 2021-2022

Partneriaethau

Cyflwynir darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned gan 13 o bartneriaethau ledled Cymru a'r sefydliad addysg bellach, Addysg Oedolion Cymru / Adult Learning Wales.

Mae aelodaeth y partneriaethau yn wahanol o ardal i ardal, ond mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cynnwys darpariaeth a gynigir gan yr awdurdod lleol, coleg addysg bellach a sefydliadau gwirfoddol neu gymunedol.

Fel arfer, cynhelir darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn lleoliadau cymunedol, fel llyfrgelloedd, canolfannau dysgu cymunedol neu ysgolion.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu partneriaethau i gyflwyno cyrsiau mewn llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, a Saesneg fel ail iaith a chysiau eraill sy'n helpu dysgwyr i gymhwyso a datblygu'r medrau hyn.

Dysgwyr mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned

Yn 2020-2021, nifer gyffredinol y dysgwyr sy'n oedolion oedd 5,555. Mae hyn yn ostyngiad o 32% o'r flwyddyn flaenorol ac yn rhan o ostyngiad tymor hwy yn nifer y dysgwyr sy'n oedolion ar raglenni a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Gallai'r cwmp mawr pellach yn 2020-2021 fod yn rhannol oherwydd y tarfu parhaus ar addysg a achoswyd gan y pandemig Coronafeirws.

Yn ystod y pandemig, cynhaliwyd bron yr holl ddarpariaeth ar-lein. Ers i'r cyfyngiadau COVID-19 gael eu codi, mae'r holl ddarparwyr wedi dychwelyd i gyflwyno wyneb yn wyneb yn bennaf, er bod bron yr holl bartneriaethau yn parhau i gyflwyno rhywfaint o'u darpariaeth ar-lein neu mewn ffordd gyfunol.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Gweithgarwch dilynol

Mae un bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned mewn categori gweithgarwch dilynol.

Arolygiadau craidd

Nifer yr arolygiadau: **2**

Oherwydd y pandemig COVID-19, dim ond o fis Mawrth 2022 yr ailddechreuwyd arolygiadau craidd.

[Sir Benfro yn Dysgu](#)

[Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gogledd Ddwyrain Cymru](#)

Astudiaethau achos

Nifer yr astudiaethau achos: **3**

Sir Benfro yn Dysgu: **x1**

Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam a Sir y Fflint [1](#) [2](#)

Ymweliadau ymgysylltu

Nifer yr ymweliadau: **12**

Cynhaliwyd yr holl ymweliadau ymgysylltu rhwng Medi a Rhagfyr 2021.

[Hydref 2021 – adroddiad cryno Dysgu Oedolion yn y Gymuned](#)

Dysgu

Adroddodd bron yr holl bartneriaethau am gynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ar gyrsiau dysgu oedolion yn y gymuned o gymharu â'r cyfnod yn ystod y pandemig, er bod y nifer o ddysgwyr sy'n cofrestru wedi parhau islaw'r lefelau cyn y pandemig.

Ar eu cyrsiau, gwnaeth y rhan fwyf o ddysgwyr gynnydd cadarn wrth ddablygu eu medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol, neu wella eu medrau Saesneg.

Yn y ddau ddarparwyr a arolygwyd gennym yn ystod gwanwyn a haf 2022, gwnaeth dysgwyr ar raglenni dysgu teuluol (er enghraifft [Wrecsam a Sir y Fflint](#)) gynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u medrau artistig, medrau cymdeithasol a gwybodaeth gyffredinol ar yr un pryd â datblygu eu dealltwriaeth o ddysgu eu plant.

Lles ac agweddau at ddysgu

Roedd bron yr holl ddysgwyr yn falch o gael bod yn ôl mewn dysgu yn dilyn y cyfnodau ynysu yn ystod y pandemig. Adroddodd llawer eu bod wedi colli hyder, ac fe wnaeth dychwelyd i ddysgu eu helpu i ailadeiladu hynny. Ar raglenni ymgysylltu yn arbennig, adroddodd dysgwyr bod eu hiechyd meddwl a'u lles wedi gwella o ganlyniad i'w dysgu.

Lle'r oedd dysgu yn digwydd ar-lein, roedd llawer o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd yr oedd dysgu ar-lein yn ei gynnig. Er enghraifft, mewn lleiafrif o achosion, mae'n well gan ddysgwyr barhau â dosbarthiadau ar-lein gan eu bod yn cydweddu'n well ag ymrwymadau personol a ffordd o fyw. Roedd llawer yn ymgysylltu'n dda ac yn cyfranogi'n llawn mewn sesiynau. Mewn ychydig iawn o achosion, fodd bynnag, roedd cyfranogiad dysgwyr mewn dosbarthiadau ar-lein yn gyfyngedig, ac roedd y cynnydd roedden nhw'n ei wneud yn arafach nag mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn yr arolygiadau a gynhaliom yn ystod gwanwyn a haf 2022, roedd ansawdd yr addysgu yn gadarn, yn gyffredinol. Roedd tiwtoriaid yn cynllunio ac yn cyflwyno'u sesiynau yn dda ac yn datblygu perthnasoedd proffesiynol cryf â'u dysgwyr. Mae llawer o diwtoriaid yn cynorthwyo dysgwyr yn dda i strwythuro'u cynlluniau dysgu unigol ac i osod targedau dysgu a thargedau personol.

Yn gyffredinol, roedd partneriaethau'n cynnig ystod o ddarpariaeth, a oedd yn alinio'n briodol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd ychydig o bartneriaethau yn cynllunio'u darpariaeth â phartneriaid yn ddigon da i sicrhau bod llwybrau dilyniant clir gan ddysgwyr o fewn y ddarpariaeth, neu ymlaen at astudiaethau neu hyfforddiant pellach ar lefel uwch. Nid oedd ychydig o bartneriaethau yn darparu cyfleoedd digonol i ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg gyfranogi mewn dysgu oedolion yn y gymuned mewn sesiynau dwyieithog neu Gymraeg.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd y rhan fwyaf o bartneriaethau'n darparu cyrsiau wedi'u teilwra i ddysgwyr ag ystod o anghenion dysgu neu'r rheiny sydd wedi cael profiadau o addysg ffurfiol yr ymyrrwyd neu yr amharwyd arnynt, neu brofiadau anhapus yn flaenorol. Wrth gynllunio darpariaeth, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr yn ystyried yr angen i ailennyn diddordeb dysgwyr yn dilyn y pandemig ac y gallai'r dysgwyr hynny a'r rheiny sy'n ystyried cofrestru ar gyfer dosbarthiadau fod wedi colli hyder yn ystod y pandemig. Roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn darparu cymorth dysgu unigol defnyddiol i fodloni anghenion eu dysgwyr.

Fe wnaethom ddarganfod fod gan ryw hanner o bartneriaethau wefannau defnyddiol wedi'u cynllunio'n dda, sy'n rhoi mynediad cyflym i ddarpar ddysgwyr at wybodaeth ddefnyddiol am gyrsiau. Yn yr achosion gorau, gall dysgwyr gofrestru ar-lein. Nid oes gwefannau datblygedig gan ychydig o bartneriaethau ac nid oedd yn hawdd dod o hyd i wybodaeth am gyrsiau. Roedd ychydig yn defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol i



hysbysebu eu darpariaeth. Mae hyn yn effeithiol ar gyfer darpar ddysgwyr sydd â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol, ond nid yw'n rhoi mynediad rhwydd i'r rheiny heb gyfrifon.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Roedd ychydig o bartneriaethau yn gwneud cynnydd cryf tuag at ddatblygu partneriaethau rhanbarthol mwy, er enghraifft [Wrecsam a Sir y Fflint](#). Fodd bynnag, roedd y cynnydd hwn yn fylchog o hyd ledled Cymru, ac ni wnaeth ychydig o bartneriaethau fawr o gynnydd ffurfiol yn hyn o beth.

Roedd bron yr holl bartneriaethau yn addasu i amgylchiadau gwahanol yn dilyn y pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys partneriaethau yn cynnal adolygiadau o'u darpariaeth, ailstrwythuro'u darpariaeth a'u dulliau cyflwyno, ac ymateb i newidiadau staff ac ymddoliadau.

Mewn ychydig o bartneriaethau, nid oedd perthnasoedd rhwng partneriaid wedi'u ffurfioli'n ddigon da ac roeddent yn dibynnu gormod ar gysylltiadau personol. Nid oedd cynllunio ar y cyd â phartneriaethau ar gyfer dilyniant, i leihau dyblygu neu i ddarparu cyfleoedd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog neu gyfrwng Cymraeg, yn ddigon effeithiol.

Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu sbardunau hunanfyfrio i gynorthwyo partneriaethau dysgu oedolion i wella cydweithio.



Adroddiad sector: Addysg gychwynnol i athrawon 2021-2022

Partneriaethau

Mae saith partneriaeth (sy'n cynnwys prifysgolion a'u hysgolion partner) yn darparu addysg gychwynnol i athrawon (AGA) yng Nghymru. Mae'r partneriaethau'n darparu llwybrau israddedig ac ôl-raddedig i addysgu. Mae TAR rhan-amser a llwybr wedi'i seilio ar gyflogaeth yn cael eu darparu gan Bartneriaeth y Brifysgol Agored.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Arolygu

Eleni, cynhaliom yr arolygiad cyntaf o'r cylch newydd mewn AGA hefyd. Arolygiad peilot oedd hwn, a'n galluogodd ni i roi ein canllawiau a dulliau arolygu newydd ar bawf.

Mewn cydweithrediad â'r sector, fe wnaethom gynnal dau weithgaredd 'arbrofi', i gynnal prawf ar fethodolegau arolygu gwahanol. Ym mis Hydref, cyhoeddodd adroddiad a oedd yn crynhoi'r prif negeseuon o'r arbrofion.

Recriwtio

Ym mis Medi 2021, cafodd 1,402 o fyfyrwyr eu recriwtio ar raglenni AGA amser llawn.

Fe wnaeth 785 ymuno â rhaglenni cynradd, a dechreuodd 617 ar raglenni uwchradd. Yn ogystal, cafodd 162 o fyfyrwyr (48 uwchradd a 114 cynradd) eu recriwtio i lwybrau'r Brifysgol Agored.

Ar ôl sawl blwyddyn o recriwtio gwael, bu cynnydd cyffredinol yn nifer y myfyrwyr a recriwtiwyd i raglenni AGA yn 2019-2020. Eleni, fodd bynnag, bu gostyngiad bach yn y nifer a recriwtiwyd. Fe wnaeth niferoedd cynradd ostwng bron i 3%, a niferoedd uwchradd gan bron i 11%. Fodd bynnag, roedd y duedd hon yn amrywio o bartneriaeth i bartneriaeth. Mae nifer y myfyrwyr sy'n hyfforddi mewn pynciau y ceir prinder ohonynt mewn ysgolion uwchradd, yn parhau'n bryder. Mae recriwtio myfyrwyr i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau i fod yn broblem sylweddol, yn enwedig ar raglenni uwchradd.



Dysgu a lles

Roedd y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at ymuno â'r proffesiwn addysgu. Yn benodol, roeddent yn mwynhau eu profiadau ysgol ac yn meithrin perthnasoedd gwaith da â disgyblion a staff ysgolion. Teimlai staff partneriaethau bod myfyrwyr wedi datblygu priodweddau penodol fel gwydnwch a hyblygrwydd trwy fod wedi gweithio o fewn cyfyngiadau COVID-19.

Wrth i gyfyngiadau COVID-19 lacio, ac wrth i ddisgyblion ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth, fe wnaeth myfyrwyr elwa o bwyslais o'r newydd ar les ac ymddygiad yn eu hysgolion lleoliad. Dysgont arferion buddiol i drefnu disgyblion, gofodau, a deunyddiau, a datblygu'u hyder i reoli'r ystafell ddosbarth.

Trwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd partneriaethau strategaethau gwerthfawr i gefnogi lles disgyblion yr oeddent wedi'u gwella yn ystod y pandemig. Fe wnaeth 'cysylltu' â thiwtoriaid prifysgol a chymheiriaid yn rheolaidd helpu myfyrwyr i drafod unrhyw faterion a chanolbwyntio ar eu cynnydd. Wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu lleihau, roedd myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfarfod â thiwtoriaid a'u cymheiriaid wyneb yn wyneb. Helpodd hyn iddynt feithrin perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol.

At ei gilydd, fe wnaeth partneriaethau ddefnyddio'u systemau olrhain yn ddefnyddiol i gynorthwyo myfyrwyr a oedd yn cwmpo ar ei hôl hi o ran eu cynnydd. Rhoesant weithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi'r myfyrwyr hyn. Fodd bynnag, roedd lleiafrif o fyfyrwyr yn cael trafferth rheoli eu llwyth gwaith o bryd i'w gilydd, yn enwedig wrth gydbwyso gorchmynion aseiniadau a pharatoi ar gyfer addysgu.

Roedd myfyrwyr yn gweithio'n dda â'i gilydd ac yn cydweithio'n gynhyrchiol ar ddatblygu'u haddysgu. Roeddent yn ymgysylltu'n dda ag aseiniadau a oedd wedi'u cysylltu'n bwrpasol â'u profiadau ysgol. Fodd bynnag, roedd rhai myfyrwyr yn ystyried bod eu haseiniadau academiaidd yn angenrheidiol i lwyddo yn y rhaglen, yn hytrach nag yn ffordd i wella eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgu. Roedd amrywioldeb sylweddol o ran ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau gwersi myfyrwyr.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae pob partneriaeth wedi llunio rhaglenni AGA sydd â sail resymegol glir yn seiliedig ar ddiwygio addysg yng Nghymru. O ganlyniad, mae myfyrwyr wedi datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o nodweddion allweddol y Cwricwlwm i Gymru yn dda. Roedd cyfleoedd gwerthfawr i fyfyrwyr cynradd ac uwchradd weithio ar draws y cyfnodau i archwilio gwaith trawsgwricwlaidd ac archwilio dulliau addysgu a dysgu. Mewn ychydig o bartneriaethau, nid oedd gan fyfyrwyr, yn enwedig y rhai ar raglenni uwchradd,

ddealltwriaeth ddigon da o sut i gynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, roedd profiad myfyrwyr o weld dylunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol yn rhy amrywiol. Roedd hyn yn rhannol oherwydd y pandemig. Mae profiadau ysgol myfyrwyr wedi bod yn gyfyngedig, ac mae cynnydd ysgolion o ran datblygu'r cwricwlwm yn wahanol o ysgol i ysgol o ran cyflymder a dealltwriaeth. At hynny, effeithiwyd yn negyddol ar weithdrefnau partneriaethau i sicrhau ansawdd profiadau myfyrwyr gan y cyfyngiadau hefyd, gan arwain at ddiffyg undod mewn profiadau dysgu.

Yn yr enghreifftiau gorau, roedd cydlyniaeth rhwng y rhaglen a addysgir mewn ysgolion a phrifysgolion. Roedd cyfathrebu clir ar draws y bartneriaeth ac roedd cydrannau gwahanol y rhaglen wedi'u halinio'n dda i greu cysylltiadau effeithiol rhwng theori ac arfer.

Dangosodd mentoriaid ymrwymiad cryf i gynorthwyo eu myfyrwyr a'u helpu i ddatblygu strategaethau addysgu. Roeddent yn defnyddio'u profiad yn dda i gynorthwyo myfyrwyr, yn enwedig gyda'u rheolaeth yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, nid oedd digon o fentoriaid yn annog myfyrwyr yn rheolaidd i gysylltu theori ag arfer na'u helpu i feddwl yn greadigol am eu haddysgu.

Mae pob partneriaeth wedi datblygu systemau electronig defnyddiol i olrhain cynnydd myfyrwyr a'u helpu i gymryd perchenogaeth dros eu datblygiad eu hunain. Dim ond megis dechrau cael ei ddatblygu yr oedd gwaith i sicrhau bod tiwtoriaid mentoriaid yn gwerthuso cynnydd myfyrwyr mewn ysgolion yn gywir, yn gyson ac yn holistaidd. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu cwestiynau hunanfyfyrto i gefnogi gwerthuso ansawdd profiadau dysgu mewn addysg gychwynnol i athrawon.

Arweinyddiaeth

Dangosodd pob partneriaeth ymrwymiad i gydweithio a dymuniad gwirioneddol i gynorthwyo i ddiwygio AGA yng Nghymru. Roedd gan bob partneriaeth strwythurau arweinyddiaeth clir ac roeddent yn sicrhau bod cynrychiolaeth o'r bartneriaeth ar ei hyd ar bob lefel arweinyddiaeth. Roedd y rhan fwyaf o bartneriaethau wedi datblygu is-grwpiau arweinyddiaeth buddiol i ysgogi datblygiad meysydd pwysig o waith y bartneriaeth, fel ymagweddau at ymchwil neu ddatblygu'r Gymraeg. Roedd partneriaethau wedi dechrau datblygu llinellau atebolrwydd drwy eu strwythurau arweinyddiaeth, ond, mewn ychydig o achosion, nid oedd rolau a chyfrifoldebau yn ddigon eglur.

Roedd yr holl bartneriaethau'n cynllunio cyfleoedd rheolaidd i fyfyrto ar ansawdd y rhaglenni a deilliannau myfyrwyr ar sail data a thystiolaeth uniongyrchol, gan gynnwys safbwyntiau myfyrwyr. Fodd bynnag, golygai cyfyngiadau'r pandemig nad oedd partneriaethau wedi ymgymryd â gweithdrefnau sicrhau ansawdd a datblygu mentoriaid unigol yn unol â'r bwriad. O ganlyniad, roedd myfyrwyr wedi cael profiadau amrywiol iawn yn eu profiadau ysgol. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu cwestiynau hunanfyfyrto i gynorthwyo â gwerthuso ansawdd mentora mewn addysg gychwynnol i athrawon.

Er bod yr holl bartneriaethau wedi casglu cyfoeth o wybodaeth am safbwyntiau myfyrwyr, nid oeddent yn triongli hyn yn ddigon da â ffynonellau eraill o dystiolaeth. Yn gyffredinol, nid oedd prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigon miniog, yn enwedig o ran nodi'r hyn y mae angen ei wella mewn addysgu a phrofiadau dysgu.

Roedd strategaeth glir gan bob partneriaeth i ddatblygu ymchwil ac ymholi ar draws y bartneriaeth. Roeddent yn ymwneud yn gynyddol ag ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd tiwtoriaid a mentoriaid yn defnyddio eu hymchwil eu hunain i gefnogi dysgu myfyrwyr. Mae'r ffocws clir hwn ar ddatblygu ymchwil ac ymholi yn 'newid diwylliant' mewn AGA yng Nghymru, ac mae eisoes yn cael effaith gadarnhaol yn ymarferol mewn prifysgolion ac ysgolion.

Adroddiad sector: Cymraeg i oedolion 2021-2022

Darparwyr

11

Mae 11 o ddarparwyr Dysgu Cymraeg/Learn Welsh o dan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n ariannu ac yn sicrhau ansawdd eu gwaith

Dysgwyr

14,965

Nifer o ddysgwyr unigol yn ystod 2020-2021

D.S. Cafodd cyllid ar gyfer y cynllun Cymraeg Gwaith ei leihau yn Ebrill 2020 a pharhaodd hyd at ddiwedd mis Mawrth 2021, ac felly effeithiwyd ar ddata o 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2021.

17,505

Nifer o ddysgwyr unigol yn ystod 2019-2020

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)

Astudiaethau achos

Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin

Defnyddio ymchwil fel sail i strategaethau addysgu a dysgu: [Ymchwil sydd yn sail i strategaethau dysgu ac addysgu | Estyn](#)

Gweithredu dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i integreiddio yn y gymuned iaith Gymraeg: [Gweithredu dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i gymathu â'r gymuned Gymraeg](#)

Dysgu Cymraeg Ceredigion Powys

Gweithio'n bwrpasol gyda sefydliadau eraill i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer y gweithlu addysg: [Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg](#)

Adroddiadau arolygiad

Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin (Tachwedd 2021)

[Adroddiad arolygiad – Dysgu Cymraeg y Gogledd Orllewin](#)

Dysgu Cymraeg Sir Gaerfyrddin (Chwefror 2022)

[Adroddiad arolygiad Dysgu Cymraeg Sir Gâr 2022](#)

Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr (Mai 2022)

[Adroddiad arolygiad – Dysgu Cymraeg Ceredigion – Powys – Sir Gâr 2022](#)

[Ystadegau Dysgu Cymraeg 2020-2021 | Dysgu Cymraeg](#)

Darpariaeth

Parhaodd bron yr holl ddarpariaeth ar-lein yn ystod 2021-2022. Yn ogystal â darpariaeth Dysgu Cymraeg, fe wnaeth y rhan fwyaf o raglenni Cymraeg Gwaith i gynyddu medrau Cymraeg yn y gweithle ailddechrau eleni. Yn dilyn adolygiad cyflym o'r ddarpariaeth, <https://llyw.cymru/adolygiad-cyflym-or-ganolfan-dysgu-cymraeg-genedlaethol-html> (Awst 2021), bydd y ddarpariaeth yn cael ei hymestyn i ddarparu mynediad rhad ac am ddim i'r rhai 16 i 25 oed i gyrsiau Cymraeg i Oedolion.

Arolygiadau

Cynhaliwyd 3 arolygiad craidd yn ystod 2021-2022.

Mewn Cymraeg i Oedolion, rydym yn rhoi barnau crynodol – gweler y deilliannau isod.

Cafodd bron yr holl wersi yn y darparwyr a arolygwyd eu cynnal ar-lein, a chynhaliwyd yr holl arolygiadau yn rhithiol.

Gweithgarwch dilynol

Nid oes unrhyw weithgarwch dilynol yn y sector. Caiff cynnydd yn erbyn yr holl argymhellion i ddarparwyr unigol ei drafod gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chaiff ei ystyried fel rhan o'i harolygiad. Ym mis Ionawr 2021 y gwnaethom arolygu'r Ganolfan ddiwethaf, a byddwn yn ei harolygu eto yn 2024.



Adroddiad sector: Cymraeg i oedolion 2021-2022

Dysgu

Gwnaeth llawer o ddysgwyr gynnydd effeithiol o ran caffael a gwella'u medrau Cymraeg, yn enwedig eu medrau siarad. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, roedd dysgwyr yn amharod i ymgysylltu â'r ddarpariaeth ar-lein neu roeddent yn cael anhawster gwneud hynny oherwydd materion cysylltedd. Mae'r [adnodd hwn](#) yn darparu cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo darparwyr Cymraeg i Oedolion i wella medrau siarad dysgwyr.

Un o gryfderau nodedig y sector yw'r modd y mae'n llwyddo i annog llawer o ddysgwyr i ddefnyddio'u medrau iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac integreiddio'n gadarnhaol â chymunedau a rhwydweithiau sy'n siarad Cymraeg. Yn yr enghreifftiau gorau, cymerodd dysgwyr gyfrifoldeb am fynd ati'n rhagweithiol i drefnu gweithgareddau i ymarfer eu Cymraeg.

Lles ac agweddau at ddysgu

Dyweddodd llawer o ddysgwyr fod y ffaith bod dysgu wedi parhau ar-lein trwy gydol y pandemig yn fuddiol i'w hiechyd meddwl a'u lles. Fe wnaeth hyn eu galluogi i gaffael medrau newydd a rhyngweithio ag eraill pan nad oedd llawer o agweddau ar eu bywydau arferol ar gael iddynt mwyach.

Llwyddodd darparwyr i greu cymunedau clòs, gofalgarg o ddysgwyr, gyda bron yr holl ddysgwyr yn ymgymryd â'u dysgu ar-lein yn ystod 2021-2022. Roedd bron bob dysgwr yn mwynhau eu gwersi, ac roedd dysgwyr o bob cwr o Gymru, y DU a ledled y byd yn rhyngweithio'n fuddiol â'i gilydd mewn dysgu o bell a ehangodd eu gorwelion. Roeddent yn trafod materion ynglŷn â'u gwledydd a'u bywydau eu hunain wrth ymarfer a gwella eu medrau Cymraeg.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Roedd yr addysgu yn effeithiol iawn mewn dau ddarparwr a arolygwyd ac roeddent yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd cryf. Lle'r oedd yr addysgu yn fwyaf effeithiol, roedd tiwtoriaid yn herio dysgwyr yn effeithiol drwy ddefnyddio ystod eang o dechnegau i ymestyn eu medrau iaith, yn enwedig eu gallu i gynnal sgysiau estynedig a oedd yn briodol i'w lefel. Yn gyffredinol, roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn addasu'u dulliau



addysgu yn dda i ddysgu ar-lein. Nid oedd ychydig o diwtoriaid ar draws darparwyr, yn enwedig ar y lefelau cwrs is ffurfiannol, yn cymryd camau digon pwrpasol i gywiro camgymeriadau a oedd yn digwydd dro ar ôl tro, ac ynganiad anghywir. Yn yr achosion hyn, nid oedd tiwtoriaid yn sicrhau bod dysgwyr yn defnyddio geirfa a phatrymau iaith newydd gyda chywirdeb a hyder cynyddol. Mewn ychydig iawn o achosion, nid oedd tiwtoriaid yn herio dysgwyr yn ddigon da, ac o ganlyniad, nid oedd dysgwyr yn ymestyn eu hatebion, a gwnaeth hynny, yn ei dro, gyfyngu ar eu cynnydd.

Roedd llawer o diwtoriaid yn cyfoethogi gwybodaeth dysgwyr am hanes a diwylliant Cymru yn ystod gwersi, gan ddarparu cyd-destun gwerthfawr i'w dysgu. Roeddent hefyd yn annog dysgwyr yn llwyddiannus i ddefnyddio'u medrau Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr holl ddarparwyr ddychwelyd i gynnig dewis o ryw lefel o ddarpariaeth dysgu wyneb yn wyneb i ddysgwyr nad oedden nhw'n gallu, oherwydd cysylltedd gwael yn aml, neu'n anfodlon, parhau â'u cyrsiau ar-lein.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Roedd safon gofal, cymorth ac arweiniad yn faes cryfder ac roedd yn dda neu'n well yn yr holl ddarparwyr a arolygwyd. Roedd tiwtoriaid yn creu amgylchedd cefnogol, cadarnhaol a chymhellol lle'r oedd bron pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cyfrannu at wersi heb ofni gwneud camgymeriadau. Mae darparwyr yn cynnig cymorth ac arweiniad effeithiol i ddysgwyr cyn ac ar ôl cofrestru, gan gynnwys darpariaeth briodol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Roeddent yn gweithredu trefniadau sefydledig ac effeithiol i geisio safbwyntiau dysgwyr a gweithredu arnynt yn fuddiol.

Arweinyddiaeth

Roedd gan arweinwyr yn yr holl ddarparwyr weledigaeth a nodau clir a oedd yn alinio'n dda â rhai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a pholisi Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg gweithredol. Roedd darparwyr yn chwarae rhan hollbwysig i ddylanwadu ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu sefydliadau a'u cynorthwyo i gynllunio'n strategol i gyflawni hyn. Rhoddodd dau o'r darparwyr strategaethau arloesol ar waith i wella ac ymestyn darpariaeth ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, roeddent [yn defnyddio ymchwil yn sail i strategaethau addysgu a dysgu, yn gweithredu dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol a oedd yn galluogi dysgwyr i integreiddio â'r gymuned Gymraeg](#) ac yn gweithio'n bwrpasol gyda sefydliadau eraill i ddarparu hyfforddiant Cymraeg ar gyfer y gweithlu addysg. ([Astudiaeth achos.](#)) Mae'r gwaith hwn yn cysylltu'n dda â'r cylch gwaith ehangach newydd ar gyfer y Ganolfan Cenedlaethol i gydweithio ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i gefnogi addysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a darparu llwybr dysgu iaith o'r ysgol i addysg ôl-orfodol.



Roedd darparwyr yn cynnig datblygiad proffesiynol parhaus gwerthfawr i'w tiwtoriaid, naill ai eu hunain neu drwy hyfforddiant a ddarparwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Er enghraifft, darparwyd hyfforddiant buddiol i wella gallu tiwtoriaid i addysgu ar-lein. Cafodd y dysgu proffesiynol hwn effaith gadarnhaol ar safonau addysgu a dysgu.

Mewn rhai achosion, roedd gan ddarparwyr gyfrifoldeb gorgyffyrddol am yr un ardal ddaearyddol. Fodd bynnag, nid oedd systemau data cenedlaethol yn caniatáu i ddarparwyr olrhain cynnydd dysgwyr a oedd wedi symud rhwng darparwyr. Roedd hyn yn atal darparwyr rhag defnyddio data'n effeithiol i ddilysu safonau a chynnydd dysgwyr sy'n symud rhyngddynt.

At ei gilydd, roedd darparwyr yn gwerthuso eu gwaith yn onest ac yn effeithiol. Mewn un darparwr, fodd bynnag, nid oedd hunanwerthuso yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu a dysgu yn ddigon da. Roedd hyn yn effeithio ar effeithiolrwydd yr addysgu a'r safonau yr oedd dysgwyr yn eu cyflawni.



Adroddiad sector: Cyfiawnder 2021-2022

Carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc

5

Nifer y carchardai yng Nghymru
Y mae un ohonynt hefyd yn rheoli carchar agored

1

Nifer y sefydliadau troseddwyr ifanc

Darpariaeth

Ym mron pob carchar yng Nghymru, darparwyd addysg a hyfforddiant gan y carchardai, yn hytrach nag asiantaethau allanol. Yn CEF Berwyn, mae gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF contract â Novus Cambria i ddarparu addysg.

Arolygiadau

Caiff arolygiadau eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Eleni, cydweithiodd Estyn â phartneriaid i arolygu darpariaeth i bobl ifanc yn Sefydliad Troseddwr Ifanc Y Parc. Fe wnaethom gyfrannu at arolygiadau CEF Berwyn a'r ddarpariaeth i oedolion yn CEF Y Parc hefyd.

Mae adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Carchardai EF i'w gweld [yma](#).

Gwasanaethau troseddau ieuencid

17

Nifer y gwasanaethau troseddau ieuencid yng Nghymru

Darpariaeth

Mae gwasanaethau troseddau ieuencid yn gweithio â phobl ifanc sy'n mynd i helynt â'r gyfraith a hefyd yn ceisio eu cynorthwyo i gadw draw o droseddau. Mae addysg, hyfforddiant a chymorth cyflogaeth yn un o'r gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan wasanaethau troseddau ieuencid.

Arolygiadau

Caiff arolygiadau eu harwain gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Eleni, cynhaliodd weithgareddau arolygu yng Ngwasanaeth Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych fel rhan o [gydadolygiad thematig Arolygiaeth Prawf EF](#) o wasanaethau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant mewn timau troseddau ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Ymunom â'r ailarolygiad o Wasanaeth Troseddau Ieuencid Caerdydd hefyd.

Caiff adroddiadau Arolygiaeth Prawf EF eu cyhoeddi [yma](#).

Cartrefi diogel i blant

1


Nifer y cartrefi diogel i blant yng Nghymru

Darpariaeth

Mae cartrefi diogel i blant yn cynnig lleoliadau diogel i bobl ifanc rhwng 10 a 17 oed ac maent yn cynnwys gofal preswyl llawn, cyfleusterau addysgol a darpariaeth gofal iechyd.

Arolygiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn arwain arolygiadau o gartrefi diogel i blant, ond ni chynhaliodd unrhyw arolygiadau eleni.



Dysgu

Yn ystod cyfyngiadau'r pandemig mewn carchardai, roedd y rhan fwyaf o oedolion a oedd yn garcharorion yn gaeth i'w celloedd am hyd at 23 awr y dydd. Galluogodd y gefnogaeth gref a gafodd dysgwyr gan staff y carchardai a mentoriaid cymheiriaid i lawer o'r rhai a oedd wedi ymgysylltu ag addysg i barhau i fanteisio ar ddeunyddiau dysgu o'u hystafelloedd. Yn CEF Berwyn, manteision lleiafrif o ddysgwyr ar ffonau a TG yn eu celloedd i barhau â'u dysgu. Yn CEF y Parc, helpodd staff a mentoriaid cymheiriaid dysgwyr trwy ddod â'r deunyddiau yr oedd eu hangen arnynt ar gyfer eu hastudiaethau. Galluogodd hyn i'r rhai a oedd yn cyfranogi mewn addysg wneud cynnydd da yn eu dysgu, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn cyflawni eu targedau dysgu a'u cymwysterau.

Ers ei arolygiad diwethaf, mae Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Caerdydd wedi gwella gallu pobl ifanc i fanteisio ar addysg. Fodd bynnag, roedd yn rhy gynnar o hyd i weld effaith y newidiadau ar lefel dysgwyr unigol.

Yn ymweliad thematig Arolygiaeth Prawf EF â Gwasanaeth Troseddau Ieuencid Conwy a Sir Ddinbych, fe wnaethom ddarganfod fod llawer o bobl ifanc o oedran ysgol wedi ymgysylltu'n dda â'r gwasanaeth ac wedi gwella eu hymgylltiad ag addysg. Fodd bynnag, roedd sawl enghraifft o bobl ifanc y bu oedi yn eu dilyniant ôl-16 oherwydd nad oedd eu medrau llythrennedd yn ddigon datblygedig i'w galluogi i ymgymryd â lefelau uwch o hyfforddiant.

Lles

Ym mhob carchar, rhoddwyd pecynnau gweithgareddau ac offer celf i garcharorion, a oedd yn wrthdynciad defnyddiol i lawer ohonynt ac â'u helpodd i ymdopi â'u caethiwed. Yn Sefydliad Troseddwy'r Ifanc y Parc, galluogodd cynllunio gofalus i bobl ifanc fanteisio ar weithdai neu sesiynau dosbarth ar hyd cyfnod y cyfyngiadau, wrth leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r haint. Difyrrodd y ddarpariaeth barhaus hon y bobl ifanc mewn modd pwrpasol a chefnogi eu lles.

Pan gafodd cyfyngiadau COVID-19 eu llacio, symudodd carchardai'n gyflym i ailagor darpariaeth addysg a gwaith yn llawn, gan alluogi dysgwyr i ailgydio yn eu dysgu'n gyflym. Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr yn falch o gymryd rhan mewn sesiynau eto, roedd y lleiafrif ohonynt yn CEF Berwyn yn ei chael hi'n anoddach dod i'r arfer â mynychu sesiynau ac roedd eu presenoldeb yn wael.

Canfyddiadau cryno

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn cyflwyno ein canfyddiadau llawn ar y thema hon ar gyfer blwyddyn academiaidd 2021-2022. [Cliciwch yma i weld crynodeb o'r canfyddiadau hyn.](#)



Addysgu a phrofiadau dysgu

At ei gilydd, roedd safonau addysgu mewn carchardai yn dda. Roedd bron bob athro yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn cynllunio addysgu'n effeithiol i sicrhau bod sesiynau'n bodloni anghenion dysgwyr unigol. Gwnaeth y ddau garchar i oedolion ddefnydd effeithiol iawn o fentoriaid cymheiriaid. Cynigiodd y mentoriaid hyn gefnogaeth dda i ddysgwyr a'u galluogi i oresgyn rhwystrau rhag dysgu a gwneud cynnydd gwell yn y sesiynau a fynychwyd ganddynt. Rhoddodd staff addysg a hyfforddiant sylw da i gryfhau medrau llythrennedd a rhifedd carcharorion, a gwellodd bron pob un o'r carcharorion eu medrau gan o leiaf un lefel. Yn y carchardai a arolygwyd gennym, roedd ehangder arlwy'r cwriclewm yn rhagorol ac roedd ystod y pynciau a oedd ar gael yn rhoi ystyriaeth dda i'r medrau sydd eu hangen ar gyflogwyr. Roedd bron pob un o'r gweithdai galwedigaethol yn cynnig amgylchedd dysgu realistig a oedd yn paratoi dysgwyr ar gyfer y byd gwaith.

Roedd staff prawf ym mhob Gwasanaeth Troseddau leuenctid yn glir ynghylch pwysigrwydd medrau llythrennedd a rhifedd i alluogi pobl ifanc i wneud cynnydd effeithiol a phontio'n llwyddiannus i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fodd bynnag, nid oedd gan yr un o'r gwasanaethau a arolygom strategaeth glir i sicrhau cymorth priodol wedi'i dargedu i'r bobl ifanc hynny yr oedd angen iddynt ddatblygu'r medrau hyn fwyaf. Nod bron pob un o weithwyr achos y Gwasanaethau Troseddau leuenctid oedd datblygu medrau ehangach cleientiaid, fel hyder, medrau cymdeithasol a hunan-barch, yr oedd angen i lawer o ddysgwyr wneud cynnydd ynddynt. Fodd bynnag, nid oedd gan wasanaethau systemau clir i olrhain cynnydd pobl ifanc o ran datblygu'r medrau hyn.

Gofal, cymorth ac arweiniad

Mewn carchardai, rhoddodd staff sesiynau ymgynefino defnyddiol i ddysgwyr, lle'r oeddent yn esbonio pa gyfleoedd addysg, dysgu galwedigaethol a gwaith a oedd ar gael iddynt. Gwnaethant asesu eu medrau llythrennedd a rhifedd a chyfeirio dysgwyr at gyrsiau ar lefelau priodol. Helpodd hyn i newydd ddyfodiaid gynllunio'r ffordd orau i dreulio eu hamser yn y carchar. Roedd systemau olrhain priodol i fonitro cynnydd dysgwyr ac, yn Sefydliad Troseddau Ifanc y Parc, cyfarfu staff yn wythnosol i drafod sut roedd dysgwyr yn dod yn eu blaenau, gan alluogi staff i sicrhau eu bod yn cynnig cefnogaeth unigol wedi'i theilwra.

Cafodd staff yn y ddau garchar i oedolion hyfforddiant ar wella eu hymwybyddiaeth o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) dysgwyr. Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth staff o sut gallant sicrhau bod eu strategaethau addysgu wedi'u teilwra orau i ADY mwy cymhleth yn rhy amrywiol o hyd.

Arweinyddiaeth

Ar hyd y pandemig, cydweithiodd arweinwyr mewn carchardai yn effeithiol â thîm o staff ymroddgar i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i garcharorion fanteisio ar adnoddau dysgu a sicrhau y gallai gweithgareddau gwaith barhau, lle bo hynny'n bosibl. Rhoesant flaenoriaeth uchel i adfer mynediad llawn at addysg, medrau a chyflogaeth, gan alluogi carcharorion i ailgydio mewn gweithgareddau cyn gynted â phosibl. Roedd cynllunio strategol yn adlewyrchu parch mawr arweinwyr carchardai tuag at werth addysg o ran lleihau ymddygiad troseddol dysgwyr. Wrth gynllunio i gryfhau darpariaeth, rhoddodd arweinwyr ystyriaeth dda i wybodaeth am y farchnad lafur a meithrin cysylltiadau cryf â chyflogwyr lleol er mwyn gwella rhagolygon cyflogaeth i garcharorion. Fodd bynnag, yn CEF Berwyn, ni wnaeth staff ar draws y carchar ddigon i herio carcharorion a oedd yn dewis peidio â chymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu waith.

Yn y ddau Sefydliad Troseddwy'r Ieuencid yr ymwelom â nhw, roedd staff wedi meithrin cysylltiadau da â'r awdurdodau lleol a darparwyr cyfleoedd i gynorthwyo pobl ifanc i symud ymlaen i ddysgu yn y gwaith a chyflogaeth. Fodd bynnag, ni wnaed digon ar lefel strategol i werthuso effaith ymyriadau neu ddatblygu strategaethau a oedd yn sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i wneud y cynnydd gorau y gallant.

Adroddiadau thematig ar dudalen



Ysgolion pob oed yng Nghymru

Adroddiad ar heriau a llwyddiannau sefydlu ysgolion pob oed

Adroddiad llawn
[Cliciwch yma i weld yr adroddiad yn llawn.](#)

Ym mis Ionawr 2022, cyhoeddodd ein hadroddiad thematig ar yr heriau a'r llwyddiannau wrth sefydlu ysgolion pob oed yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth a gasglwyd trwy ymweliadau â phob un o'r ysgolion pob oed sydd ar agor yng Nghymru. Cysylltwyd ag awdurdodau lleol am eu safbwyntiau trwy gyfuniad o alwadau ffôn ac ymweliadau. Cyn dechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, yn ystod ymweliadau â darparwyr, cyfwelodd y tîm ag arweinwyr ac athrawon. Fe wnaethant gyfarfod â llywodraethwyr a chynnal teithiau dysgu. Casglwyd safbwyntiau dysgwyr trwy gyfweiliadau yn ystod yr ymweliadau hyn.

Ar ôl i weithgarwch ailddechrau ym mis Ebrill 2021, roedd cyfweiliadau â staff a disgyblion yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau COVID-19. O ganlyniad, yn lle hynny, dadansoddodd arolygwyr wybodaeth bresennol am ysgolion pob oed i sefydlu'r cyd-destun a'r cefndir. Fe wnaethant ystyried y dystiolaeth a oedd ar gael o arolygiadau hefyd.

Mae ein hargymhellion yn cynnwys:

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A1** Ystyried cyflwyno canllawiau cenedlaethol i ysgolion pob oed i gefnogi ysgolion pob oed, eu harweinwyr, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol

Dylai awdurdodau lleol / consortia rhanbarthol

- A2** Sicrhau bod ymgynghori ar sefydlu ysgol bob oed yn ystyrlon, yn dryloyw ac yn fuddiol o ran ymgysylltu â'r gymuned leol i gefnogi newid i wella'r ddarpariaeth ar gyfer eu plant
- A3** Penodi arweinwyr ar gyfer ysgolion pob oed newydd yn gynnar i ddarparu digon o amser cynllunio a pharatoi
- A4** Darparu hyfforddiant a chymorth â ffocws gwell, sy'n benodol i sector, er enghraifft i wella arfer ystafell ddosbarth ar draws pob sector o'r ysgol

Dylai ysgolion:

- A5** Barhau i gynllunio a darparu cwricwlwm cyfoethog sy'n symud ymlaen yn naturiol ar draws yr ystod oedran lawn
- A6** Cydweithio ymhellach ag ysgolion eraill i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau pob oed, a rhannu arfer dda

Beth ddywedodd ein harolwg thematig?

Y rhesymeg ar gyfer sefydlu ysgol pob oed

Er bod cefnogaeth ar gyfer sefydlu ysgolion pob oed, nid oes canllawiau cenedlaethol penodol i sector ar gael i awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion. Felly, mae gan awdurdodau lleol eu cynlluniau amrywiol eu hunain i weddu i'w hamgylchiadau unigryw. Mae'r rhain bron bob amser yn rhan o gynlluniau trefniadaeth ysgolion ehangach yr awdurdod hwnnw.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru fel arfer ar wahân ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, sy'n ei gwneud yn anodd i ysgolion pob oed ystyried a llywio er mwyn sefydlu eu datganiadau sefyllfa eu hunain. O ganlyniad, ni chaiff y sector ysgolion pob oed ei gydnabod yn sector ar wahân yn ddigon da ar hyn o bryd.

Mae'r rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion pob oed yn dod ag ymdeimlad gwerth chweil o berthyn i sector ar wahân sy'n dod i'r amlwg. Oherwydd diffyg canllawiau cenedlaethol, mae'r grŵp hwn wedi darparu cymorth i'w gilydd, wedi brocera grantiau o ffynonellau allanol, ac wedi gweithio i amlygu'r anawsterau ac arfer orau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd manteision ysgol bob oed yn gorbwyso'r anfanteision. Dros gyfnod, mae awdurdodau lleol wedi dysgu o brofiadau ei gilydd, yn ogystal â defnyddio'r ymchwil ar fodelau pob oed llwyddiannus.

Sefydlu ysgolion pob oed

Mae ysgolion pob oed wedi bod yn fwyaf llwyddiannus pan maent yn newydd, ac mae arweinwyr a'r awdurdod lleol wedi ymgysylltu'n dda â'r gymuned leol. Mae arweinwyr wedi treulio amser yn amlinellu'r manteision i ddisgyblion a'r gymuned, lleddfu pryderon a rhoi sicrwydd. Mae rhieni, staff a llywodraethwyr wedi gwerthfawrogi cael gwybodaeth gyson am y broses a'r gweithdrefnau.

At ei gilydd, mae awdurdodau lleol wedi darparu cymorth priodol ar gyfer cyrff llywodraethol yn ystod y broses i sefydlu ysgol bob oed. Yn benodol, mae cymorth gan adrannau adnoddau dynol ac adrannau cyfreithiol wedi sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn, gan amlaf. Fodd bynnag, mae cefnogaeth i benaethiaid wedi amrywio ledled Cymru.

Mabwysiadodd y rhan fwyaf o ysgolion strwythur arwain lle mae gan arweinwyr gyfrifoldebau ysgol gyfan sy'n rhychwantu pob sector. Yn yr achosion prin ble na sefydlwyd hyn o'r dechrau, mae ysgolion wedi sylweddoli ei fantais yn gyflym, ac wedi addasu eu cyfrifoldebau arwain yn unol â hynny.

Effaith model ysgol bob oed

Bron ym mhob ysgol bob oed, mae cyfran sylweddol o ddisgyblion yn pontio o ysgolion cynradd partner i Flwyddyn 7. Gallai hyn fod cynifer â 94% o'r garfan i lawr i 20%. Wrth iddynt bontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, dywed ysgolion fod disgyblion oddi mewn i ysgol bob oed yn ymgynffwrdd dda ym Flwyddyn 7, ac yn gwneud cynnydd gwell yn eu blwyddyn gyntaf na'r rhai sy'n trosglwyddo o ysgolion cynradd ar wahân.

Mae gofal a chymorth bugeiliol ar gyfer lles disgyblion yn gryfder yn y rhan fwyaf o ysgolion pob oed, ac wedi bod yn flaenoriaeth ers agor ysgolion. Mae hyn yn golygu bod darpariaeth ac ymyriadau mewn llawer o ysgolion yn aml yn ddi-dor, ac yn ysgogi gwelliannau i ddeilliannau yn ystod cyfnod y plentyn yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a gweithredu cwricwlwm sy'n ystyried dilyniant ar draws pob sector. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu eu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, ac wedi dechrau treialu adnoddau a dulliau. Mae hyn yn cynnwys sylweddoli'r angen am gwricwlwm cydlynus sy'n ystyried cynnydd yn briodol.

Mae trefniadau dysgu proffesiynol mewn ysgolion pob oed yn hynod ddefnyddiol, yn cynnwys rhannu arfer dda mewn addysgu yn fewnol neu rhwng ysgolion. Fodd bynnag, yn aml, nid yw dysgu proffesiynol allanol yn ddigon penodol ar gyfer y sector pob oed.

Wrth sefydlu a datblygu timau arweinyddiaeth ar gyfer ysgolion pob oed, mae llywodraethwyr yn sylweddoli bod angen i ysgolion elwa ar fedrau o gefndiroedd y sector cynradd ac uwchradd. At ei gilydd, mae timau arweinyddiaeth pob oed llwyddiannus fel arfer yn cynnwys cyfuniad o arweinwyr â chefnidiroedd mewn gwahanol sectorau.

Mae ansawdd yr hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws y sector yn amrywiol. Fodd bynnag, yn yr enghreifftiau gorau, mae ysgolion yn gwerthuso darpariaeth a safonau ar draws sectorau, a rhyngddynt.

“Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon”

Aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru

Adroddiad llawn
[Cliciwch yma i weld yr adroddiad yn llawn.](#)

Ym mis Rhagfyr 2021, cyhoeddodd ein hadroddiad thematig ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru, yn dilyn cais gan y Gweinidog Addysg ym mis Mehefin y flwyddyn honno. Yn ystod hydref 2021, ymwelom â 35 o ysgolion uwchradd ac annibynnol ledled Cymru. Trafododd aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion â thua 1,300 o bobl ifanc a defnyddio'r adborth i ysgrifennu ein hadroddiad.

Ein hargymhellion:

Dylai ysgolion:

- A1** Gydabod bod aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn fynych iawn ym mywydau disgyblion ifanc a mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan ataliol a rhagweithiol i ddelio â'r mater
- A2** Darparu cyfleoedd dysgu digonol, cronol a buddiol ar gyfer disgyblion ar draws yr ystod oedran gyfan am berthnasoedd iach, addysg rhyw a rhywioldeb
- A3** Gwella'r ffordd maen nhw'n cofnodi, categorioedd a dadansoddi achosion o aflonyddu a bwlio
- A4** Sicrhau bod holl staff ysgolion yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol rheolaidd a phwrpasol ar faterion addysg bersonol a chymdeithasol, yn cynnwys perthnasoedd, rhywedd, amrywiaeth a thrawsnewid rhywedd

Dylai awdurdodau lleol (ALL) a chonsortia rhanbarthol (CRh):

- A5** Weithio gydag ysgolion i gasglu, categorioedd a dadansoddi'r holl ddata ar fwlio ac aflonyddu yn gywir ac yn gynhwysfawr
- A6** Cynllunio ymyrraeth a chymorth addas ar faterion rhyw ar lefel ysgol ac awdurdod lleol a gwerthuso effaith hyn ar les disgyblion yn rheolaidd
- A7** Darparu dysgu proffesiynol angenrheidiol ar gyfer staff ysgol i'w galluogi i fabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion, yn cynnwys bwlio ac aflonyddu homoffobig, deuffobig a thrawsffobig

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A8** Weithio gydag awdurdodau addysg lleol er mwyn gwella'r ffordd y maent yn casglu gwybodaeth am fwlio ac aflonyddu gan ysgolion a sicrhau bod awdurdodau lleol yn adnabod ac yn ymateb i batrymau a thueddiadau mewn ymddygiad

Beth ddywedodd ein harolwg thematig?

Dywed tua hanner y disgyblion a mwyafrif y merched bod ganddynt brofiad personol o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion a dywed tri chwarter o'r holl ddisgyblion eu bod wedi gweld disgyblion eraill yn cael profiad ohono. Mae hyn yn digwydd mwy ar-lein a'r tu allan i'r ysgol nag yn yr ysgol. Y mathau mwyaf cyffredin o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn ystod y diwrnod ysgol yw disgyblion yn heclo a gwneud sylwadau cas, gwneud sylwadau homoffobig (tuag at fechgyn yn bennaf), a sylwadau am ymddangosiad.

Nid yw llawer o ddisgyblion yn dweud wrth athrawon nac oedolion eraill am yr aflonyddu gan eu bod yn teimlo ei fod yn digwydd mor aml a'i fod wedi dod yn ymddygiad 'normal'. Mae dros hanner yr holl ddisgyblion yn teimlo'n fwy cyfforddus yn dweud wrth ffrind am

aflonyddu rhywiol nag yn dweud wrth oedolyn cyfrifol. Dywedodd ychydig ohonynt eu bod yn teimlo'n rhy ofnus i ddweud wrth unrhyw un o gwbl.

Nid yw pob ysgol yng Nghymru yn ymdrin ag aflonyddu rhywiol yn ddigon da. Fel arfer, mae staff mewn ysgolion yn ymateb yn briodol i achosion o aflonyddu rhywiol ymhlith disgyblion y cânt wybod amdanynt, ond nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwneud digon i atal yr achosion hynny rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Mae ysgolion yn gwerthfawrogi siaradwyr allanol, fel yr heddlu a gweithwyr ieuenctid, gan eu bod yn helpu i addysgu llawer o bynciau mewn addysg bersonol a chymdeithasol. Dywed ysgolion bod rhieni'n chwarae rhan bwysig hefyd o ran paratoi pobl ifanc i ymdrin â pherthnasoedd yn llwyddiannus, a theimlant fod angen iddynt weithio'n agosach â rhieni ar hyn. Mae mwy o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn digwydd y tu allan i'r ysgol nag y tu mewn i'r ysgol, ond mae'n aml yn cael ei ddwyn ymlaen i'r ysgol. Dywed ysgolion bod angen i rieni fonitro sut mae eu plant yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Canfuom fod yr ysgolion gorau yn gwneud yn siŵr fod parch yn brif flaenoriaeth ac y caiff y gwahaniaethau rhwng pobl eu dathlu. Pan fydd aflonyddu rhywiol yn digwydd, mae staff yn gwybod sut i ymdrin â'r math hwn o aflonyddu'n gyflym ac yn effeithiol.

Mae angen i'r ffordd y mae pob math o aflonyddu a bwlio yn cael ei gofnodi mewn ysgolion fod yn fwy manwl i alluogi staff i ymateb i ddigwyddiadau'n briodol. Pan fydd ysgolion yn cofnodi achosion o fwllo ac aflonyddu, nid ydynt yn nodi'r math o fwllo neu aflonyddu sydd wedi digwydd bob tro. Mae gwybodaeth fwy manwl a phenodol yn golygu y gallai ysgolion ystyried maint y broblem a pha mor dda maent yn ymdrin ag aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion.

At ei gilydd, nid yw ysgolion yn rhoi digon o amser i bobl ifanc ddysgu am berthnasoedd iach, rhyw a rhywioldeb, a'u trafod, mewn ffordd ddiogel, gyfforddus ac agored.

Yn ogystal â'r adroddiad, rydym hefyd wedi llunio:

- Pecyn adnoddau i ddarparwyr ei ddefnyddio i ddarganfod am y mater hwn yn eu lleoliad, ynghyd â chanfyddiadau manwl o'n sesiynau gwrandio ar ddysgwyr [yma](#)
- Fersiwn o'r adroddiad i ddysgwyr, gan gynnwys cwestiynau i ddisgyblion eu cynnwys [yma](#)

Addysg Drochi Cymraeg

Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed

Adroddiad llawn
[Cliciwch yma i weld yr adroddiad yn llawn.](#)

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd ein hadroddiad thematig ar addysg drochi Cymraeg. Mae ein hadroddiad yn defnyddio ymweliadau â sampl o leoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd a chanolfannau trochi. Siaradom â disgyblion, athrawon, swyddogion awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol hefyd, a cheisio barn rhieni trwy holiadur. Ystyriom ddau fath o addysg drochi: sef trochi cynnar a throchi hwyr.

Mae **trochi cynnar** yn golygu cyflwyno a defnyddio'r Gymraeg fel unig iaith yr addysgu (heblaw am ychydig iawn o eithriadau) yn y cyfnod sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion Cymraeg a dwyieithog. Yn yr arfer orau, mae hyn yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n fwriadus i ddysgwyr mewn sesiynau iaith penodol, ynghyd â darparu cyfleoedd cyson iddynt gaffael a chymhwysu'u medrau Cymraeg trwy brofiadau cyfoethog o fewn a thu hwnt i'r dosbarth.

Mae **trochi hwyr** yn golygu darpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd yn ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ffrydiau Cymraeg mewn ysgolion dwyieithog sydd heb brofi cyfnod cyfan o drochi cynnar yn y Gymraeg. Gall y dysgwyr hyn fod yn gwbl newydd i'r Gymraeg neu'n ailymgysylltu â darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn yr achosion cryfaf, mae darpariaeth trochi hwyr yn rhaglen ddwys a strwythuredig.

Ein hargymhellion

Dylai lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion:

- A1** Adeiladu ar arfer effeithiol a chynllunio ystod o weithgareddau cyson sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr gaffael geirfa a phatrymau cystrawennol yn fwriadus a chydlynus

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol:

- A2** Gynllunio'n fwriadus i sicrhau cyfle cyfartal i bob dysgwr gael mynediad at ddarpariaeth drochi cynnar a throchi hwyr
- A3** Gwerthuso darpariaeth drochi yn drwyadl, gan gynnwys olrhain cynnydd hwyrddyfodiaid yn gyson dros amser
- A4** Cryfhau a chysoni'r arlwy ddysgu broffesiynol am athroniaeth a dulliau addysg drochi ar gyfer pob ymarferydd

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A5** Ddatblygu canllawiau cenedlaethol ar drochi cynnar a throchi hwyr, a chomisiynu ystod o adnoddau addas ar gyfer dysgwyr o bob oed i gefnogi addysg drochi sy'n dathlu amrywiaeth Cymru
- A6** Sefydlu fforwm cenedlaethol i hyrwyddo arferion mwyaf effeithiol addysg drochi, gan gynnwys hyrwyddo trefniadau lleol i gyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol

Beth ddwyddodd ein hadroddiad thematig?

Addysg drochi yw prif ddull bron bob awdurdod lleol ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg newydd a datblygu medrau Cymraeg dysgwyr. Canfuom fod arweinwyr mewn lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, ysgolion dwyieithog, a chanolfannau trochi iaith yn blaenoriaethu addysg drochi yn effeithiol. Maent yn darparu profiadau cyfoethog i ddysgwyr mewn amgylchedd dysgu gynhwysol a Chymreig.

Canfuom fod y rhan fwyaf o arweinwyr mewn awdurdodau lleol yn cynllunio strategaethau addas er mwyn galluogi ymarferwyr i ddefnyddio dulliau trochi cynnar fel rhan annatod o ddarpariaeth y cyfnod sylfaen. Mae tua hanner yr awdurdodau lleol yn cefnogi hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Gymraeg mewn canolfannau trochi sy'n cynnig darpariaeth trochi hwyr. Mae'r ddarpariaeth drochi hwyr fwyaf effeithiol yn cael ei chynnig trwy gyfrwng rhaglenni dwys. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn meithrin medrau Cymraeg dysgwyr mewn grwpiau bach y rhan fwyaf o'r amser am gyfnod estynedig. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr mewn canolfannau trochi iaith yn darparu rhaglenni trochi hynod lwyddiannus sy'n ysgogi dysgwyr yn effeithiol. Gan fod darpariaeth i hwyrddyfodiaid mor anghyson ledled Cymru, nid yw pob dysgwr yn cael yr un cyfle i fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg yn ddigon cynnar.

Yn yr arfer orau, mae awdurdodau a chonsortia rhanbarthol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddatblygu eu dealltwriaeth o athroniaeth a dulliau trochi, a rhannu arfer effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith ddigon cyson ar wella darpariaeth er mwyn cefnogi dysgwyr i gaffael medrau Cymraeg trwy'r broses drochi.

Mae bron bob un o'r ymarferwyr yn cefnogi dysgwyr yn effeithiol trwy greu amgylchedd dysgu cynhaliol. Mae ymarferwyr yn cefnogi dysgwyr i deimlo'n gynyddol hyderus i roi cynnig ar siarad Cymraeg heb ofn methu. Yn yr achosion cryfaf, maent yn darparu amrywiaeth o brofiadau sy'n cofleidio'r dysgwyr yn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif yr ymarferwyr yn cyflwyno geirfa a phatrymau cystrawennol yn ddigon bwriadus er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad wrth gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu medrau siarad.

Mae bron bob dysgwr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu'r Gymraeg yn ystod y broses addysg drochi. O ganlyniad i drochi cynnar yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau Cymraeg yn dda ac mae hyn yn eu cefnogi i wneud cynnydd pellach ar draws y meysydd dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n cwblhau rhaglenni trochi hwyr dwys yn cyrraedd lefel hyfedredd addas er mwyn llwyddo mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Addysgu hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd ein hadroddiad thematig ar addysg hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae ein hadroddiad yn defnyddio canfyddiadau o arolygiadau a gynhaliwyd cyn mis Mawrth 2020, cyfarfodydd rhithwir a nifer fach o ymweliadau ar y safle ag ysgolion cynradd ac uwchradd. Ymgynghorom â rhieni, cynrychiolwyr o sefydliadau addysg uwch, academyddion a staff consortia rhanbarthol hefyd.

Adroddiad llawn

[Cliciwch yma i weld yr adroddiad yn llawn.](#)

Mae ein hargymhellion yn cynnwys:

Dylai ysgolion:

- A1** Sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes a diwylliant eu hardal leol a Chymru, wrth ystyried safbwyntiau gwahanol a chreu cysylltiadau â hanes a diwylliant y byd ehangach
- A2** Sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o wrth-hiliaeth ac amrywiaeth, a sut y gallant ddod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus Cymru a'r byd
- A3** Sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth o sut mae unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cyfrannu at hanes a diwylliant Cymru a'r byd ehangach

Dylai awdurdodau lleol (ALL) a chonsortia rhanbarthol (CRh) gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol addas i athrawon:

- A6** Ddatblygu eu gwybodaeth am hanes lleol a hanes Cymru, ac i rannu arfer orau
- A7** Datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o addysgu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth, a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a'r byd ehangach

Dylai Llywodraeth Cymru:

- A10** Gydweithio ag awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i sicrhau bod yr arlwy dysgu proffesiynol genedlaethol yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi'r meysydd hyn

Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Pan gânt y cyfle i wneud hynny, mae disgyblion yn mwynhau dysgu am hanes, hunaniaeth a diwylliant lleol a Chymru a chreu cysylltiadau â hanes y byd ehangach. Maent hefyd yn mwynhau astudio cyfraniad cymunedau a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Ym mwyafrif yr ysgolion, nid oes gan ddisgyblion lawer o wybodaeth am y digwyddiadau hanesyddol sydd wedi ffurfio eu hardal leol, ac ni allant enwi llawer o Gymry arwyddocaol o hanes.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o hanes pobl a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Mae mwyafrif o ysgolion cynradd yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal leol a Chymru. Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, caiff hanes lleol a hanes Cymru eu hystyried yn elfen 'ychwanegol' o'r cwricwlwm.

Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae gwersi'n cynnwys cyfeiriadau brysiog yn unig at hanes lleol a hanes Cymru.

Mae lleiafrif o ysgolion yn cynnwys hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn eu cwricwlwm. Ychydig iawn o ysgolion sy'n addysgu disgyblion am gyfraniad unigolion a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig at hanes Cymru.

Mae faint o hanes Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig sy'n cael ei astudio gan ddisgyblion TGAU a Safon Uwch yn dibynnu ar y pynciau sy'n cael eu dewis gan ddisgyblion, a'r testunau sy'n cael eu dewis o'r ystod sy'n cael eu cynnig gan y bwrdd arholi.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr mewn ysgolion yn nodi bod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle sylweddol i gyfoethogi a gwella addysgu hanes lleol a hanes Cymru. Mae llawer ohonynt yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei adlewyrchu yn eu cynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm na'u harlwy dysgu proffesiynol i staff bob tro.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae gwybodaeth, dealltwriaeth ac angerdd arweinwyr pwnc tuag at hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn cael dylanwad ar yr hyn sy'n cael ei gynnig yn y cwricwlwm hanes.

O'r athrawon hynny a ymgwymerodd â'u haddysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, ychydig ohonynt yn unig a grybwyllodd eu bod wedi cael hyfforddiant ar hanes Cymru. Ychydig iawn ohonynt a grybwyllodd eu bod wedi cael hyfforddiant mewn hanes a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae partneriaethau AGA presennol yn datblygu eu darpariaeth yn y meysydd hyn.

Yn y rhan fwyaf o ysgolion, ychydig iawn o ddysgu proffesiynol y gall athrawon fanteisio arno yn ymwneud â hanes a diwylliant lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Ychydig iawn o ddysgu proffesiynol arbenigol y mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn ei gynnig ar y meysydd penodol hyn.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cyfeirio at ddiffyg adnoddau addas ar gyfer addysgu hanes lleol, Cymru a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru

Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd ein hadroddiad thematig ar gyngor gyrfaedd a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru. Mae ein hadroddiad yn defnyddio ymweliadau â sampl o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, unedau cyfeirio disgyblion (UCD) ac addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) ledled Cymru i arsylwi sesiynau arweiniad un-i-un rhwng cynghorwyr Gyrfa Cymru a phobl ifanc. Siaradom â phobl ifanc, athrawon, cynghorwyr gyrfaedd ac arweinwyr a rheolwyr Gyrfa Cymru hefyd.

Adroddiad llawn
[Cliciwch yma i weld yr adroddiad yn llawn.](#)

Ein hargymhellion

Dylai Gyrfa Cymru:

- A1** Ddatblygu systemau a meini prawf priodol i werthuso'r effaith a gaiff gwasanaethau ar effeithiolrwydd a gwydnwch pobl ifanc wrth iddynt gynllunio gyrfa a gwneud penderfyniadau
- A2** Sicrhau bod gwerthuso effeithiol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gywir, gynhwysfawr a pherthnasol, yn llywio cynllunio strategol a gwella ansawdd
- A3** Cryfhau cysylltiadau gyda chwmnïau gyrfaedd eraill i wella cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol a datblygu arfer dda
- A4** Parhau i sicrhau bod dadansoddi o weithgareddau sicrhau ansawdd yn cael ei fwydo'n ôl i ysgolion unigol i gryfhau addysg gyrfaedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith
- A5** Sicrhau bod pob un o'r staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth pobl ifanc o werth y Gymraeg fel medr cyflogaeth
- A6** Sicrhau bod pob un o'r staff yn deall trefniadau a gweithdrefnau'r cwmni ar gyfer diogelu pobl ifanc

Beth ddywedodd ein hadroddiad thematig?

Canfuom fod y rhan fwyaf o'r bobl ifanc sy'n gymwys i gael sesiwn arweiniad yn yr ysgolion a'r lleoliadau yr ymwelom â nhw yn gwneud cynnydd da o'u gwahanol fannau cychwyn wrth greu eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Maent yn trafod eu syniadau ac yn ymateb yn dda i gwestiynau a heriau a osodir pan allai cynllun ymddangos yn beryglus. Pan fydd pobl ifanc yn dechrau eu sesiwn arweiniad gyda chynlluniau a syniadau afrealistig, mae hyn fel arfer yn deillio o ddiffyg cymorth gan eu hysgol neu leoliad. Ar ôl iddynt gael arweiniad, mae'r bobl ifanc hyn yn gwneud cynnydd da iawn tuag at ddeall y llwybrau ôl-16 sydd ar gael iddynt.

Gwelom fod y rhan fwyaf o gynghorwyr gyrfaedd wedi paratoi'n dda ar gyfer eu sesiynau arweiniad, yn enwedig ble mae ganddynt berthnasoedd sefydledig â darparwyr, ac maent yn rhannu gwybodaeth allweddol. Mae cynghorwyr yn effeithiol ac yn darparu cyngor clir a phriodol ar gyfer y camau nesaf i bobl ifanc eu cymryd. Mae cynghorwyr anghenion dysgu ychwanegol (ADY) arbenigol yn cynorthwyo pobl ifanc ag ADY wrth iddynt gynllunio pontio, ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto sut bydd Gyrfa Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu'r cymorth hwn o dan y system ADY ddiwygiedig. Er bod cynghorwyr gyrfaedd yn deall protocolau ysgolion ar gyfer diogelu ac yn gallu enwi unigolyn diogelu dynodedig eu hysgol, mae lleiafrif ohonynt yn llai clir ynglŷn â phrotocolau'r cwmni a'r unigolyn diogelu dynodedig.

Nod gweledigaeth Dyfodol Disglair Gyrfa Cymru (Gyrfa Cymru, 2021) yw targedu'r bobl ifanc sydd fwyaf angen cyngor ac arweiniad annibynnol i wneud dewisiadau gwybodus.

Fodd bynnag, canfuom nad yw hi bob amser yn glir sut mae arweinwyr a rheolwyr yn bwriadu mesur effaith ac effeithiolrwydd eu gwasanaethau a'u strategaeth gyffredinol. Er enghraifft, nid ydynt yn dadansoddi cyfran y bobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i'w hopsiwn dilyniant ôl-16 cyn cwblhau eu nod, ac nid oes strategaeth glir ychwaith i wella lefelau ymgysylltiad pobl ifanc. At ei gilydd, nid yw prosesau'r cwmni ar gyfer gwerthuso effaith ei wasanaethau wedi eu datblygu'n ddigonol, gyda gormod o ffocws ar foddhad cleientiaid a dim dadansoddi pa effaith a gaiff y gwasanaeth ar wella cynllunio'r ffordd y mae pobl ifanc yn cynllunio gyrfa ac yn gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn rhwystro gallu'r cwmni i seilio cynllunio gwelliant ar ddadansoddiad dibynadwy neu drylwyr o gryfderau ei wasanaeth a'r meysydd i'w gwella.

Cyfeirnodau

Arolygiaeth Prawf EM, Estyn, Ofsted (2022). A joint inspection of education, training and employment services in youth offending teams in England and Wales. Manceinion: Arolygiaeth Prawf EM. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/inspections/ete-thematic/>

Asbury, K. (2021) How is COVID-19 affecting the mental health of children with Special Educational Needs and Disabilities and their families? Journal of Autism and Developmental Disorders, 51, 1772-1780. Ar gael o: https://eprints.whiterose.ac.uk/159930/12/Asbury_et_al_2021_.pdf

Davies, S. (2021) The Education of Autistic Pupils in Wales: Preliminary Report. Abertawe: Prifysgol Abertawe.

Education Support (2020) Covid-19 and the classroom: working in education during the coronavirus pandemic: the impact of education professionals' mental health and wellbeing. Llundain: Education Support. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.educationsupport.org.uk/media/rn4ek0hy/covid-19_and_the_classroom.pdf

End Child Poverty, Loughborough University (2022) Local indicators of child poverty after housing costs, 2020/21. Swydd Gaerlŷr: Canolfan Ymchwil mewn Polisi Cymdeithasol, Prifysgol Loughborough. [Ar-lein]. Ar gael o: https://endchildpoverty.org.uk/wp-content/uploads/2022/07/Local-child-poverty-indicators-report-2022_FINAL.pdf

Estyn (Heb ei ddyddio) Cynlluniau gweithredu ôl-arolygiad. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-01/Post%2520inspection%2520action%2520plans%2520guidance%2520cy_0.pdf

Estyn (Heb ei ddyddio) Arweiniad ynglŷn ag ysgolion yn y categori mesurau arbennig a'r cyfnod ymsefydlu ar gyfer athrawon newydd gymhwyso. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-01/Guidance%2520regarding%2520schools%2520in%2520special%2520measures%2520and%2520the%2520induction%2520of%2520NQTs%2520cy.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Ysgolion uwchradd 1: cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo ysgolion uwchradd wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Ysgolion-uwchradd-1.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Ysgolion uwchradd 2: cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo ysgolion uwchradd i werthuso addysg yn sgil ei effaith ar ddysgu. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Ysgolion-uwchradd-2.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Ysgolion arbennig annibynnol: Cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo i gryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion arbennig annibynnol. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Ysgolion-arbenig-annibynnol.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Unedau cyfeirio disgyblion: Cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo UCDAu i baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Colegau arbenigol annibynnol: cwestiynau hunanfyfrio i gefnogi dysgu proffesiynol mewn colegau arbenigol annibynnol. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Colegau-arbenigol-annibynnol.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Gwasanaethau addysg llywodraeth leol: cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo swyddogion mewn gwasanaethau addysg llywodraeth leol i werthuso eu gwaith. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Gwasanaethau-addysg-llywodraeth-leol.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Dysgu oedolion yn y gymuned: cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo partneriaethau dysgu oedolion i wella cydweithio. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Dysgu-oedolion-yn-y-gymuned.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Addysg gychwynnol i athrawon 2: cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo i werthuso ansawdd mentora mewn addysg gychwynnol i athrawon. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Addysg-gychwynnol-i-athrawon-2.pdf>

Estyn (Heb ei ddyddio) Cymraeg i oedolion: cwestiynau hunanfyfrio i gynorthwyo darparwyr Cymraeg i oedolion i wella medrau siarad dysgwyr. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://annual-report.estyn.gov.wales/app/uploads/2022/09/Cymraeg-i-oedolion.pdf>

Estyn (2018) Gwella addysgu. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-07/Improving%20teaching%20-%20cy.pdf>

Estyn (2020a) Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru: 2018-2019. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-01/ESTYN%20Annual%20Report%202020_WELSH.pdf

Estyn (2020b) Dathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant: Arfer dda o ran cefnogi dysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) mewn ysgolion a cholegau. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-02/Celebrating%20diversity%20and%20promoting%20inclusion%20cy.pdf>

Estyn (2021a) Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20673/cynnwys>

Estyn (2021b) Arfer effeithiol: Dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i gymathu â'r gymuned Gymraeg. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/dulliau-dysgu-ffurfiol-ac-anffurfiol-syn-galluogi-dysgwyr-i-gymathu-ar-gymuned>

Estyn (2022a) Y Cwricwlwm i Gymru: sut mae consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion? Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-03/Y%20Cwricwlwm%20i%20Gymru%20%E2%80%93%20sut%20mae%20consortia%20rhanbarthol%20ac%20awdurdodau%20lleol%20yn%20cynorthwyo%20ysgolion.pdf>

Estyn (2022b) Cyngor ac arweiniad diduedd ar yrfaoedd i bobl ifanc 14-16 oed a ddarperir gan gynghorwyr Gyrfa Cymru. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-05/Cyngor%20ac%20arweiniad%20diduedd%20ar%20yrfaoedd%20i%20bobl%20ifanc%2014-16%20oed%20a%20ddarperir%20gan%20gynghorwyr%20Gyrfa%20Cymru_0.pdf

Estyn (2022c) Arolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/adolygiad-or-cwricwlwm-16-19-presennol-yng-nghymru>

Estyn (2022d) 'Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon' – profiadau o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/21018/contents>

Estyn (2022e) Dydyn ni ddim yn dweud wrth ein hathrawon, ond mae angen i ysgolion wybod – adroddiad i ddysgwyr. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-12/Profiadau%20o%20aflonyddu%20rhywiol%20rhwng%20cyfoedion%20ymhlith%20disgyblion%20ysgolion%20uwchradd%20yng%20Nghymru.pdf>

Estyn (2022f) Ysgolion pob oed yng Nghymru – adroddiad ar heriau a llwyddiannau sefydlu ysgolion pob oed. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20816/contents>

Estyn (2022g) Arfer effeithiol: ymagwedd wahanol at ADY. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/ymagwedd-wahanol-ady>

Estyn (2022h) Addysg Drochi Cymraeg – strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/document-page/20964/cynnwys>

Estyn (2022i) Crynodeb o alwadau ac ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion ac UC Dau. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-02/Crynodeb%20o%20alwadau%20ac%20ymweliadau%20ymgysylltu%20ag%20ysgolion%20ac%20UC%20Dau%20%E2%80%93%20hydref%202021.pdf>

Estyn (2022j) Gwaith ymgysylltu: diweddariad am y sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned – hydref 2021. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2022-03/Gwaith%20ymgysylltu%20-%20diweddariad%20am%20y%20sectorau%20addysg%20bellach%20a%20dysgu%20oedolion%20yn%20y%20gymuned%20%E2%80%93%20hydref%202021.pdf>

Estyn (2022k) Arfer effeithiol: ymchwil sydd yn sail i strategaethau dysgu ac addysgu. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.estyn.llyw.cymru/arfer-effeithiol/ymchwil-sydd-yn-sail-i-strategaethau-dysgu-ac-addysgu>

King's College London (2022) Child and adolescent mental health during the COVID-19 pandemic. Llundain: King's College London. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.kcl.ac.uk/news/child-and-adolescent-mental-health-during-the-covid-19-pandemic>

Llywodraeth Cymru (2017), Ysgolion sy'n achosi pryder: canllawiau statudol i ysgolion ac awdurdodau lleol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (222/2017). [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/ysgolion-sy%27n-peri-pryder-canllawiau-statudol-i-ysgolion-ac-awdurdodau-lleol.pdf>

Llywodraeth Cymru (2020) Review of the impact of mass disruption on the wellbeing and mental health of children and young people, and possible therapeutic interventions. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (62/2020) [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-09/review-impact-mass-disruption-wellbeing-mental-health-children-young-people-possible-therapeutic-interventions_0.pdf

Llywodraeth Cymru (2021) Adolygiad cyflym o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/adolygiad-cyflym-or-ganolfan-dysgu-cymraeg-genedlaethol.html>

Llywodraeth Cymru (2022) Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Ebrill 2021 i Fehefin 2022. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (SB 27/2022). [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-ebrill-2021-i-fehefin-2022.html>

Llywodraeth Cymru, Addysg Cymru (2021), Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018: Canllaw technegol i weithredu'r Ddeddf yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu (2021 i 2022). Caerdydd: Llywodraeth Cymru. (WG43966). [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-11/gweithredu-deddf-aln-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-2018-canllaw-technegol-v2.pdf>

Llywodraeth Cymru, Addysg Cymru (2022a), Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, (WG43760). [Ar-lein]. Ar gael o: <https://hwb.gov.wales/api/storage/d3bbf845-5df4-47bd-9ada-55cb56dc15e5/220914-cwricwlwm-ar-gyfer-lleoliadau-meithrin-a-ariennir-nas-cynhelir.pdf>

Panchal, U. et al. (2021) The impact of COVID-19 lockdown on child and adolescent mental health: systematic review. *European Child & Adolescent Psychiatry*, Aug (18), 1-27. Ar gael o: <https://link.springer.com/content/pdf/10.1007/s00787-021-01856-w.pdf?pdf=button%20sticky>

Pearcey, S. et al. (2020) Report 03: Parents/carers report on their own and their children's concerns about children attending school. Rhydychen: Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. [Ar-lein]. Ar gael o: https://cospaceoxford.org/wp-content/uploads/2020/08/Co-SPACE-supp-report05_School-concerns.pdf

Prydain Fawr, Adran Addysg (2021) Understanding Progress in the 2020/21 Academic Year: Findings from the summer term and summary of all previous findings. Llundain: Adran Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1062286/Understanding_progress_in_the_2020_to_2021_academic_year_Findings_from_the_summer_term_and_summary_of_all_previous_findings.pdf

Rowlands, M. (2022) Adolygiad presenoldeb – goblygiadau'r pandemig COVID-19 ar bresenoldeb mewn ysgolion. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/adolygiad-presenoldeb-goblygiadau-pandemig-covid-19-ar-bresenoldeb-mewn-ysgolion.pdf>

Sefydliad Gwaddol Addysg (Heb ei ddyddio) Teaching and Learning Toolkit: an accessible summary of education evidence. Llundain: Sefydliad Gwaddol Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/teaching-learning-toolkit?impact=-2..8>

Sefydliad Gwaddol Addysg (Heb ei ddyddio) Early Years Toolkit: an accessible summary of educational research for early years teaching. Llundain: Sefydliad Gwaddol Addysg. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://educationendowmentfoundation.org.uk/education-evidence/early-years-toolkit>

Y Rhydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (2022) Iechyd meddwl a lles ieuencid yng Nghymru: Cymharu canfyddiadau o arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2019 a 2021 gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Caerdydd: Prifysgol Caerdydd. [Ar-lein]. Ar gael o: <https://www.shrn.org.uk/mhw-briefing-2022/>